

Adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon

2016/17



Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu Adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon 2016/17

Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol ag Adran
11(5) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol â Pharagraff 17 o Atodlen 2
o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

Argraffwyd dan orchymyn Tŷ'r Cyffredin ar 27 Chwefror 2018

HC 798

© Hawlfraint Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu 2018

Gellir atgynhychu'r testun yn y ddogfen hon (ac eithrio, pan fyddant yn bresennol, Arfbeisiau Brenhinol a'r holl logos adrannau neu asiantaethau) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhychu'n gywir a nas defnyddir ef mewn cyd-destun camarweiniol.

Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a nodi teitl y ddogfen. Pan fyddwn wedi nodi unrhyw ddeunydd trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan y deiliaid hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau sy'n gysylltiedig â'r cyhoeddiad hwn at:

Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu

90 High Holborn
London
WC1V 6BH

Ffôn: 0300 020 0096

E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

ISBN 978-1-5286-0163-4

CCS1217603636 12/17

Wedi'i argraffu ar bapur yn cynnwys lleiafswm cynnwys ffibr wedi'i ailgylchu o 75%

Argraffwyd yn y Deyrnas Unedig ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi gan yr APS Group

Cynnwys

Adroddiad perfformiad **4**

Trosolwg **5**

Dadansoddiad o berfformiad **14**

Adroddiad atebolrwydd **52**

Adroddiad llywodraethu corfforaethol **53**

Adroddiad cydnabyddiaeth a staff **74**

Adroddiad atebolrwydd seneddol
ac archwiliad **102**

Datganiadau ariannol **106**



Adroddiad perfformiad

Trosolwg

Amdanom ni – pwy ydym a'r hyn yr ydym yn ei wneud¹

Mae Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC) yn goruchwyllo system gwynion yr heddlu yng Nghymru a Lloegr ac yn gosod y safonau y dylai'r heddlu eu dilyn wrth ymdrin â chwynion. Mae ganddo rwymedigaeth statudol i sicrhau a chynnal hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu. Mae'r IPCC yn ymchwilio i achosion difrifol a sensitif, ac mae'n delio ag apeliadau penodol. Rydym yn gwneud hyn yn annibynnol ar yr heddlu, llywodraeth, a grwpiau budd.

Ein gwerthoedd yw:

- cyfiawnder a pharch at hawliau dynol
- annibyniaeth
- amrywiaeth
- unplygrwydd
- bod yn agored

Ein cenhadaeth yw gwella hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu.

Ein gweledigaeth yw bod ymddiriedaeth ynom y byddwn yn chwilio am y

gwirionedd a dal yr heddlu i gyfrif. Gallwch ddarllen am ein comisiynwyr a staff uwch ar ein gwefan: <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20170914130755/https://www.ipcc.gov.uk/page/chair-and-commissioners>

Ein trawsnewidiad i ddod yn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Ar 31 Ionawr 2017, derbyniodd *Deddf Plismona a Throseddau 2017*, sy'n symleiddio a lliflinio system gwynion yr heddlu'r Cydsyniad Brenhinol. Mae'r Ddeddf yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion polisi, ac yn cyflwyno nifer o newidiadau yr ydym wedi gofyn amdanynt – i system gwynion yr heddlu ac i strwythur yr IPCC. Bydd hyn yn gychwyn ar gyfnod newydd i'n sefydliad.

Ni fydd gan yr IPCC strwythur Comisiwn bellach, felly bydd yn cael ei ailenwi yn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (www.policeconduct.gov.uk). Yn arwain y sefydliad bydd Cyfarwyddwr Cyffredinol, yn cael ei gefnogi gan Ddirprwyon, Cyfarwyddwyr Rhanbarthol a Chyfarwyddwr i Gymru. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio tuag at y trosglwyddiad yn gynnar yn 2018.

Darllenwch ragor ynglŷn â'n paratodau am y newidiadau hyn ar ein gwefan (<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20170914125737/https://www.ipcc.gov.uk/page/becoming-the-iopc>).

¹ Nodwch os gwelwch yn dda bod yr adroddiad hwn yn trafod y cyfnod 2016/17 ac yn rhoi manylion gwaith a wnaed tra'r oeddem yn gweithredu fel yr IPCC.

Rhagair y Cadeirydd



Roedd hon yn flwyddyn dyngedfennol i'r IPCC a system gwynion yr heddlu, wrth i ni baratoi am newidiadau mawr yn dilyn y *Ddeddf Plismona a Throseddau* (PCA). Bydd yr IPCC yn newid ei enw a'i strwythur llywodraethu, gan ddod yn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) dan arweiniad Cyfarwyddwr Cyffredinol a bwrdd unedol (www.policeconduct.gov.uk). Bydd y system gwynion yn cael ei lliflinio a'i diwygio, gyda mwy o gyfleoedd i ddatrys materion priodol yn gynnar, un hawl i adolygiad yn annibynnol ar y gwasanaeth heddlu, a mwy o bwerau i'r IOPC.

Dyma'r pethau y mae'r IPCC wedi gofyn amdanynt, i ni fedru cyflawni ein rôl ehangach, ac fel bod y system ei hun yn gallu rhoi mwy o bwyslais ar y defnyddwyr a chynnig datrysiadau effeithiol. Er i ni ddadlau dros ddiwygiadau mwy sylfaenol – ail-adeiladu'r system gwynion o'r dechrau, a chreu Ombwdsmon Plismona, yn rhoi adroddiadau i'r Senedd – rydym yn croesawu'r newidiadau y cytunwyd arnynt. Maent yn cynnig y sylfaen ar gyfer system well a mwy effeithiol, wedi ei hanelu at ddysgu gwersi, gwella a datrys, nid dim ond cosbau disgyblu. Bydd yn bwysig

sicrhau bod y newid diwylliant hwn a'r dull mwy hyblyg yn cael eu hadlewyrchu yn y rheoliadau a'r cyfarwyddyd sy'n cael eu llunio ar hyn o bryd.

Mae'r system gwynion, a rôl annibynnol yr IPCC, yn cynnig peirianweithiau atebolrwydd hanfodol ar gyfer y gwasanaeth heddlu. Mae sawl agwedd i atebolrwydd. Weithiau, a hynny'n hollol iawn, mae angen i unigolion gael eu dal yn gyfrifol yn bersonol. Gall hynny olygu amrywiaeth o ganlyniadau: o ymddiheuriad, hyd at reoli perfformiad a hyfforddiant, i ddiswyddo neu hyd yn oed gosb droseddol. Ond mae'r un mor bwysig i'r system gyfan fod yn atebol: dysgu oddi wrth fethiannau neu weithdrefnau anniogel a chywiro cymhelliad gwrthnysig sy'n hybu ymddygiad amhriodol neu sy'n creu risg.

Felly, mae cryfhau gallu'r IOPC i helpu i ddatblygu arfer gorau a dylanwadu ar bolisi'r un mor bwysig â sicrhau adnoddau i nifer gynyddol o ymchwiliadau. Nid trwy ddamwain y gwelwyd, ers i'r IPCC gael ei sefydlu yn 2004, bod marwolaethau yn y ddalfa gan yr heddlu wedi mwy na haneru. Mae pob marwolaeth yn drasiedi, ond mae'r gostyngiad sylweddol hwn yn deillio i raddau helaeth o'r gwersi a ddysgwyd trwy ymchwiliadau annibynnol, ac mae wedi cael dylanwad ar arfer proffesiynol a gymeradwyir a hyfforddiant.

Nid dyma'r unig ffordd yr ydym yn ceisio dylanwadu ar arfer er gwell. Ers amser, fel yr adroddwyd y llynedd, rydym wedi bod yn galw am well monitro a dadansoddi ar y defnydd o rym a dulliau atal, i ganfod tueddiadau a galluogi ymyrraeth gynnar os

oes pryderon. Erbyn hyn mae'n digwydd, a dylai wneud cyfraniad sylweddol at atal defnydd anniogel neu amhriodol.

Tanlinellodd llawer o'n hymchwiliadau, yn neilltuol y rhai i farwolaethau, pa mor fregus yw'r rhai sy'n marw neu sy'n cael eu hanafu yn ddifrifol yn dilyn cyswllt â'r heddlu. Mae iechyd meddwl yn parhau i fod yn llinyn trasig sy'n rhedeg trwy ormod o'n hymchwiliadau, ac rydym wedi galw am well cefnogaeth gofal iechyd yn ogystal â gwell hyfforddiant i'r gwasanaeth heddlu. Rydym yn parhau i gredu bod y penderfyniad i beidio â chomisiynu gofal iechyd yr heddlu trwy'r GIG wedi bod yn gyfle a gollwyd.

Mae atebolrwydd yn golygu hefyd y dylai swyddogion neu staff yr heddlu sydd wedi bod yn dystion i ddigwyddiad fod yn barod i gydweithredu yn llawn ag ymchwiliadau, gan roi eu hadroddiadau unigol mor gyflym â phosibl, ac ateb cwestiynau mewn cyfweiliad mor llawn ag y gallant. Nid yw'n dderbyniol i adroddiad tyst heddlu am farwolaeth wneud dim ond nodi pryd y daeth ar ddyletswydd ac yr aeth oddi ar ddyletswydd. Yn y mwyafrif llethol o achosion y mae'r IPCC yn ymdrin â nhw, gan gynnwys 24 allan o 27 o ddigwyddiadau arfau saethu, mae'r swyddogion yn cael eu trin fel tystion trwy'r amser; ond maent yn dystion yr ydym ni a'r cyhoedd yn disgwyl adroddiadau llawn a manwl o'r hyn a welsant, a glywsant ac a wnaethant yn unigol ganddynt.

Rydym yn aros am benderfyniad yr Ysgrifennydd Cartref ar ein cyfarwyddyd statudol arfaethedig ar weithdrefnau ar ôl digwyddiadau o farwolaeth neu anafiadau difrifol. Yn y cyfamser, yn

anffodus, rhoddwyd ein protocol gyda'r gwasanaeth heddlu yng nghyswllt ein rolau mewn digwyddiadau terfysgol mawr, ar brawf yn ystod yr ymosodiadau terfysgol dychrynlyd yn Llundain. Credwn ni a'r gwasanaeth ei fod wedi gweithio'n dda.


Eleni hefyd gwelwyd carreg filltir o bwys yn yr ymchwiliadau Hillsborough anferth (www.policeconduct.gov.uk/investigations/our-investigations/hillsborough-our-investigation): yr ymchwiliad mwyaf a mwyaf cymhleth yr ymgymerodd yr IPCC ag o erioed. O ganlyniad i'n hymchwiliad annibynnol i ganlyniadau'r trychineb, a'r ymchwiliad a reolwyd yn rhannol i'r hyn a wnaed ar y diwrnod ei hun, mae Gwasanaeth Erlyn y Goron wedi cyhuddo chwech o unigolion o droseddau yn amrywio o ddynladdiad trwy esgeulustod difrifol i wyrddroi cwrs cyfiawnder. Deilliodd hyn o'r gwaith manwl a thrylwyr a wnaed gan y timau ymchwilio, a'u hymrwymiad i gael at y gwirionedd am beth a ddigwyddodd. Nid yw'r gwaith ar ben eto: mae troseddau eraill yn cael eu hystyried, a bydd angen ymarfer datgelu anferth i gefnogi'r achosion llys sydd ar ddod.

Dyma drydedd flwyddyn y rhaglen ehangu uchelgeisiol, sydd wedi arwain at ddyblu ein staff, sydd wedi gadael i ni ehangu'r amrywiaeth o bobl yr ydym yn eu cyflogi, mewn ymchwiliadau yn arbennig, ac i weithio ar bron i chwe gwaith cymaint o ymchwiliadau annibynnol. Ond, mae sialensiau ymhlyg mewn ehangu mor gyflym. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn helpu, o ran llinio'r system gwynion ei hun a darparu strwythur newydd sydd wedi ei ddylunio ar gyfer y swmp o waith yr ydym yn

ei gymryd ar hyn o bryd. Ond rydym hefyd yn archwilio ac yn mireinio ein prosesau mewnol ein hunain. Eleni rydym wedi bod yn datblygu ein systemau rheoli perfformiad a'n hyfforddiant staff, ac yn treialu gweithdrefnau gwell a mwy effeithlon. Rydym yn cwblhau ein hymchwiliadau yn fwy cyflym na ddwy flynedd yn ôl, ac rydym yn gwybod y gallwn wella eto. Yn ystod y flwyddyn nesaf, nawr bod yr ehangu mawr ar ben, bydd yr IOPC yn gallu cyfnerthu ac adeiladu ar y newidiadau a'r gwelliannau hynny.

Bydd teitl a strwythur y sefydliad yn newid yn ystod y flwyddyn sy'n dod. Ond, yr hyn na fydd yn newid fydd ei rôl a'i werthoedd: ei bwyslais ar annibyniaeth, tegwch ac atebolrwydd. Bydd yr IOPC, yn yr un modd â'r IPCC, yn gweld bod ei weithredoedd a'i benderfyniadau yn destun diddordeb a thrafodaeth gyhoeddus sylweddol, a hynny'n hollol iawn. Nid yw annibyniaeth yn gyfforddus yn aml, ac mae angen ei arddel a'i amddiffyn yn gyson.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'n holl gomisiynwyr ac uwch arweinwyr, sydd wedi llywio'r sefydliad trwy'r sialensiau mawr ehangu a thrawsnewid, a'r holl staff, sydd wedi cyfrannu at y gwaith trwm ei ofynion a phwysig yr ydym yn ei wneud.



Y Fonesig Anne Owens

Sylwer, ers i'r adroddiad hwn gael ei lunio, ein bod wedi trawsnewid i ddod yn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu. Michael Lockwood yw ein Cyfarwyddwr Cyffredinol newydd. Gallwch ddarllen rhagor am ein strwythur newydd ar ein gwefan yn www.policeconduct.gov.uk

Materion a risgiau allweddol

Mae gan yr IPCC chwe amcan yr ydym yn rhoi adroddiad arnynt yn y ddogfen hon. Rydym yn dynodi'r risgiau strategol sylweddol i'n hamcanion, yn asesu'r rhain ac yna yn eu rheoli trwy ystod o weithgareddau lliniaru a lleihau risg. Cyflwynwyd diweddariadau cyson ar y risgiau strategol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'r Comisiwn. Rheolir risgiau lefel is o fewn cyfarwyddiaethau, rhaglenni a phrosiectau fel fo'n briodol. Ceir proses uwchgyfeirio ac isgyfeirio i sicrhau bod risgiau yn cael eu rheoli ar y lefel briodol.

Mae'r Datganiad Llywodraethu ar [dudalen 63](#) yn disgrifio'r risgiau mawr yr ydym yn eu hwynebu a'r camau lliniaru sydd yn eu lle. Gall y risgiau hyn gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r rhaglen newid oedd ar y gweill yn 2016/17. Cyflwynwyd hyn i'n galluogi i gyflawni llwyth gwaith mwy, yn ogystal â newidiadau deddfwriaethol a llywodraethol, sydd yn parhau yn 2017/18.

Crynodeb o'n perfformiad yn ystod 2016/17

Rhoddir rhagor o wybodaeth am y prosiectau y gwnaethom eu cyflawni yn ystod 2016/17 yn yr adran ddadansoddi perfformiad o'r adroddiad hwn ([gweler tudalen 14](#)).

Buom yn gweithio i gynyddu hyder y cyhoedd yn system gwynion heddlu drwy:

- gychwyn **590** o ymchwiliadau annibynnol i'r materion mwyaf difrifol a sensitif (www.policeconduct.gov.uk/investigations/our-investigations)
- ystyried **4,026** apêl am sut y gwnaeth yr heddlu ymdrin â chwynion gan y cyhoedd
- wella **tryloywder** ein gwaith trwy gyhoeddi crynodebau cyson o'n hymchwiliadau a'u canlyniadau (www.policeconduct.gov.uk/investigations/investigation-summaries-and-learning-recommendations)
- ddylanwadu ar ddatblygiad y Mesur Plismona a Throseddau er mwyn gwneud y system gwynion yn un sy'n rhoi mwy o bwyslais ar y defnyddiwr a **chanlyniadau** ac yn llai cymhleth
- gynnal ein seithfed arolwg hyder y cyhoedd a dosbarthu'r canlyniadau
- gyhoeddi Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ddiwygiedig ([gweler tudalen 17](#)) a datblygu gwaith **ymgysylltu cymunedol** ar gyfer ymchwiliadau critigol
- ddwyn amrywiaeth o bobl at ei gilydd yn ein **grŵp cyfeirio rhanddeiliaid**, a rhedeg dau ddigwyddiad ymgysylltiad i'r Comisiwn ar gyfer amrywiaeth o rhanddeiliaid

Rydym wedi helpu i wella plismona trwy:

- gyhoeddi **103** argymhelliad² i wella arferion yr heddlu, diweddarau polisi neu newid y ffordd y mae'r swyddogion heddlu/aelodau staff yn cael eu hyfforddi ([gweler tudalennau 37 a 39 a 40](#)) (www.policeconduct.gov.uk/investigations/investigation-summaries-and-learning-recommendations)
- rhannu gwersi o'n gwaith trwy dri o'n bwletinau **Dysgu'r gwersi** ([gweler tudalen 35](#))³ (www.policeconduct.gov.uk/research-and-learning/learning-and-recommendations/learning-lessons)
- ddatblygu **cysylltiadau gwaith** agosach gydag Arolygiaeth Cwnstablfaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub, y Coleg Plismona a'r Gymdeithas Ymweld â'r Ddalfa Annibynnol i rannu gwybodaeth a gwella safonau
- weithio gyda lluoedd heddlu unigol a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu i lunio **themâu a gwersi** o ymchwiliadau ac apeliadau
- weithio gydag achwynwyr a grwpiau rhanddeiliaid i godi **ymwybyddiaeth o faterion** sy'n cyfrannu at broblemau mewn plismona

**Atgyfeiriadau yn 2016/17**

Derbyniwyd

3,880**o atgyfeiriadau gan luoedd heddlu yn 2016/17⁴.**

Roeddem yn anelu at brosesu **70%** o atgyfeiriadau cyn pen tri diwrnod gwaith ac fe wnaethom yn well na hyn, gan ymdrin â 72% o fewn yr amserlen. Yr amser cyfartalog i brosesu atgyfeiriadau oedd pum niwrnod gwaith.

² Mae'r IPCC yn gwneud argymhellion gwersi a ddysgwyr i'r heddlu, neu sefydliadau eraill perthnasol, ar ôl ein hymchwiliadau. Gall ein hargymhellion gael eu gwneud i luoedd heddlu unigol neu i'r holl luoedd heddlu. Rydym hefyd yn rhoi argymhellion ar ôl gwneud penderfyniadau ar rai mathau o apeliadau.

³ Trwy ddefnyddio astudiaethau achos a chwestiynau allweddol i luoedd heddlu eu hystyried, mae'r bwletin yn helpu'r gwasanaeth heddlu i ddysgu gwersi o ymchwiliadau i gwynion a materion ymddygiad.

⁴ Mae rhagor o wybodaeth am y modd yr ydym yn ymdrin ag atgyfeiriadau ar ein gwefan: www.policeconduct.gov.uk/investigations/what-we-investigate-and-next-steps



Ymchwiliadau annibynnol yn 2016/17

Fe wnaethom gwblhau cyfanswm o **446** o ymchwiliadau annibynnol – **187 yn fwy nag yn ystod y flwyddyn flaenorol.**

Mae'r amser a gymerwn ar gyfartaledd i gwblhau ymchwiliadau annibynnol wedi gostwng o bron i **dri mis** ers **2014/15 i 239 o ddyddiau gwaith.** Mae gwaith ar y gweill i leihau hyn ymhellach.

Rydym wedi sefydlu **Cyfarwyddiaeth Ymchwiliadau Mawr** i gyfnerthu a datblygu'r ffordd yr ydym yn ymdrin ag ymchwiliadau mawr a chymhleth.

Agorwyd **590** o ymchwiliadau gennym.

Fe wnaethom barhau i weithio ar ein **hymchwiliad Hillsborough anferth, yn anfon ffeiliau i Wasanaeth Erlyn y Goron, yn paratoi ar gyfer achosion llys, ac yn gweithio ar yr adroddiad terfynol, i'w gyhoeddi pan fydd yr holl gamau llys wedi cael eu cwblhau.**



Apeliadau yn 2016/17

Fe wnaethom brosesu
a chwblhau:

4,026

apêl yn 2016/17, ac o'r
rheini roedd 3,568
yn ddilys.⁵

Cadarnhawyd **40%**
o'r apeliadau dilys a
wnaed ar ôl
ymchwiliadau'r heddlu i
gwyn gennym.

Cadarnhawyd **1,343**
o apeliadau yn
gyffredinol.

Mae'r baich o achosion
gweithredol o ran
apeliadau wedi bod yn
gymharol sefydlog ar hyd
y flwyddyn; gyda
53 yn fwy o apeliadau
gweithredol yn
agored ar ddechrau 2016/17
nag ar ddechrau'r flwyddyn.

⁵ Y prif ystyriaethau wrth asesu a yw'r apêl yn ddilys yw: 1. A yw'r apêl yn gyflawn?

2. A oes hawl i apelio at yr IPCC yn y sefyllfa hon? 3. A yw'r apêl wedi cael ei chyflwyno cyn pen 28 diwrnod?

Dadansoddiad o berfformiad

Cyd-destun o newid yw'n un ni – newid i system gwynion yr heddlu a disgyblu a gyflwynwyd trwy *Ddeddf Plismona a Throseddu 2017*, a dderbyniodd y Cydsyniad Brenhinol yn Ionawr 2017; newid yng ngwaith yr IPCC wrth i ni weithio tuag at drawsnewid i ddod yn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC); a chyd-destun cyhoeddus a chymunedol sy'n newid.

Mae'r adran hon yn esbonio ein cynnydd mewn cymhariaeth â'r gwaith a nodwyd yn ein cynllun busnes ar gyfer 2016/17.

AMCAN STRATEGOL UN: **gwella hyder y grwpiau hynny sydd â'r lleiaf o hyder yn system gwynion yr heddlu**

Yn ystod 2016/17, agorwyd 590 o ymchwiliadau a phroseswyd a chwblhawyd 4,026 o apeliadau (www.policeconduct.gov.uk/investigations/our-investigations). Mae'r gwaith hanfodol hwn yn sicrhau bod y cyhoedd yn gallu bod yn hyderus bod goruchwyliaeth annibynnol ar system gwynion yr heddlu.

Arolwg hyder y cyhoedd

Yn Chwefror 2017, cyhoeddwyd y seithfed mewn cyfres o arolygon a gomisiynwyd gan yr IPCC ers ein ffurfio (www.policeconduct.gov.uk/research-and-learning/statistics/public-confidence-and-engagement). Mae'r arolwg hyder y cyhoedd yn edrych ar ganfyddiadau'r

cyhoedd a'u hymwybyddiaeth o'r heddlu, y system gwynion, a'r IPCC. Mae'r canlyniadau yn cael eu bwydo i mewn i'n gwaith ehangach i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona, sicrhau atebolrwydd a lledaenu arfer gorau a safonau uchel o ran gwasanaeth.

Dengys ein harolwg diweddaraf, oedd yn cynnwys dros 4,000 o gyfweiliadau wyneb yn wyneb, fod y cyhoedd, yn gyffredinol, yn fwy tebygol o ddweud y byddent yn cwyno am driniaeth wael gan yr heddlu, a'u bod yn fwy hyderus y byddai eu cwyn yn cael ei thrin yn deg. Gwellodd y canlyniadau ar gyfer pobl ifanc a phobl o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig hefyd, ond mae'r ffigyrau yn sylweddol is na grwpiau eraill. Maent yn parhau yn llai tebygol o ymddiried yn y broses ac yn fwy tebygol o fod ofn canlyniadau negyddol os byddant yn cwyno.

Mae'r mwyafrif helaeth o'r cyhoedd hefyd yn parhau i gredu y dylid ymchwilio i ddigwyddiadau mwy difrifol – megis marwolaethau yn y ddalfa neu gyhuddiadau o lygredd difrifol – yn annibynnol. Parhaodd yr ymwybyddiaeth o'r IPCC yn gymharol sefydlog, ond mae cyfran fwy o bobl sy'n gwybod amdanom yn cydnabod nad ydym yn rhan o'r heddlu, a'n bod yn ddiuedd.

Rydym yn cydnabod fod angen gwneud mwy i wella'r hyder a'r ymddiriedaeth yn system gwynion yr heddlu ymhellach, ac rydym yn parhau i ganolbwyntio ar y grwpiau sydd â lefelau is o hyder ac ymddiriedaeth. Rydym yn gobeithio y bydd yr arolwg yma yn helpu'r lluoedd heddlu eu hunain, a'r comisiynwyr yr heddlu a throseddu a fydd, yn fuan, yn cael mwy o gyfrifoldebau yn y system gwynion.

Gwaith cydweithredol i wella'r hyder mewn plismona

Rydym yn parhau i ddefnyddio gwersi ac ymchwil o'n hymchwiliadau, gwaith achos a gwaith goruchwyllo i annog gwelliannau ar draws plismona.

Cyfarfu ein comisiynwyr yn gyson ag uwch swyddogion heddlu a chomisiynwyr yr heddlu a throseddu i drafod achosion a'r gwersi sy'n deillio ohonynt. Rydym wedi cryfhau ein gwaith cyswllt â lluoedd heddlu a goruchwyllo trwy ddatblygu rôl ein tîm goruchwyllo.

Rydym hefyd wedi datblygu cysylltiadau gwaith nes gyda sefydliadau eraill sy'n ymwneud â gwaith goruchwyllo'r heddlu. Cynhelir cyfarfodydd ar y cyd yn gyson ar lefel uwch gydag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi a'r Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) a'r Coleg Plismona, i drafod materion trawsbynciol, fel asesiadau bregusrwydd a'r cynlluniau ar gyfer uwch-gwynion⁶.

Dynododd adroddiadau PEEL HMICFRS yn 2016⁷ bryderon am adnabod ac atgyfeirio digwyddiadau i'r IPCC sy'n ymwneud â swyddogion yn cam-ddefnyddio eu sefyllfa er eu budd rhywiol. Nid oedd y lluoedd heddlu i gyd yn cydnabod bod hyn yn llygredd difrifol ac y dylid ei atgyfeirio atom ni bob amser.

Aethom ati felly i weithio gyda Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu i roi cyfarwyddyd i lluoedd heddlu atgyfeirio atom ni unrhyw ymchwiliadau o'r fath fel ein bod yn gallu pennu a oedd arnynt angen goruchwylloeth annibynnol. Casglwyd gwybodaeth hefyd am achosion caeedig. Yn dilyn hyn, newidiodd y llywodraeth y ddeddfwriaeth, i egluro y dylai honiadau o gam-drin swydd er budd rhywiol gael eu hatgyfeirio atom ni yn orfodol. (Rhyddhawyd nodyn cyngori yn cadarnhau'r newid hwn gennym ym Mai 2017. <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20170914105252/http://www.ipcc.gov.uk/page/statutory-guidance>)

⁶ Bydd y system uwch gwynion newydd yn cynnig llwybr i sefydliadau, megis elusennau a grwpiau eirioli, godi materion ar ran y cyhoedd ynghylch patrymau neu dueddiadau sy'n tanseilio cyfreithlondeb a chefnogaeth i blismona. Bydd y system newydd yn casglu materion cenedlaethol neu ar draws lluoedd na fyddai'n cael eu trin fel arall.

⁷ Mae HMICFRS yn cynnal asesiad blynyddol o heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae'r asesiadau yma yn trafod effeithlonrwydd, effeithlonrwydd a chyfreithlondeb yr heddlu (PEEL) a chyhoeddir adroddiad manwl ar gyfer pob llu heddlu.



Engbreiffiau o'n gwaith gyda'r Coleg Plismona

Yn ystod 2016/17, fe wnaethom barhau i weithio gyda'r Coleg Plismona i ddatblygu a rhannu gwersi sefydliadol a dynnwyd o'r achosion yr ydym yn ymwneud â nhw.

Stopio a chwilio

Fe wnaethom fynychu Grŵp Craffu Strategol Stopio a Chwilio'r Coleg. Sefydlwyd y Grŵp i gefnogi gwaith y Coleg i ddatblygu Arfer Proffesiynol a Ganiateir (APP)⁸ a chynnyrch hyfforddi sy'n ymwneud â stopio a chwilio.

Cyfarwyddyd ar ddeilliannau mewn camau camymddygiad gan yr heddlu

Un o'r pryderon yr ydym wedi ei mynegi am system ddisgyblu'r heddlu yw bod amrywiaeth sylweddol weithiau yn y canlyniad yn dilyn yr un math o gamymddygiad. Gall hyn fod yn anodd i swyddogion, achwynwyr ac aelodau o'r cyhoedd i'w ddeall, a gall danseilio tegwch gwirioneddol neu'r canfyddiad ohono yn y system ddisgyblu.

Cynhyrchodd y Coleg gyfarwyddyd ar ganlyniadau camau camymddygiad yr heddlu. Cynlluniwyd hwn i gynnig

fframwaith ar gyfer asesu difrifoldeb yr ymddygiad, i wella cysondeb a thegwch llunio penderfyniadau a chreu dealltwriaeth ar y cyd o'r math o ymddygiad a fydd fel arfer yn arwain at ddiswyddo. Rhoesom sylwadau ar y cyfarwyddyd drafft, ac rydym wedi penderfynu y byddwn yn ei ystyried wrth iddynt lunio penderfyniadau.

Diogelu pobl fregus

Buom yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys aelodau o'r Coleg Plismona i ddatblygu rhifyn o'r bwletin Dysgu'r Gwersi oedd yn canolbwyntio ar ddiogelu pobl fregus. Tynnodd ar wersi a ddysgwyd o ymchwiliadau'r IPCC a lluoedd heddlu, gan amlygu rhai themâu sy'n codi'n aml, fel ymdrin â galwadau a rheoli gwybodaeth, cydnabod pan fydd rhywun ar goll, dynodi risg mewn sefyllfaoedd cam-drin domestig a gweithredu camau diogelu priodol. Mae'n cynnig dull o gyfeirio at safonau, cyfarwyddyd a hyfforddiant y Coleg. Cawsom gyfle i hyrwyddo'r bwletin yng nghynhadledd flynyddol y Coleg ym mis Tachwedd 2016. Gallwch ddarllen rhagor am y bwletinau yma ar [dudalen 35](#).

⁸ Datblygir Arfer Proffesiynol a Ganiateir (APP) gan y Coleg Plismona ac mae'n eiddo iddynt. Dyma'r ffynhonnell swyddogol a mwyaf cyfredol o arfer plismona. Mae APP yn ymdrin ag ystod o weithgareddau plismona fel: defnydd yr heddlu o arfau saethu, trin pobl yn y ddalfa, ymchwilio i gam-drin plant a rheoli cudd-wybodaeth.

Gwella profiadau pobl y mae ein gwaith yn effeithio arnynt

Yn 2015/16 comisiynwyd yr asiantaeth ymchwil Revealing Reality gennym i gasglu adborth gan ein defnyddwyr gwasanaeth. Yn dilyn hyn, yn Ionawr 2017, fe wnaethom gomisiynu'r un asiantaeth i'n cefnogi i sefydlu system i gasglu adborth yn gyson gan ein defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r dull newydd hwn yn ymgorffori amrywiaeth eang o ddefnyddwyr gwasanaeth sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ymchwiliadau ac apeliadau, yn ogystal â phobl sy'n cael cyswllt â staff yn gweithio yn ein Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid. Mae'r dull gweithredu yn cynnwys cymysgedd o ddulliau sydd fwyaf addas i anghenion y defnyddiwr ac yn ystod chwarter olaf 2016/17, fe wnaethom ddiffinio'r dulliau mwyaf priodol o gasglu data ar gyfer pob grŵp. Mae'r gwaith yn parhau ac mae'r casglu data wedi dechrau.

Esbonio ein rôl

Rydym yn cydnabod bod system gwynion yr heddlu, a'r ddeddfwriaeth sy'n sail iddi, yn gymhleth. Rhaid i'r systemau a'r prosesau yr ydym yn eu defnyddio wneud ein gwaith mor hygyrch â phosibl i'r cyhoedd yn gyffredinol ac i'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag ymdrin â ni.

Rydym wedi adolygu'r deunyddiau yr ydym yn eu darparu i bobl sy'n ymwneud â'n hymchwiliadau a gwneud amrywiaeth o newidiadau i wella eu hygyrchedd. Mae hyn yn cynnwys y llythyrau yr ydym yn eu hanfon a'r ffordd yr ydym yn ysgrifennu ein hadroddiadau ymchwiliadau. Rydym hefyd wedi darparu cyfarwyddyd newydd i'n staff gweithredol.

Rheolwyr ymgysylltu â goroeswyr

Rydym wedi creu dwy swydd rheolwr ymgysylltu â goroeswyr (SEM) i ddarparu cefnogaeth a chyngor cyson ac arbenigol i unrhyw ymchwiliad sy'n ymwneud â'r rhai sydd wedi goroesi camdriniaeth rywiol. Mae'r rheolwyr yn cynnig strategaethau ymgysylltu a chyswllt ar gyfer ymchwiliadau a chyfarwyddyd ar ymgysylltu â phobl fregus ag anghenion cymhleth.

Rydym yn dilyn dull 'goroeswyr yn gyntaf' o ran y modd yr ydym yn cyfathrebu, ac mae gennym strategaeth fanwl yn ei lle i sicrhau bod yr holl oroeswyr yn cael gwybodaeth am y modd y mae'r ymchwiliad yn mynd yn ei flaen. Bu ein gwaith ar ymchwiliad Hillsborough ([gweler tudalen 21](#)) ac achosion eraill yn sail i'n dull o ymgysylltu mewn achosion sensitif a thrawmatig.

Ymateb i'n rhanddeiliaid

Fel rhan o'n gwaith i wella hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu, fe wnaethom gomisiynu corff ymchwil annibynnol amlwg, Populus, i gael gwybod rhagor am ddealltwriaeth rhanddeiliaid o'r IPCC a'u hymgysylltu ag o. Mae canlyniadau'r ymchwil, sy'n rhoi gwaelodlin i ni fesur perfformiad yn y dyfodol, ar ein [gwefan](#). Roedd yn sail i ddatblygu ein Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ddiwygiedig, a gyhoeddwyd gennym yn Hydref 2016.

Mae'r strategaeth yn amlinellu ein dull o ddatblygu cysylltiadau cryfach a mwy adeiladol gyda'n rhanddeiliaid ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

Ein gwaith gyda chymunedau a fu'n rhan o ddigwyddiadau difrifol

Mae gan ymgysylltu â chymunedau a'r cyhoedd yn ehangach yn ystod ein hymchwiliadau oblygiadau pwysig o ran hyder – yn ein hymchwiliadau ac yn system gwynion yr heddlu yn gyffredinol. Rydym yn anelu i:

- gynyddu hyder cymunedau a rhanddeiliaid yn ein gwaith
- wella dealltwriaeth y cyhoedd a'r rhanddeiliaid o rôl yr IPCC a'i gylch gorchwyl
- gyfrannu at reoli tensiynau cymunedol neu bryderon lleol pan fyddant yn ymwneud â digwyddiadau sydd angen ymchwiliad annibynnol neu i'r system gwynion yr heddlu ehangach

Yn ystod 2016/17, datblygwyd a gweithredwyd proses newydd ar gyfer cefnogi staff gweithredol a chomisiynwyr sy'n gweithio ar ddigwyddiadau difrifol. Mae hyn yn cefnogi ein hymwneud ag achwynwyr, teuluoedd mewn profedigaeth, rhanddeiliaid plismona, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ac Aelodau Seneddol. Rydym hefyd wedi datblygu amrywiaeth o offer i gefnogi staff sy'n gweithio yn y maes hwn. Bu'r adborth gan grwpiau cymunedol y gwnaethom ymgysylltu â nhw trwy'r gwaith hwn yn gadarnhaol.

Asesu ein perfformiad mewn cymhariaeth ag amcan strategol un

Rydym yn mesur ein llwyddiant o ran yr amcan hwn gan ddefnyddio'r arolwg hyder y cyhoedd, gan ganolbwyntio ar y canlyniadau yn ymwneud â lefelau hyder ymhlith y grwpiau hynny sydd â lleiaf o hyder.

Fel y nodwyd uchod, dangosodd canlyniadau'r arolwg diwethaf bod cynnydd yn y gyfran o bobl ifanc (o 64 y cant i 66 y cant) a phobl o grwpiau BME (o 66 y cant i 69 y cant) a fyddai'n debygol o gwyno os byddant yn anhapus am y ffordd y bydd swyddog yr heddlu wedi ymddwyn tuag atynt.

Gwaith sy'n parhau dan amcan strategol un

Gan ein bod yn awr wedi cyhoeddi ein Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid, mae'r gwaith i'w gweithredu yn parhau yn 2017/18. Yn benodol, rydym yn datblygu rhwydwaith o eiriolwyr ar draws y sectorau gwirfoddol a chymunedol a fydd yn ein helpu i ymwneud yn gyson ag ystod eang o randdeiliaid, gan gynnwys y rhai sydd â llai o hyder yn system gwynion yr heddlu, grwpiau sydd ddim yn cael eu clywed yn aml a'n defnyddwyr gwasanaeth. Rydym yn trefnu peirianweithiau a fydd yn helpu rhanddeiliaid anstatudol a statudol i roi adborth yn barhaus, y byddwn yn eu defnyddio fel sail i'n gwaith gweithredol. Byddwn yn archwilio sut y gallwn gynnwys rhanddeiliaid wrth recriwtio a datblygu ein staff.

Rydym yn parhau ein gwaith i weithredu diwygiadau i system gwynion yr heddlu. Bydd hyn yn cynnwys rhoi ein barn wrth i reoliadau gael eu gosod dan y Ddeddf newydd. Byddwn yn llunio cyfarwyddyd strategol newydd ac yn gweithio gyda lluoedd heddlu a Chomisiynwyr i weithredu'r newidiadau angenrheidiol. Rydym yn cynllunio cyfarfodydd gyda Chomisiynwyr a'u swyddfeydd er mwyn eu cynorthwyo i baratoi ar gyfer eu rôl newydd wrth bennu ar apeliadau.

AMCAN STRATEGOL DAU: cyflawni nifer gynyddol o ymchwiliadau annibynnol amserol o ansawdd uchel

Atgyfeiriadau

Yn ystod 2016/17 cawsom 3,880 o atgyfeiriadau, y gwnaeth ein Huned Asesu ymdrin â nhw. Ein targed oedd cyfleu ein penderfyniad am yr atgyfeiriad cyn pen tri diwrnod gwaith mewn 70 y cant o achosion. Aethom tu hwnt i hyn gyda ffigur o 72 y cant.


Yr amser cyfartalog i brosesu atgyfeiriadau yn 2016/17 oedd pum niwrnod gwaith.

Mae nifer yr atgyfeiriadau agored wedi gostwng o 31 y cant o 115 ar ddechrau'r flwyddyn, i 79 o atgyfeiriadau agored erbyn y diwedd.

Ein hymchwiliadau

Yn ystod 2016/17 cychwynasom 590 o ymchwiliadau (www.policeconduct.gov.uk/investigations/our-investigations). Cwblhawyd 446 – 187 yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Ar gyfartaledd, fe gymerodd 239 o ddyddiau gwaith i gwblhau ymchwiliadau annibynnol yn ystod 2016/17. Mae hyn tua thri mis yn llai na'n cyfartaledd o 294 o ddyddiau yn 2014/15, ond ychydig yn hwy na'n cyfartaledd yn 2015/16 o 226 diwrnod. Rydym, yn gyffredinol, yn agor a chau achosion yn fwy cyflym, ond mae cau rhai o'n hachosion hŷn, rhai ohonynt wedi eu hagor dros ddwy flynedd yn ôl, wedi cael effaith ar ein cyfartaledd cyffredinol. Daeth ein Cyfarwyddiaeth Ymchwiliadau Mawr i siâp yn ystod y flwyddyn dan sylw.

Ffigwr 1: Atgyfeiriadau a dderbyniwyd yn ôl blwyddyn



Mae ganddi'r gallu i gynnal ymchwiliadau mawr, dwys o ran adnoddau. Erbyn hyn mae'n cynnwys Ystafell Digwyddiadau Mawr gyda chefnogaeth rolau arbenigol HOLMES⁹, tîm datgelu a thimau ymchwilio ychwanegol.

Ein gwaith ar ansawdd a phrydlondeb

Rydym wedi cael mwy o adnoddau i gynyddu'r nifer o ymchwiliadau yr ydym yn ymgymryd â nhw yn sylweddol. Ond, rydym yn sylweddoli na fydd dim ond cynyddu'r nifer o ymchwiliadau yr ydym yn eu cynnal yn cyflawni ein nod ehangach o wella hyder y cyhoedd yn system gwynion yr heddlu.

Yn ystod 2016/17, gweithredwyd prosesau sicrhau ansawdd newydd ar draws ein gwaith gweithredol. Rydym hefyd wedi gwneud newidiadau i'n llawlyfr gweithrediadau, sy'n rhoi cyfarwyddyd i'n staff, gan nodi'r camau y mae angen iddynt eu dilyn wrth gyflawni ein gwaith gweithredol.

Ym Mehefin 2016, lansiodd strategaeth ansawdd newydd, sy'n nodi ein dull o gyflawni gwasanaeth, a sut y byddwn yn cefnogi ein staff i gyflawni'r gwasanaeth o'r safon uchaf posibl.

Mae ein gwaith ar ansawdd yn parhau a byddwn yn ei ymestyn tu hwnt i weithrediadau. Byddwn yn nodi meini prawf ansawdd a phrosesau sicrhau ansawdd cymesur ar draws ein holl fusnes, gan ganolbwyntio ar y meysydd lle mae mwyaf o risg.

Rydym hefyd wedi cynnal y pwyslais ar amserlenni yn ystod 2016/17. Mae ein huned asesu, sy'n gwerthuso achosion wrth iddynt ein cyrraedd ac yn penderfynu sut y dylid ymchwilio iddynt, wedi helpu i gyfeirio achosion yn fwy cyflym ac effeithiol.

Ers Ebrill 2017, rydym wedi dirprwyo llunio penderfyniadau mewn rhai ymchwiliadau annibynnol i reolwyr gweithrediadau. O ystyried y nifer o ymchwiliadau yr ydym yn eu cyflawni erbyn hyn, mae hyn yn sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar y lefel briodol ar sail y math o achos a'i ddirifoldeb. Bydd hefyd yn ein paratoi ar gyfer ein strwythur newydd, ac yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau yn yr amser byrraf posibl.

Asesu ein perfformiad mewn cymhariaeth ag amcan strategol dau

Yn ystod 2016/17 cychwynasom 590 o ymchwiliadau. Mae hyn ychydig yn brin o'n targed o 600 o ymchwiliadau o leiaf. Ond, wrth i'r flwyddyn ddod i ben roeddem wedi cwblhau 446 o ymchwiliadau annibynnol, sydd yn gynnydd o 72 y cant ers y llynedd (259). Fe wnaethom gadw at yr amser cyfartalog i'w cwblhau ar tua 11 mis.

Rydym yn parhau ein hymdrechion i gwblhau cymaint o ymchwiliadau ag sy'n bosibl cyn pen 12 mis. Yn ychwanegol, mae cost yr uned ein hymchwiliadau wedi mwy na haneru ers dechrau ein rhaglen newid ([gweler y ffigwr ar dudalen 60](#)).



Astudiaeth achos 1: Newidiadau i hyfforddiant ar ôl ymchwiliad i chwilio noeth

Ni wnaeth swyddog gyda'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitan (MPS) ddilyn y gweithdrefnau cywir pan arweiniodd chwiliad noeth ar fenyw yn y ddalfa ym Mai 2015.

Canfuwyd bod y swyddog wedi cyffwrdd y fenyw mewn modd amhriodol, ac nid oedd ganddi ganiatâd i wneud hynny fel rhan o'r chwiliad noeth.

Canfuwyd bod y swyddog wedi cyflawni camymddygiad difrifol am beidio â chadw at weithdrefn dderbyniedig yr heddlu, a derbyniodd rybudd ysgrifenedig terfynol. Tanlinellodd

ein hymchwiliad amwyster yng nghyfarwyddyd yr heddlu ar chwiliadau noeth a chwiliadau personol iawn.

Rhoesom argymhellid i'r Coleg Plismona y dylid cyhoeddi cyfarwyddyd clir ar ba rannau o'r corff y gellir eu cyffwrdd yn ystod chwiliadau noeth a phersonol iawn.

Mabwysiadwyd y newidiadau ar lefel genedlaethol a byddant yn helpu i sicrhau bod swyddogion yn deall sut i chwilio pobl yn y ddalfa yn briodol. Newidiwyd deunyddiau hyfforddi'r Coleg Plismona i sicrhau bod y terfynau a graddfa'r chwilio yn ddealladwy.

Ymchwiliadau Hillsborough

Ar 12 Hydref 2012, cyhoeddwyd ymchwiliad annibynnol i weithrediadau'r heddlu yn y cyfnod ar ôl trychineb Hillsborough gennym. Roedd hyn yn dilyn ein hadolygiad i adroddiad Panel Annibynnol Hillsborough. Ar yr un pryd sefydlwyd 'Operation Resolve'¹⁰ i ymchwilio i'r trychineb ei hun, ac rydym wedi bod yn rheoli'r rhan honno o'r ymchwiliad oedd yn ymwneud â'r heddlu.

Yn Ionawr 2017, cyfeiriwyd ffeiliau tystiolaeth o'r ddau ymchwiliad at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) i

benderfynu a ddylai cyhuddiadau troseddol ddilyn. Cyhuddwyd chwech o bobl yn dilyn hynny.

Roedd hon yn garreg filltir o bwys, ond mae gwaith i'w wneud eto. Mae ein hymchwilyr yn cefnogi'r CPS trwy gynnal tasgau ychwanegol yn ystod y cyfnod hwn o wneud penderfyniadau. Rydym hefyd yn parhau i ddatgelu deunydd 'heb ei ddefnyddio' yn ymwneud â'r ymchwiliad (deunydd sydd heb ei ddefnyddio yn y ffeiliau tystiolaethol allweddol) i baratoi at unrhyw gamau troseddol.

¹⁰ Ymchwiliad troseddol ar wahân yw hwn i'r hyn wnaeth achosi'r trychineb. Rydym ni'n rheoli'r rhan ohono sy'n ymwneud â gweithrediadau Heddlu De Swydd Efrog.

Mae hon yn dasg anferth ac mae'n debyg ei bod yn un o'r ymarferion mwyaf o'i fath yr ymgwymerwyd ag ef erioed. Rydym yn parhau i asesu nifer o gwynion gan aelodau o deuluoedd Hillsborough a'r rhai wnaeth oroesi'r trychineb, ac ar hyn o bryd rydym yn llunio adroddiad terfynol yr ymchwiliad, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ôl i'r holl



gamau troseddol gael eu cwblhau. Gallwch ddarllen rhagor am ymchwiliad Hillsborough ar ein gwefan (www.policeconduct.gov.uk/investigations/our-investigations/hillsborough-our-investigation).



Astudiaeth achos 2: Dealltwriaeth o bobl mewn gofid emosiynol neu feddyliol (EMD) yn cael ei atgyfnerthu yn dilyn ymchwiliad

Y Ymchwiliwyd i ddefnydd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan (MPS) o rym ar ddyn oedd â chyllyll yn ei feddiant yn Brent, gogledd Llundain, gennym.

Credai'r swyddogion y byddai'r dyn yn eu lladd hwy neu aelodau o'r cyhoedd neu yn eu hanafu yn ddifrifol oni bai ei fod yn cael ei atal, ac fe wnaethant ddefnyddio Taser arno nifer o weithiau. Fe'i trawyd yn fwriadol gan gar heddlu, ond roedd yn dal i gydio yn y cyllyll gan greu bygythiad difrifol.

Saethodd swyddog y dyn i'w atal rhag achosi niwed iddo ei hun neu i eraill. Aed â'r dyn i'r ysbyty a rhoddwyd triniaeth i'w anafiadau.

Dangosodd recordiad ffilm yn y lleoliad gyllell fara, gyllell gig a sgriwdreifar ar y ffordd. Cyfaddefodd y dyn yn ddiweddarach bod ganddo arfau ymosodol yn ei feddiant ac ymosodiad cyffredin, a rhoddwyd dedfryd ohiriedig iddo.


Cymerodd yr ymchwilydd ddatganiadau gan swyddogion, tystion a'r dyn a

saethwyd gan yr heddlu. Cymerwyd mwy na 70 o ddatganiadau tystion, ac archwiliwyd deunydd o gamerâu cylch cyfyng, fideo ar y corff a ffilm o gerbydau'r heddlu. Aseswyd ac ystyriwyd y lawrlwythiadau o'r Taser, cyfathrebiadau radio a ffôn yn ystod yr ymchwiliad.

Daeth yr ymchwilydd i'r casgliad bod y swyddogion wedi defnyddio grym rhesymol ac angenrheidiol wrth ymdrin â'r dyn.

Roedd y digwyddiad yn ymwneud ag unigolyn mewn gofid emosiynol neu feddyliol (EMD), oedd yn golygu bod rhaid i'r swyddogion roi ystyriaeth i anghenion emosiynol a/neu feddyliol yr unigolyn. Dywedodd rhai swyddogion wrthym nad oeddynt yn deall beth oedd hyn yn ei olygu.

Argymhellwyd gennym y dylid esbonio'r byrfodd EMD a dylid atgyfnerthu ei arwyddocâd i swyddogion rheng flaen, a derbyniodd y Gwasanaeth Heddlu Metropolitan hyn.

Ffigur 2: Ymchwiliadau annibynnol a ddechreuwyd ac a gwblhawyd



Astudiaeth achos 3: Llofruddiaeth yn sbarduno galwadau am welliannau i rannu gwybodaeth rhwng lluoedd heddlu

C Collfarnwyd Lee Nolan, 48 oed, o Fanceinion, am lofruddiaeth, yn Chwefror 2016. Ymchwiliwyd gennym i'r modd yr ymchwiliodd lluoedd Heddlu Caint a Manceinion Fwyaf (GMP) i ddau achos o dreisio honedig a bygythiad honedig i fywyd gan Nolan, nad oedd yn gysylltiedig â'r gollfarn ddiweddarach.

Canfu ein hymchwiliad na ddilynwyd yr adroddiad cyntaf am fygythiadau i ladd gan Nolan gan Heddlu Caint na GMP oherwydd bod dryswch ynglŷn â pha lu heddlu ddylai ymchwilio. Daeth i'r casgliad hefyd bod oedi sylweddol yn yr ymchwiliadau i'r treisio honedig.

Tra bod lluoedd heddlu cyfagos yn gweithio gyda'i gilydd yn dda, amlygodd ein hadroddiad nad yw rhai lluoedd heddlu mewn rhannau gwahanol o'r wlad yn cydweithredu a chydlynu ymchwiliadau yn effeithiol.

Bydd y Dirprwy Gadeirydd, Rachel Cerfontyne, yn fuan yn gwneud argymhelliad cenedlaethol y dylai'r Coleg Plismona a Chyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu sicrhau bod y nodweddion sydd wedi eu cyflwyno yn ddiweddar i Gronfa Ddata Genedlaethol yr Heddlu yn cael eu dosbarthu yn eang a'u hyrwyddo ar draws yr holl lluoedd heddlu. Bydd y nodweddion hyn yn cynorthwyo lluoedd heddlu yn eu hymdrechion yn erbyn y Troseddwyr Cam-drin Domestig hynny sy'n creu mwyaf o risg, trwy ganiatáu chwiliadau lluosog ar yr un pryd y gellir eu hailadrodd yn gyson. Bydd Rachel hefyd yn argymhell y dylai nodyn cynghori gyd-fynd â hyn, yn gofyn i lluoedd heddlu gytuno ar drefn ymchwiliol a chydlynu agos, pan fydd rhywun dan amheuaeth yn cael ei ymchwilio am droseddau difrifol gan fwy nag un llu heddlu ar yr un pryd.



Astudiaeth achos 4: Cwnstabiliaeth Cumbria yn cael ei beirniadu am y modd y gwnaeth ymdrin â'r ymchwiliad i farwolaeth Poppi Worthington

Y Yn Rhagfyr 2012, bu farw Poppi Worthington, 13 mis oed, yn Ysbyty Cyffredinol Furness yn Barrow-in-Furness.

Bydd ail gwest i'w marwolaeth yn dechrau ar 27 Tachwedd 2017.

Archwiliodd yr IPCC sut yr ymchwiliodd Cwnstabiliaeth Cumbria i'w marwolaeth, gan ganolbwyntio ar a ddynodwyd cyfleoedd i gael tystiolaeth allweddol ac a weithredwyd arnynt. Testun yr ymchwiliad oedd dau ditectif oedd yn arwain gyda chyfrifoldeb cyffredinol am yr ymchwiliad, a thrydydd ditectif.

Canfu'r IPCC dystiolaeth nad oedd cartref Poppi wedi cael ei ddiogelu a'i chwilio yn ddigonol, a bod tystiolaeth a allai fod yn arwyddocaol wedi ei cholli. Roedd tystiolaeth hefyd nad oedd penderfyniadau ymchwiliol a pholisïau allweddol wedi cael eu cofnodi, gan adael y ditectifs iau i deimlo "allan ohoni" o ran y modd yr oedd yr ymchwiliad yn mynd yn ei flaen.

Barn yr ymchwilydd oedd nad oedd yr heddlu wedi ymchwilio yn ddigonol a oedd Poppi wedi cael ei cham-drin neu beidio. Codwyd y pryder hwn gan feddyg ysbyty, yn yr archwiliad post mortem ac yna trafododd y patholegydd a'r ditectif arweiniol y mater. Ond, roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod y ditectifs wedi parhau

i ganolbwyntio ar ymchwilio i achos marwolaeth naturiol, gan anwybyddu'r posibilrwydd bod cam-drin wedi digwydd, a'r hyn oedd, ym marn ymchwilydd yr IPCC, yn llinell ymchwiliol resymol.

Nododd yr ymchwilydd hefyd na chymerwyd adroddiadau tystion nes yr oedd rhieni Poppi wedi cael eu harestio fwy nag wyth mis ar ôl ei marwolaeth, ac nad oedd y digwyddiad wedi ei gofnodi fel trosedd hyd y pwynt hwnnw. Ond, derbyniodd yr ymchwilydd IPCC bod barn wahanol am anafiadau Poppi, ynghyd ag oedi o chwe mis gyda'r adroddiad post mortem, wedi achosi anawsterau i ymchwiliadau'r heddlu.

Ym marn ymchwilydd yr IPCC, roedd gan ddau swyddog achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol. Roedd un o'r swyddogion hyn wedi ymddeol oedd yn golygu na ellid gweithredu ymhellach yn yr achos hwnnw. Penderfynodd y Gwnstabiliaeth bod camau perfformiad anfoddhaol, hyd lefel anghymwyster difrifol, yn addas yn achos y swyddog arall, a dderbyniwyd gan gomisiynydd yr IPCC. Yn dilyn gwrandawriad disgyblu, rhoddwyd swydd ar lefel is i'r swyddog. Mae'r swyddog hwn wedi ymddeol ers hynny.

Dynodwyd perfformiad anfoddhaol o ran y trydydd ditectif.

Gwaith sy'n parhau dan amcan strategol dau

Byddwn yn parhau ein gwaith i baratoi ar gyfer cyflwyno newidiadau i system gwynion yr heddlu a fydd yn effeithio ar y ffordd yr ydym yn cynnal ein hymchwiliadau. Yn ystod 2016/17 rydym wedi gweithio gyda'r Swyddfa Gartref a'r Awdurdod Cam-drin Llafur a Gangfeistri (GLAA) i weithredu'r ddeddfwriaeth sy'n dwyn rhai staff GLAA dan ein hawdurdod ni. Daeth hyn i rym ar

30 Ebrill 2017 a byddwn yn rhoi adroddiad ar ffigyrau achosion am y tro cyntaf yn ein hadroddiad blynyddol nesaf.

Rydym yn anelu at sicrhau bod ein gwaith gweithredol yn cael ei gyflawni mor effeithlon â phosibl, a'i fod yn sicrhau'r defnydd mwyaf effeithiol o'n hadnoddau ar ôl i ni ehangu. Yn Chwefror 2017, fe wnaethom ddechrau ar raglen waith i liflinio ein prosesau o ystyried ein baich achosion mwy. Roedd hyn yn cynnwys:



Astudiaeth achos 5: Swyddog o Swydd Nottingham yn cael ei ddiswyddo am gamymddygiad difrifol ar ôl marwolaethau wrth yrru

Y Yn Awst 2015, derbyniodd Cwnstabl o Heddlu Swydd Nottingham, Jonathan Mortimer, adroddiad gan weithiwr banc oedd yn bryderus bod dyn 87 mlwydd oed, Albert Newman, wedi gadael yr adeilad a gyrru i ffwrdd er gwaethaf y ffaith ei fod yn ymddangos yn ddrislyd.

Roedd trwydded yrru Mr Newman wedi ei dirymu ac ni ddylai fod yn gyrru. Ond, ni wnaeth y swyddog wirio bod hyn yn wir.

Ddau fis yn ddiweddarach, ar 12 Hydref, gyrrodd Mr Newman y ffordd anghywir ar yr M1 a tharo fan yn Swydd Gaerlŷr, gan arwain at ei farwolaeth a marwolaeth dyn 27 oed oedd yn teithio yn y fan. Anafwyd gyrrwr y fan yn ddifrifol hefyd.

Cynhaliodd y llu heddlu ymchwiliad lleol, a ganfu bod gan PC Mortimer achos i'w ateb am gamymddygiad ac argymhellwyd camau rheoli. Ond, fe wnaethom gadarnhau apêl atom ni yn erbyn y canlyniad hwnnw.

Ein barn ni oedd bod pryderon am ddiwylledd y swyddog a'i unplygrwydd yn nghyswllt ei adroddiadau am weithredu yn sgil y wybodaeth a dderbyniwyd gan y banc. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu hefyd nad oedd wedi gwneud ymholiadau priodol cyn ymweld â Mr Newman pan ddylai fod wedi gwneud hynny.

Derbyniodd y llu heddlu ein casgliad bod achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol a phrofwyd yr achos mewn gwrandawriad camymddygiad. Yn Chwefror 2017, diswyddwyd y swyddog heb rybudd.

- deall anghenion ein defnyddwyr gwasanaeth er mwyn gyrru gwelliannau yn ein gwasanaethau
- datblygu dulliau mesur a data newydd i reoli a rhoi adroddiad am berfformiad
- archwiliad o un pen i'r llall o brosesau gweithredol i wella ansawdd, a lleihau amser aros a gweithgaredd diangen
- cefnogi ein staff i ddynodi a rhannu gwersi i wella prosesau yn lleol

Arweiniodd hyn at ddull diwygiedig o ymdrin â'n hymchwiliadau mwyaf syml, gyda'r potensial i weld gostyngiadau sylweddol o ran amser ac ymdrech. Mae'r rhain yn cael eu treialu, cyn i ni archwilio achosion mwy cymhleth.

Rydym hefyd yn gweithio ar wella ein data gweithredol, a fydd yn ein helpu i reoli ein hymchwiliadau yn well.



Astudiaeth achos 6: Dim arwydd o gamymddygiad ar ôl marwolaeth dyn yn Wiltshire

Y Ymchwiliodd yr IPCC i gyswllt yr heddlu â Ben Smart cyn ei farwolaeth ar 8 Medi 2015. Pennodd ein hymchwiliad nad oedd unrhyw arwydd o gamymddygiad na throseddoldeb gan y swyddogion dan sylw.

Roedd Mr Smart, 27 oed, yn glaf anffurfiol yn ysbyty iechyd meddwl Green Lane yn Devizes. Ar fore 8 Medi 2015 fe'i cafwyd ag anafiadau difrifol i'w war. Wrth i staff meddygol geisio achub bywyd Mr Smart, rhoddwyd cyffion ar ei freichiau a'i goesau gan yr heddlu am gyfnod byr. Fe'i cludwyd i Ysbyty Southmead ym Mryste lle bu farw o'i anafiadau.

Yn Rhagfyr 2016, cyrhaeddodd y cwest ddedfryd naratif.

Ar ôl atgyfeiriad gorfodol gan Heddlu Wiltshire, edrychodd ein hymchwilyr ar y rhesymeg pam bod yr heddlu wedi dod i'r digwyddiad, ac ar natur eu cyswllt â Mr Smart, gan gynnwys defnyddio offer atal. Daeth ein hymchwiliad i'r casgliad nad oedd tystiolaeth i awgrymu bod unrhyw gamau gan yr heddlu wedi achosi na chyfrannu at farwolaeth Mr Smith.


AMCAN STRATEGOL TRI: sicrhau bod yr IPCC yn gweithredu proses apêl amserol ac o ansawdd uchel

Yr IPCC sy'n gyfrifol am ystyried rhai apeliadau penodol am y ffordd y mae lluoedd heddlu a'r Asiantaeth Droseddau Genedlaethol (NCA) wedi ymdrin â chwynion. Rydym hefyd yn ystyried rhai apeliadau yn ymwneud â chwynion a wnaed i'r Swyddfa Gartref a CThEM.

Mae gwahanol seiliau ar gyfer apelio, sy'n cael eu hesbonio ar ein gwefan (www.policeconduct.gov.uk/complaints-and-appeals/make-appeal).

Mae Ffigwr 3 isod yn nodi'r nifer o apeliadau yr ydym wedi eu derbyn o flwyddyn i flwyddyn ers i ni ddechrau'n gwaith yn 2004. Fe wnaethom dderbyn 3,846 o apeliadau yn 2016/17; sy'n debyg i'r flwyddyn flaenorol. Fe wnaethom brosesu a chwblhau 4,026 apêl yn 2016/17, gan gadarnhau 1,343 ohonynt. Mae'r baich o achosion gweithredol o ran apeliadau wedi bod yn gymharol sefydlog ar hyd y flwyddyn; gyda 53 yn fwy o apeliadau gweithredol yn agored ar ddiwedd 2016/17 nag ar ddechrau'r flwyddyn.

Ffigwr 3: Apeliadau a dderbyniwyd gan yr IPCC yn ôl blwyddyn



Cyflwynodd *Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011* newid oedd yn golygu bod rhai apeliadau llai difrifol yn cael eu trin gan lluoedd heddlu yn hytrach na dod i'r IPCC. Dyma'r rheswm pam y gwnaethom dderbyn llai o apeliadau ar ôl 2012/13.

Asesu ein perfformiad mewn cymhariaeth ag amcan strategol tri

Yn 2016/17 rydym wedi cwblhau 43 y cant o'r holl apeliadau ymchwiliad a datrysiad lleol o fewn 35 niwrnod gwaith. Roedd hyn mewn cymhariaeth â'n targed o 60 y cant. Cwblhawyd 59 y cant o apeliadau heb eu cofnodi, heb barhad ac wedi eu datgymhwyso o fewn 25 niwrnod gwaith mewn cymhariaeth â tharged o 80 y cant.

Rydym yn anelu at gasglu'r holl wybodaeth angenrheidiol i wneud penderfyniad ar apêl – sy'n cynnwys amser a dreulir yn aros am bapurau cefndir gan luoedd heddlu – cyn pen 15 diwrnod gwaith 65 y cant o'r amser. Fe wnaethom gyflawni hyn ar gyfer 56 y cant o'r apeliadau y gwnaethom eu cwblhau yn 2016/17.

Rydym yn parhau i weithio'n glos gyda'r lluoedd heddlu trwy ein tîm goruchwyllo i lunio gwell perthynas waith. O ganlyniad rydym yn gweld gwelliannau yn yr amser a gymerir i dderbyn gwybodaeth angenrheidiol yn ystod y broses apeliadau. Mae hyn yn helpu i gyflymu'r amser cyffredinol y mae'n ei gymryd i wneud penderfyniadau apêl.

Gwaith sy'n parhau dan amcan strategol tri

Rydym yn parhau i weithio i ddiwygio ein llawlyfr gweithrediadau i sicrhau ei fod yn cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr i'n staff sy'n ymdrin ag apeliadau.



Enghreifftiau o sut yr ydym yn trin apeliadau

Astudiaeth achos 7: Sarsiant arbennig yn cael rhybudd ysgrifenedig terfynol yn dilyn apêl

A Arestiodd swyddog heddlu yn Swydd Northampton ddyn 90 mlwydd oed yn ei gartref. Protestiodd y dyn a'i wraig 87 oed am yr arestio, aeth y sefyllfa yn waeth, a chyrrhaeddodd cwnstabl heddlu arall a sarsiant arbennig.

Cafodd un swyddog grafiadau yn ystod y digwyddiad. Cafodd yr hen ŵr friw ar ei law a dioddefodd ei wraig ymosodiad angina. Roedd y ddau wedi eu cleisio. Dywedodd y pâr bod y digwyddiad wedi achosi gofid difrifol iddynt.

Yn ddiweddarach gwelwyd y sarsiant arbennig gan ei gydweithwyr yn yr orsaf heddlu yn chwarae'r ffilm o'i gamera ar ei gorff o'r digwyddiad i swyddogion eraill a chwerthin.

Cyflwynodd merch y pâr gŵyn i Heddlu Swydd Northampton. Yn dilyn ymchwiliad lleol gan y llu heddlu, apeliodd yr achwynydd at yr IPCC. Daethom i'r casgliad bod gan un cwnstabl heddlu achos i'w ateb am gamymddygiad a bod gan y sarsiant arbennig achos i'w ateb am gamymddygiad difrifol; rhoddwyd rhybudd ysgrifenedig terfynol iddo.

Engbreiffiau o sut yr ydym yn trin apeliadau

Astudiaeth achos 8: Swyddog a arestiodd gymydog yn ystod dadl ag achos i'w ateb am gamymddygiad

A Ar ôl asesu apêl, daethom i'r casgliad bod gan swyddog nad oedd ar ddyletswydd a roddodd ei hun ar ddyletswydd i arestio ei gymydog yn ystod anghydfod achos i'w ateb am gamymddygiad. Cyflwynodd y cymydog gŵyn i'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitan (MPS) a chanfu nad oedd gan y swyddog achos i'w ateb.

Yna apeliodd yr achwynydd atom ni i adolygu'r penderfyniad hwn. Fe wnaethom argymhell bod achos i'w ateb ac y dylai camau camymddygiad ystyried pa mor rhesymol oedd yr arestio a'r amgylchiadau.

Mae MPS yn ystyried ein hargymhellion.

Astudiaeth achos 9: Gwrandawriad camymddwyn i ddatrys tystiolaeth anghyson

F Fe wnaethom dderbyn apêl yn ymwneud â chŵyn a wnaed gan ddyn gyda chyflwr iechyd meddwl ac anawsterau cyfathrebu. Honnai ei fod wedi cael ei godi gan swyddogion Heddlu Gorllewin Mersia yn Evesham, Swydd Gaerwrangon, lle'r oedd yn byw. Honnai bod y swyddogion wedyn wedi ei yrru 20 milltir i Alcester, yn Swydd Warwick, oherwydd nad oedd yn gallu dweud wrthynt ble'r oedd yn byw, a'i adael yno. Daeth swyddogion Heddlu Swydd Warwick o hyd iddo a llwyddo i ddeall y sefyllfa, gan gynnwys

y ffaith ei fod yn byw yn Evesham, trwy gyfathrebu â'r dyn trwy gyfrwng cyfres o nodiadau ysgrifenedig.

Gwadodd swyddogion Heddlu Gorllewin Mersia y disgrifiad hwn a dweud bod y dyn wedi cyfleu ei fod yn byw yn Alcester.

Ar ôl asesu'r dystiolaeth, roedd ein rheolwr gwaith achos o'r farn bod anghysondeb clir yn y dystiolaeth, gydag elfennau yn cefnogi'r ddwy ochr. Yn y sefyllfaoedd hynny, rydym yn gyffredinol yn dod i'r casgliad mai tribiwnlys ddylai ddatrys y dystiolaeth anghyson a phennu a oedd materion camymddygiad. Cytunodd Heddlu Gorllewin Mersia i gynnal gwrandawriad camymddygiad difrifol.

Astudiaeth achos 10: Dyn yn honni ei fod wedi ei frathu gan gi'r heddlu: apêl heb ei chadarnhau

D Dechreuodd dau ddyn a oedd wedi bod allan yn yfed ymladd â'i gilydd mewn man cyhoeddus. Ymyrodd swyddog MPS gyda chi heddlu i'w gwahanu. Yn honedig roedd y ci heddlu wedi brathu clust un o'r dynion, oedd angen triniaeth feddygol wedyn.

Cyflwynodd y dyn gŵyn i'r MPS, na wnaeth gadarnhau'r gŵyn, ac apeliodd at yr IPCC. Roeddem yn cytuno â'r MPS: nid oedd y ci wedi cael gorchymyn i frathu; roedd yn briodol i'r swyddog ymyrryd yn yr ymladdfa; ac fe gadwyd y ci dan reolaeth trwy'r amser (roedd y swyddog yn gafael yn ei goler trwy'r amser).

Mae gwaith ar y gweill i gynllunio ar gyfer gweithredu adolygiadau, a fydd yn disodli apeliadau dan y ddeddfwriaeth newydd. Yn hytrach na'r mathau unigol o apêl sy'n bodoli ar hyn o bryd, bydd hawl i adolygu ar ddiwedd ymdrin â chwyn, a fydd yn ystyried a oedd canlyniad y gŵyn yn 'rhesymol a chymesur'. Bydd yr adolygiadau yn cael eu trin naill ai gan IOPC neu'r corff plismona lleol perthnasol. Rydym yn rhagweld y bydd y newidiadau hyn yn dod i rym yn ystod haf 2018.

AMCAN STRATEGOL PEDWAR: gwella ansawdd ymdriniaeth y lluoedd heddlu eu hunain o gwynion

Y lluoedd heddlu eu hunain sy'n ymdrin â'r mwyafrif o gwynion¹¹, gyda dim ond y materion mwyaf difrifol a sensitif yn dod atom ni i'w hymchwilio yn annibynnol. Rydym yn gyfrifol am oruchwilio'r system gwynion yn ei chyfanrwydd.

Mae ein tîm goruchwilio yn gweithio'n glos gyda lluoedd heddlu, gan weithredu fel cyswllt rhwng lluoedd heddlu a phob rhan o'r busnes.

Yn ystod 2016/17 cynhaliwyd cyfres o adolygiadau gennym i ddeall pa mor dda y mae lluoedd heddlu yn gweithredu cyfarwyddyd ar ymdrin â chwynion. Roedd pob adolygiad yn cynnwys gwaith maes gyda lluoedd heddlu o bob rhan o Gymru a Lloegr, ac fe welwyd samplau o'u gwaith yn ystod y rhain. Mae astudiaeth achos 11 yn rhoi enghraifft o hyn.

Cefnogi lluoedd heddlu i ymdrin â chwynion

Rydym yn cynhyrchu cyngor ymarferol i gefnogi lluoedd heddlu wrth iddynt ymdrin â chwynion, yn ychwanegol at ein Cyfarwyddyd Statudol.¹²

Yn ystod 2016/17 cyhoeddwyd dau rifyn o Focus¹³, sy'n cynnwys enghreifftiau ymarferol a chyfarwyddyd i lluoedd heddlu am ymdrin â chwynion a materion ymddygiad. Roedd un yn canolbwyntio ar arfer gorau o ran yr atgyfeiriadau y mae lluoedd heddlu yn eu hanfon atom ni, a'r llall yn edrych ar ansawdd ymchwiliadau y mae lluoedd heddlu yn eu cyflawni ar gwynion.

Yn ychwanegol, rydym yn cynhyrchu bwletin chwarterol i lluoedd heddlu yn canolbwyntio ar y tueddiadau yr ydym yn eu gweld yn ein gwaith, ac yn hyrwyddo arfer da.

Sicrhau bod lluoedd heddlu yn dysgu gwersi o apeliadau

Yn aml mae ein cyfarfodydd cyson â lluoedd heddlu yn arwain at welliannau yn y modd y mae lluoedd heddlu yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn system gwynion yr heddlu. Rydym yn defnyddio ein gwaith apelio i ddynodi unrhyw wersi i'r lluoedd heddlu dan sylw.

¹¹ Er mwyn gweld pa mor dda yw eich lluoedd heddlu lleol chi am ddelio â chwynion, ewch i'n [gwefan](#).

¹² www.policeconduct.gov.uk/complaints-and-appeals/statutory-guidance

¹³ www.policeconduct.gov.uk/research-and-learning/learning-and-recommendations/focus

Yn ystod gwaith gyda Heddlu Swydd Gaergaint, buom yn trafod y themâu yr oeddem wedi eu dynodi o'r apeliadau ymchwilio a chofnodi yr oeddem wedi eu cadarnhau. Defnyddiodd y staff yn yr adran safonau proffesiynol y gwersi hyn fel sail ar gyfer yr hyfforddiant a'r cyfarwyddyd a ddatblygwyd ganddynt i'r rhai sy'n ymdrin â chwynion.

Ers hynny, mae perfformiad y llu heddlu wedi gwella'n drawiadol. Yn ystod 2015/16, cadarnhawyd 39 y cant o'r apeliadau a dderbyniwyd gennym yn dilyn eu hymchwiliadau i gwynion, a 36 y cant o'r apeliadau a dderbyniwyd gennym yn erbyn eu penderfyniadau cofnodi¹⁴. Yn 2016/17, mae hyn wedi gostwng i 32 y cant o apeliadau ymchwiliad a 29 y cant o apeliadau cofnodi; gwelliant sylweddol.

Ystyried pam ein bod yn cadarnhau mwy o apeliadau na lluoedd heddlu

Dengys ystadegau yn gyson ein bod yn cadarnhau cyfran lawer uwch o apeliadau cwynion na lluoedd heddlu. Yn ystod 2015/16 fe wnaethom gadarnhau 41 y cant o apeliadau ymchwiliadau ond dim ond 19 y cant o apeliadau o'r fath a gadarnhawyd gan luoedd heddlu. Er mwyn deall y rhesymau am y gwahaniaethau hyn, ymwelwyd â Chwnstabiliaeth Durham, Heddlu De Cymru a Heddlu Dyffryn Tafwys yn gynnar yn 2017 i adolygu sampl o achosion a thrafod trin apeliadau gyda'r staff yn yr adrannau safonau proffesiynol.

Trafodwyd yr agweddau lle'r oeddem yn teimlo nad oedd gan luoedd heddlu ddealltwriaeth lawn o naill ai'r gwahanol seiliau ar gyfer apelio sydd ar gael i achwynwyr, neu'r pethau y dylent eu hystyried wrth benderfynu a ddylid cadarnhau apêl. Fe wnaethom hefyd ganfod nifer o enghreifftiau lle gallai'r lluoedd fod wedi rhoi esboniad cliriach i'r achwynwyr am y penderfyniadau yr oeddent wedi eu gwneud. Dynododd yr adolygiad hefyd achosion pan ddylai'r apêl fod wedi cael ei thrin gan yr IPCC yn hytrach na'r llu heddlu.

O ganlyniad i'r adolygiad hwn, byddwn yn rhoi gwybodaeth ychwanegol i'r holl luoedd heddlu i'w cefnogi wrth iddynt ymdrin ag apeliadau. Bydd ein canfyddiadau hefyd yn sail i'n gwaith wrth i ni baratoi ar gyfer y newidiadau sy'n cael eu cyflwyno yn 2018, pan fydd y cyfrifoldebau am adolygu rhai cwynion yn trosglwyddo o luoedd heddlu i gyrrff plismona lleol fel y comisiynwyr heddlu a throseddu.

Asesu ein perfformiad mewn cymhariaeth ag amcan strategol pedwar

Fe wnaethom gadarnhau 40 y cant o ymchwiliadau apeliadau yn erbyn lluoedd heddlu yn 2016/17. Gostyngodd hyn o 41 y cant yn y flwyddyn flaenorol. Fe wnaethom gadarnhau 36 y cant o apeliadau peidio â chofnodi yn 2016/17. Gostyngodd hyn o 40 y cant yn y flwyddyn flaenorol, ac mae'n parhau ar duedd ar i lawr ers sawl blwyddyn. Ond mae gwahaniaeth mawr rhwng lluoedd heddlu.

¹⁴ Pan fydd llu heddlu yn derbyn cwyn, mae'n rhaid iddo benderfynu a yw am ei chofnodi. Os bydd yn penderfynu peidio, efallai gall yr achwynydd apelio at yr IPCC.

Gwaith sy'n parhau dan amcan strategol pedwar

Rydym yn gweithio gyda lluoedd heddlu a Chomisynwyr i sicrhau bod y trosglwyddiad yn llyfn wrth i elfennau o'r Ddeddf Plismona a Throseddau ddod i rym. Rydym yn anelu

at sicrhau bod y safonau cywir yn cael eu cyrraedd, gan sicrhau hyder y cyhoedd yn y system gwynion. Byddwn hefyd yn datblygu strategaeth oruchwyllo newydd i ddod i rym wrth i ni ddod yn IOPC, a pharhau i gyhoeddi ein bwletin chwarterol i luoedd heddlu.



Cyswllt trwy e-bost a dros y ffôn gan luoedd heddlu yr ymatebwyd iddynt gan ein tîm goruchwyllo:

707

Cyfarfodydd PSD Rhanbarthol a fynychwyd:

17



Cyfarfodydd PSD a fynychwyd:

138



Astudiaeth achos 11: Adolygu'r modd y mae lluoedd heddlu yn ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â honiadau o wahaniaethu

Y Ym Medi 2015, cyhoeddwyd ein cyfarwyddyd newydd ar drin honiadau o wahaniaethu (www.policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/research-learning/guidelines_for_handling_allegations_of_discrimination.pdf). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, fe wnaethom ail-ymweld â lluoedd heddlu a gymerodd ran yn yr adolygiad a gynhaliwyd gennym yn 2014, a wnaeth fwydo i mewn i gynhyrchu'r canllawiau yma. Trwy ddychwelyd i Heddlu Manceinion Fwyaf, Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr, a Heddlu Gorllewin Swydd Efrog, roeddem yn gallu tynnu cymhariaeth uniongyrchol â'u harferion yn y gorffennol a'u harferion presennol, gan roi golwg i ni ar ba mor dda y mae'r canllawiau yn cael eu defnyddio a'u gweithredu.

Canfu ein hadolygiad bod rhai

gwelliannau wedi digwydd yn y ffordd y mae'r lluoedd heddlu yma yn ymateb i honiadau o wahaniaethu. Mae mwy o ymgysylltu â chwynion, ac mae materion ymddygiad mewnol sy'n ymwneud â honiadau o wahaniaethu yn cael eu trin yn well. Ond, fe wnaethom ganfod bod cyfran sylweddol o ymchwiliadau i gwynion gan y cyhoedd yn annigonol ac yn y sampl a archwiliwyd gennym nid oedd unrhyw un o'r honiadau am wahaniaethu wedi cael eu cadarnhau.

Mae ein hadroddiad, a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 2017, yn cynnwys argymhellion i luoedd heddlu am y modd y dylent weithredu ein canllawiau gwahaniaethu i sicrhau bod cwynion o'r fath yn cael eu trin yn deg ac effeithiol (www.policeconduct.gov.uk/sites/default/files/Documents/research-learning/discrimination_report_2017.pdf).



Astudiaeth achos 12: Hyfforddiant i staff sy'n ymdrin â chwynion yr heddlu mewn lluoedd heddlu

Rydym wedi cyfrannu at hyfforddiant arbenigol i staff mewn adrannau safonau proffesiynol, gan roi trosolwg o waith yr IPCC, ei ddyluniad sefydliadol a'i werthoedd. Mae hyn wedi ein galluogi i ymgysylltu yn uniongyrchol â gweithwyr proffesiynol cwynion yr heddlu. Roeddem yn gallu amlygu arfer da, egluro unrhyw gamddealltwriaeth neu bryderon allai fod am waith yr IPCC, ac annog cysylltiadau cryf gyda staff yr heddlu a all fod â gwybodaeth gyfyngedig am ein gwaith.

Rydym hefyd wedi rhoi hyfforddiant a chynghor penodol i luoedd heddlu unigol ar bynciau a ddynodwyd trwy ein gwaith dadansoddi neu pan wnaeth lluoedd heddlu ofyn am ein cymorth.

Fe wnaethom ganfod, ar gyfer Heddlu Northumbria a Gorrlewin Swydd Efrog ein bod yn cadarnhau nifer uwch o apeliadau am beidio cofnodi cwyn, ac apeliadau a wnaed ar ôl ymchwiliad i gŵyn ar gyfartaledd. Buom yn gweithio gyda'r lluoedd heddlu yma i ddeall pam ein bod yn cadarnhau apeliadau yn erbyn eu penderfyniadau,

gyda golwg ar eu cefnogi i ymdrin â'r cwynion yn fwy effeithiol, a thrwy hynny osgoi'r angen am apeliadau. Gweithiodd y lluoedd heddlu gyda ni i wella eu dealltwriaeth o'r egwyddorion sylfaenol sy'n sail i'r modd y maent yn trin a chofnodi cwynion i ddechrau. Fe wnaethom hefyd weithio gyda nhw ar bwysigrwydd cofnodi a rhesymoli eu penderfyniadau, a sicrhau bod eu hymchwiliadau i gwynion yn gymesur ac yn ymdrin â difrifoldeb y materion a godwyd.

Yn 2016/17 roedd gwelliant sylweddol: Gostyngodd cyfradd apeliadau Heddlu Northumbria a gadarnhawyd i ddim ond 39 y cant o apeliadau i ymchwiliadau ac 19 y cant o apeliadau cofnodi, mewn cymhariaeth â 53 y cant a 41 y cant yn 2015/16. Gostyngodd y gyfradd a gadarnhawyd gan Orllewin Swydd Efrog, o 55 y cant a 53 y cant i 40 y cant a 38 y cant.

Mae'r lluoedd heddlu yn parhau i ymwneud â ni, gan geisio dysgu o'n penderfyniadau a gwella'r ffordd y maent yn ymdrin â chwynion.



AMCAN STRATEGOL PUMP:

gwella arferion plismona o ganlyniad i wersi a ddysgwyd o'n hymchwiliadau a gwaith apêl

Yn ystod 2016/17 cyhoeddwyd tri rhifyn o'n bwletin Dysgu'r gwersi (www.policeconduct.gov.uk/research-and-learning/learning-and-recommendations/learning-lessons). Mae'n helpu'r gwasanaeth heddlu i ddysgu gwersi oddi wrth ymchwiliadau i gwynion a materion ymddygiad a gyflawnir naill ai gan yr IPCC neu gan y gwasanaeth heddlu yn lleol.

Mae pob bwletin yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos byr di-enw a chwestiynau wedi eu bwriadu ar gyfer llunwyr polisïau/rheolwyr neu swyddogion/staff yr heddlu. Cynllunnir y rhain i helpu'r gwasanaeth heddlu i gyrraedd at graidd y gwersi sy'n deillio o bob achos. Rydym hefyd yn cyhoeddi adroddiad o wersi i'w dysgu mwy manwl ar gyfer pob achos a gynhwysir yn y bwletin. Eleni, fe wnaethom waith ychwanegol i helpu i hybu pob bwletin i ystod ehangach o randdeiliaid plismona a'r sector cymunedol/gwirfoddol. Ymateb oedd hyn i'r adborth o'r arolwg rhanddeiliaid ([gweler tudalen 17](#)), a ddangosodd bod y bwletin yn gyhoeddiad poblogaidd sy'n cael ei barchu. Rydym yn awr yn weithredol yn dynodi ac yn ymestyn at randdeiliaid allweddol yn yr heddlu a heb fod yn heddlu sy'n debygol o fod â diddordeb yn y materion sydd ym mhob bwletin, a'r rhai sydd â'r grym i siapio polisi neu arfer yn y meysydd hyn.

Yn 2016/17, fe wnaethom gyhoeddi dau fwletin ar themâu penodol ac un oedd yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion. Roedd ein rhifyn ar gyfer Tachwedd 2016 yn canolbwyntio ar ddiogelu pobl

Adborth i'n bwletin Dysgu'r Gwersi gan weithwyr plismona proffesiynol

“Yr hyn sy'n werthfawr yw bod y bwletin yn sôn am faterion gwirioneddol a dyna beth sy'n creu'r effaith a'i wneud yn gredadwy. Ni ddylai grwydro oddi wrth y fformat hwn, dylai gael ei gyfyngu i ddigwyddiadau gwirioneddol bob amser. Dylid trafod pob maes gan gynnwys materion mewnol ac allanol. Cadwch o'n realistig!”

“Rwy'n hoffi'r fformat ac yn ei weld yn ddarllenadwy iawn. Rwyf wedi sylwi ar nifer o faterion penodol a defnyddio'r bwletin i hybu newid yn fy llu heddlu. Nid yw'n ymddangos bod unrhyw un yn dadlau â'r canfyddiadau ac nid oes unrhyw un yn amau'r angen i newid gan eu bod yn gallu gweld yn glir beth yw'r sefyllfa i'w hosgoi.”

“Ar y cyfan, dwi'n meddwl bod y bwletin yn adnodd gwerth chweil a defnyddiol. Nid wy'n meddwl bod digon o swyddogion gweithredol ac arweinwyr ar lefel leol yn gwybod am ei fodolaeth.”

“Mae'r bwletin yn llawn gwybodaeth ac yn ddefnyddiol.”

fregus (darllenwch ragor am y rhifyn hwn ar [dudalen 16](http://www.dudalen16.com)) <http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20170914123541/http://www.ipcc.gov.uk/reports/learning-the-lessons/bulletin-28-november-2016>. Fe'i hyrwyddwyd yng nghynhadledd flynyddol y Coleg Plismona yn 2016, oedd yn canolbwyntio ar bobl fregus.

Roedd rhifyn Mawrth 2017 yn canolbwyntio ar ddalfa'r heddlu (<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20170914122204/http://www.ipcc.gov.uk/reports/learning-the-lessons/bulletin-29-march-2017>). Roedd y pynciau yn cynnwys canfod anafiadau yn ystod y broses gyhuddo, gwendidau wrth chwilio ac asesu risg, a salwch yn dilyn bod yn y ddalfa. Hyrwyddwyd y rhifyn ar Ardal Wybodaeth Ar-lein yr Heddlu (POLKA) a thrwy Twitter. Fe'i rhannwyd gyda phrif swyddogion ac amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys arweinwyr y ddalfa a datblygu'r lluoedd heddlu, ymwelwyr annibynnol â'r ddalfa, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddau ac amrywiaeth o randdeiliaid eraill yr heddlu a heb fod yn heddlu.

Mae'r ymateb i'r bwletin yn dal i ddangos ei fod yn ddefnyddiol i aelodau'r gwasanaeth heddlu, a bod lluoedd heddlu yn defnyddio'r gwersi i helpu i atal digwyddiadau tebyg.

Marwolaethau yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu yn 2016/17

Yng Ngorffennaf 2017, cyhoeddwyd ein hystadegau blynyddol ar farwolaethau yn dilyn cyswllt â'r heddlu www.policeconduct.gov.uk/research-and-learning/statistics/annual-deaths-during-or-following-police-contact-statistics.

- Roedd 14 o farwolaethau yn nalfa'r heddlu neu yn dilyn hynny, yr un ffigwr ag a gofnodwyd yn 2015/16 ac yn fras yn unol â'r cyfartaledd dros yr wyth mlynedd diwethaf. Arhosodd y ffigwr ar lai na hanner y nifer a gofnodwyd pan sefydlwyd yr IPCC gyntaf.
- Gwelwyd chwech yn cael eu saethu yn angheuol gan yr heddlu, y nifer uchaf a gofnodwyd ers 2004/05. Roedd un o'r rhain yn gysylltiedig â therfysgaeth. Mae tri yn destun ymchwiliadau sy'n parhau gan yr IPCC, ac mae tri wedi eu cwblhau.
- Roedd 32 o farwolaethau traffig ffordd, cynnydd o 11 mewn cymhariaeth â'r llynedd, y ffigwr uchaf a gofnodwyd yn yr wyth mlynedd diwethaf. Roedd wyth ar hugain o'r marwolaethau o ddigwyddiadau yn gysylltiedig ag erlid gan yr heddlu, dwbl y ffigwr ar gyfer y llynedd.
- Roedd 55 o hunanladdiadau ymddangosiadol yn dilyn bod yn y ddalfa gan yr heddlu mewn cymhariaeth â 60 y flwyddyn flaenorol.
- Fe wnaethom ymchwilio i'r amgylchiadau yn ymwneud â 124 marwolaeth yn y categori 'arall', i fyny o 102 y flwyddyn flaenorol. Mae'r cynnydd hwn yn adlewyrchu'r ffaith ein bod yn defnyddio ein hadnoddau ychwanegol i ymchwilio i ragor o farwolaethau dan y categori hwn.

Trwy weithio gyda lluoedd heddlu, rydym yn defnyddio'r hyn a ddysgir trwy'r ymchwil hwn i geisio atal digwyddiadau tebyg. O ystyried y cynnydd mewn marwolaethau yn gysylltiedig ag erlid gan yr heddlu, byddwn yn gweithio gyda Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu i edrych ar y rhesymau ac a oes angen newidiadau i ddiogelwch erlid gan yr heddlu neu'r hyfforddiant.

Gallwch ddarllen rhagor am yr ystadegau hyn ar ein [gwefan](#).

Gweithredu'r prawf achos i'w ateb

Anfonwyd llythyr gennym at yr holl luoedd heddlu i'w cynorthwyo i ddehongli'r prawf i ganfod bod achos i'w ateb am gamymddygiad ar ddiwedd pob ymchwiliad yn gywir. Roeddem yn ymwybodol nad oedd rhai lluoedd heddlu yn gweithredu'r prawf cywir, fel y diffinnir gan y gyfraith – y 'gall' panel wneud casgliad o gamymddygiad, ar sail y dystiolaeth – ond roeddem yn gweithredu trothwy uwch, yn nes at y prawf ar gyfer erlyn.

Ein gwaith ar newid deddfwriaethol

Ers peth amser, rydym wedi galw am newidiadau i system gwynion yr heddlu i leihau cymhlethdod a biwrocratiaeth. Ar 31 Ionawr 2017, derbyniodd *Deddf Plismona a Throseddau 2017* y Cydsyniad Brenhinol. Nod y Ddeddf yw symleiddio a llifinio system gwynion yr heddlu. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno nifer o newidiadau yr ydym wedi gofyn amdanynt – o ran system gwynion yr heddlu ac i strwythur yr IPCC.

Yn ystod 2016/17, fe wnaethom barhau ein perthynas waith gynhyrchiol gyda swyddogion sy'n gweithio ar y Mesur ac fe wnaethom gyfrannu at drafodaethau allweddol. Trwy gydol y broses fe wnaethom yn siŵr nad oedd llais yr achwynydd yn mynd ar goll wrth i bolisiau gael eu ffurfio.

Mae llawer o ddarpariaethau'r Ddeddf yn adlewyrchu ein cynigion ni ein hunain:

- diffiniad symlach o gŵyn
- un hawl i adolygiad gan gorff annibynnol
- mwy o bwerau i ni benderfynu ar achos i'w ateb ac i gyflwyno achosion mewn gwrandawriadau

- grym i bennu ein hunain a ydym am gymryd achosion heb orfod aros iddynt gael eu hatgyfeirio atom ni

Fe wnaethom gynhyrchu dogfennau briffio a chyflwyniadau wrth i'r Ddeddf fynd trwy'r Senedd. Dadleuwyd yn llwyddiannus gennym dros ychwanegu 'annibynnol' at yr enw newydd i'r sefydliad, sef y Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu erbyn hyn. Fe wnaethom hefyd sicrhau ymrwymiad i gyflwyno dyletswydd didwylledd, neu ddyletswydd cydweithredu, yn y rheoliadau a roddwyd dan y Ddeddf.

Bydd hyn yn ein cynorthwyo i gael ymatebion llawn a chynnar gan swyddogion, yn ogystal â'r wybodaeth arall sydd arnom ei hangen.

Byddwn yn parhau i weithio gyda swyddogion a rhanddeiliaid eraill wrth i reoliadau gael eu llunio dan y Ddeddf, i geisio sicrhau, cyn belled ag y gellir, bod y system yn symlach, yn rhoi mwy o bwyslais ar y defnyddwyr, ac yn llai biwrocraidd.

Asesu ein perfformiad mewn cymhariaeth ag amcan strategol pump

Rydym yn mesur ein llwyddiant yn y maes hwn trwy'r adborth yr ydym yn ei gasglu am y derbyniad a roddir i'n bwletinau Dysgu'r gwersi (www.policeconduct.gov.uk/research-and-learning/learning-and-recommendations/learning-lessons). Yn 2016/17 cytunai cyfartaledd o 84 y cant o'r rhai a ymatebodd i'n harolwg cyson am y bwletin ei fod yn offeryn defnyddiol i helpu i yrru newid ym mholisiau ac arferion yr heddlu. Cytunodd cyfartaledd o 95 y cant o'r ymatebwyr bod y crynodebau achosion a gynhwysir yn y bwletin yn glir ac yn hawdd eu deall. Derbyniwyd naw deg tri

y cant o'r argymhellion gwersi i'w dysgu a wnaed gennym yn 2016/17 gan luoedd heddlu, sydd ychydig yn is na'n targed o 95 y cant (www.policeconduct.gov.uk/investigations/investigation-summaries-and-learning-recommendations). Rydym am i argymhellion dros newid fod yn effeithiol, ond ar adegau maent yn heriol o angenrheidrwydd. Nid y gyfradd dderbyn yw'r unig dystiolaeth o lwyddiant; rydym hefyd yn ystyried gwybodaeth ansoddol ar weithredu gwersi a ddysgwyd.

Gwaith sy'n parhau dan amcan strategol pump

Yn ystod 2017/18 byddwn yn cyhoeddi tri rhifyn arall o'r bwletin Dysgu'r Gwersi.

Byddwn hefyd yn parhau i gyhoeddi argymhellion a wnaed o ganlyniad i'n gwaith, ynghyd ag ymatebion y lluoedd heddlu.



Astudiaeth achos 13: Heddlu Surrey wedi peidio ag adolygu trwydded dyn i ddal gynnu yn briodol

B Buom yn ymchwilio i benderfyniad Heddlu Surrey i ddychwelyd gynnu yr oedd yn berchennog cyfreithlon arnynt i John Lowe oedd wedi cael eu hatafaelu gan y llu heddlu. Yn dilyn hynny collfarnwyd John Lowe am lofruddio Christine a Lucy Lee ar ôl iddo eu saethu yn Chwefror 2014.

Daeth ein hymchwiliad i'r casgliad bod tîm trwyddedu gynnu Heddlu Surrey wedi peidio â dilyn camau ymchwilio syml ac asesu'r risg yr oedd Mr Lowe yn ei greu yn ddigonol.

Ar ôl ein hymchwiliad, diswyddwyd swyddog ymholiadau arfau saethu heb rybudd ac ymddeolodd goruchwyliwr trwyddedu arfau saethu cyn i'r gwrandawriad gael ei gynnal. Cafwyd nad oedd gan reolwr trwyddedu arfau saethu achos i'w ateb.

Fel rhan o'r ymchwiliad, fe wnaethom hefyd nifer o argymhellion wedi eu

bwriadu i wella trwyddedu gynnu gan Heddlu Surrey ac yn genedlaethol. Roedd y rhain yn cynnwys yr angen i sicrhau:

- bod rhaglen hyfforddi wedi ei strwythuro yn ei lle i staff trwyddedu
- bod cyswllt rhwng y tîm trwyddedu a'r staff sy'n ymchwilio i honiadau am ddeiliaid trwyddedau
- bod gwybodaeth feddygol yn cael ei sicrhau a'i hystyried yn briodol
- bod sicrhau ansawdd addas ar waith y tîm trwyddedu
- bod diweddariad yn cael ei roi, pan fydd yn briodol, i'r rhai sy'n gwneud honiadau am bobl sydd â thrwyddedau gynnu.

Derbyniodd Heddlu Surrey yr holl argymhellion lleol, ac mae'r rhai cenedlaethol yn cael eu hystyried fel rhan o ymgynghoriad cenedlaethol ar gyfarwyddyd statudol ar drwyddedu gynnu.



Ein hargymhellion ar waith

Astudiaeth achos 14: dau swyddog Heddlu Essex yn cael eu disgyblu ar ôl i rywun dan amheuaeth gael ei ryddhau ar fechnïaeth

D Derbyniwyd atgyfeiriad gan Heddlu Essex ar ôl i Roy Hensley dorri i mewn i gartref ei bartner Marie Charles a'i thrywanu hi a'i chymydog, gan anafu'r ddwy. Ym Mawrth 2016, fe'i carcharwyd am 15 mlynedd am geisio llofruddio ac achosi niwed corfforol difrifol yn fwriadol.

Roedd Mr Hensley wedi cael ei arestio gan swyddogion Heddlu Essex ar 11 Ionawr 2015 dan amheuaeth o ymosod ar ei bartner. Fe'i rhyddhawyd ar fechnïaeth i'r Gwasanaeth Heddlu Metropolitan (MPS), oedd yn chwilio amdano am drosedd arall ddigyswllt. Fe'i rhoddwyd ar fechnïaeth gan yr MPS wedyn oriau cyn yr ymosodiad ar ei bartner a'i chymydog.

Roedd ein hymchwiliad yn canolbwyntio ar yr asesiadau risg yr oedd y ddau lu heddlu wedi eu cynnal cyn rhoi Roy Hensley ar fechnïaeth. Disgyblwyd dau swyddog o Heddlu Essex am eu rhan yn y penderfyniad i beidio atgyfeirio Mr Hensley at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) cyn rhoi mechnïaeth iddo.

O ganlyniad i'n hymchwiliad, fe wnaethom argymhell bod pob llu heddlu yn sicrhau llinellau cyfathrebu clir mewn achosion pan fydd rhywun dan amheuaeth yn cael

ei drosglwyddo i awdurdodaeth llu heddlu arall. Mae'n hanfodol bod dioddefwyr yn cael eu hysbysu ar y cyfle cyntaf posibl am unrhyw amrywiad i amodau mechnïaeth yr un dan amheuaeth, neu os bydd yr un dan amheuaeth yn cael ei ryddhau o'r ddalfa. Fe wnaethom argymhell bod y Coleg Plismona yn ystyried cynnwys hyn yn ei Arfer Proffesiynol a Ganiateir a chytunodd y Coleg y byddai'n adolygu hyn.

Astudiaeth achos 15: Heddlu Sussex yn derbyn argymhellion am stelcio ac aflonyddu

Y Yn Awst 2016, llofruddiwyd Shana Grice, 19 mlwydd oed, gan rywun yr oedd yn ei adnabod, Michael Lane. Rydym yn edrych ar y cyswllt a fu rhwng Heddlu Sussex a Mr Lane a Ms Grice cyn ei marwolaeth.

Yn y tymor byr rydym wedi gwneud chwech o argymhellion dysgu gwersi cyflym i Heddlu Sussex am y ffordd y mae'r llu heddlu yn ymdrin ag achosion o stelcio ac aflonyddu.

Derbyniodd y llu heddlu'r argymhellion hyn, oedd yn ymdrin â gwella'r ffordd y mae swyddogion yn cael eu hyfforddi i ddynodi achosion o stelcio ac aflonyddu, a beth yw'r ffordd orau i ddiogelu dioddefwyr.

Roedd yr argymhellion hefyd yn canolbwyntio ar welliannau i storio ac adfer data, a gwell defnydd o systemau sy'n bodoli i sicrhau bod gwybodaeth berthnasol yn cael ei chofnodi, ei hystyried a'i hadolygu yn gywir.

Mae ein hymchwiliad yn parhau.

Astudiaeth achos 16: Achosion camymddygiad i 19 o swyddogion a staff heddlu am gyswllt yr heddlu â dioddefwr llofruddiaeth ym Birmingham

A Arweiniodd atgyfeiriad gan Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr ni at archwilio 19 o ddigwyddiadau yn ymwneud â Jacqueline Oakes a'i chynbartner Marcus Musgrove, a oedd wedi eu cofnodi cyn iddo ei lladd yn Ionawr 2014.

Fe wnaethom ymchwilio i gyswllt y llu heddlu â Ms Oakes cyn ei llofruddiaeth a dod i'r casgliad bod gan 19 o swyddogion a staff achos i'w ateb am gamymddygiad. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod achos i'w ateb hefyd am gamymddygiad difrifol i un swyddog oedd wedi ymddeol. Ni ddynodwyd unrhyw gamymddygiad ar gyfer 20 swyddog ac aelod arall o staff yr archwiliwyd eu gweithredoedd yn ystod ein hymchwiliad.

Fe wnaethom ganfod tystiolaeth i awgrymu bod methiannau wedi digwydd o ran gwiriadau cudd-wybodaeth, cadw at bolisi cam-drin domestig, cofnodi digwyddiadau a rheoli lefel risg.

Roedd yn un o'n hymchwiliadau mwyaf hyd yn hyn o ran ei gymhlethdod a'r nifer o swyddogion yr archwiliwyd eu gweithredoedd. Cyfwelwyd dwsinau o swyddogion ac archwiliwyd cannoedd o ddogfennau'r heddlu.

Derbyniodd y llu heddlu ein casgliadau ac mae wedi ymdrin â'n hargymhellion am ddynodi pobl fregus ar systemau'r heddlu, fel bod swyddogion yn gallu ymateb yn well i risg gysylltiedig.

Roedd argymhellion eraill yn ceisio gwella dealltwriaeth o bolisi cam-drin domestig y llu heddlu ymhlith ei staff rheng flaen, ac ymdrin â lefel yr oruchwyliaeth a'r hyfforddiant i staff yr ystafell reoli.

Roedd yr heddlu yn chwilio am Mr Musgrove yn barod am dorri amodau mechnïaeth pan laddodd Jacqueline Oakes ac fe wnaethom ddynodi methiannau sefydliadol sylweddol yn gysylltiedig â hyn. Ers hynny, mae'r llu heddlu wedi cyflwyno proses fwy ffurfiol ar gyfer ymdrin ag arestïadau sydd heb eu cyflawni o'r math hwn.

AMCAN STRATEGOL CHWECH:
sicrhau bod yr IPCC yn addas i'r
diben, yn ystwyth, yn gallu rheoli
ehangu sylweddol ac yn cynrychioli'r
cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu

Ein hymrwymiad i'n pobl ac i
gydraddoldeb ac amrywiaeth

Yn ystod 2016/17, fe wnaethom ganolbwyntio ar les corfforol a meddyliol ein staff, gan roi cefnogaeth iddynt. Cymerwyd rhan yn yr Wythnos Dysgu yn y Gwaith Genedlaethol, a drefnwyd gan yr Ymgyrch dros Ddysgu. Fe wnaethom hefyd ddiwygio ein rhaglen gynefino i staff newydd.

Mae ein Pwyllgor Pobl ac Adnoddau Dynol yn parhau i chwarae rôl bwysig yn goruchwyllo gweithredu ein Strategaeth Pobl a gwnaed cynnydd da.

Rydym wedi adolygu a diweddarau ein dull o gynnal asesiadau effaith cydraddoldeb. Mae'r Sefydliad Prydeinig Hawliau Dynol wedi rhoi hyfforddiant i lawer o'n staff ar lenwi'r asesiadau hyn, ac ar Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae ein grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, dan gadeiryddiaeth ein Prif Weithredwr, yn cyfarfod yn chwarterol, ac yn monitro cynnydd, gan ddefnyddio'r fframwaith perfformiad cydraddoldeb yr ydym wedi ei ddatblygu. Mae'r Grŵp yn archwilio tueddiadau sy'n ymddangos, ac yn sicrhau bod camau yn cael eu cymryd pan fydd angen hynny.

Mae ein chwe rhwydwaith staff yn dal i gefnogi ein busnes, yn benodol trwy:

- roi gwybodaeth i gydweithwyr a'u haddysgu am faterion cydraddoldeb

- roi cefnogaeth a lle diogel ar gyfer trafodaeth
- weithio gyda staff sy'n cwblhau asesiadau effaith cydraddoldeb i sicrhau eu bod yn ystyried barn pobl â'r holl nodweddion a ddiogelir

Rydym wedi cynhyrchu polisi addasiadau rhesymol i'r staff. Mae hyn yn cynnwys pasbort anabledd i gefnogi staff, a hyfforddiant i reolwyr llinell ar ymwybyddiaeth anabledd a rheoli timau cynhwysol.

Datblygwyd amserlen i adolygu ein polisiau mewn cymhariaeth â'r Ddyletswydd Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus ac mae ar y gweill erbyn hyn. Bydd y gwaith hwn yn sicrhau na fydd unrhyw un o'n polisiau yn creu anfantais anghymesur yn anfwriadol i rywun sydd â nodwedd sy'n cael ei diogelu.

Mae gan yr holl staff yn awr amcan cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu hadolygiad datblygu perfformiad blynyddol fel bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dod yn rhan gydnabyddedig o waith pawb. Rydym hefyd yn sicrhau bod yr holl staff newydd yn dilyn hyfforddiant tuedd anymwybodol fel rhan o'u cwrs cynefino. Gallwn yn awr adrodd bod ein cyfran o staff BME yn gyfartal â'r boblogaeth yn ei chyfanrwydd. Gallwch weld data am gefndir ein staff ar dudalennau 84 i 100 o'r adroddiad hwn.

Ein harolwg staff yn 2016

Llwyddodd ein harolwg staff 2016, gan ddefnyddio Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil, i gael cyfradd ymateb o 68 y cant. Mae'r arolwg hwn yn rhoi cyfle i ni gymharu ein canlyniadau â blynyddoedd blaenorol, a gyda sefydliadau tebyg. Roedd y gyfradd ymateb yn ganran is nag

un y llynedd oedd yn 74 y cant, ond roedd yn cynnwys rhagor o bobl (702, mewn cymhariaeth â 662).

Yr hyn oedd yn arbennig o galonogol oedd y cynnydd o 13% o'r flwyddyn flaenorol, mewn staff oedd yn meddwl bod camau effeithiol wedi eu cymryd o ganlyniad i arolwg staff 2015. Roedd cynnydd hefyd o 2% yn y sgoriau ers yr arolwg diwethaf, yn y staff oedd yn meddwl y bydd camau yn cael eu cymryd o ganlyniad i arolwg staff 2016.

Wrth ymateb i'r sgoriau hyn, gofynnodd y Tîm Rheoli i dimau ar draws y sefydliad gynnig dau gam positif y byddent yn eu cymryd i wella rhai o'r materion a godwyd yn yr arolwg. Wrth asesu'r camau hyn, gwelwyd rhai gwelliannau gwirioneddol yn yr amser y mae'n ei gymryd i ymchwiliadau gael eu symud ymlaen, ac yn y gyfradd o achosion sy'n cael eu cau. Cafwyd ymateb hefyd bod staff yn teimlo bod ganddynt ragor o wybodaeth am y broses drawsnewid bresennol.

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi ymrwymo i wella'r sgoriau yn yr arolwg staff o'r llynedd. Eleni, ymrwymodd y Bwrdd Rheoli i wella isadeiledd TGCh y sefydliad, yn ogystal â datblygu a gweithredu amrywiaeth eang o gamau i wella lles staff.

Newid a thrawsnewid

Mae ein rhaglen newid – Y Ffordd Ymlaen – wedi gwneud llawer iawn o waith tuag at y nod ddeublyg o drawsnewid yn llwyddiannus i ddod yn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) a chyflwyno arferion gwaith newydd yn llyfn sy'n deillio o newidiadau deddfwriaethol i system gwynion yr heddlu. Mae'r newidiadau yn

canolbwyntio ar baratoi'r sefydliad at y trawsnewid, gan gadw pwyslais clir ar wella ansawdd a phrydlondeb ein gwaith. Rydym wedi mabwysiadu dull 'yr hyn sy'n gweithio', gan annog staff i dreialu cynlluniau a all arwain at welliannau yn ein prosesau, eu hasesu a rhannu'r hyn a ddysgir.

Yn ystod 2016/17, recriwtiodd y Swyddfa Gartref Gyfarwyddwr Cyffredinol ar gyfer yr IOPC ac fe wnaethom baratoi i recriwtio'r rolau allweddol sy'n ei gefnogi wrth arwain y sefydliad.

Bydd ein strwythur llywodraethu newydd yn cynnwys arweinyddiaeth leol gref trwy Gyfarwyddwyr Rhanbarthol a Chyfarwyddwr cenedlaethol i Gymru. Rydym wedi gweithio gyda rheolwyr o bob rhan o'r sefydliad i ystyried sut i gydbwyso'r angen am arweinyddiaeth ranbarthol ac atebolrwydd gyda safonau cenedlaethol a chydlynu canolog ar strategaeth. Mae'r gwaith datblygu hwn wedi helpu i sicrhau bod ein rheolwyr a'u timau mewn sefyllfa dda i addasu i'r strwythur newydd pan ddaw'r IOPC i fodolaeth.

Ein systemau a phrosesau

Rydym wedi cychwyn symud oddi wrth ein prif gyflenwr gwasanaethau TGCh dros gyfnod. Bydd y trosglwyddo ar wasanaethau yn parhau dros y cyfnod contract o ddwy flynedd nesaf, sy'n dod i ben yn Rhagfyr 2019. Mae hyn yn rhoi parhad yn ystod ein cyfnod o drawsnewid ac yn rhoi rhagor o amser i gynllunio, cyn ac ar ôl i'r newidiadau ddigwydd.

Gan weithio'n glos gyda Gweithrediadau, cyflawnodd y Tîm Gwybodaeth ddwy elfen o waith y system graidd newydd, i gefnogi

newid Deddfwriaethol a Llywodraethu. Mae ein gwaith yn adnewyddu seilwaith yr IPCC wedi symud ymlaen ymhell. Mae symud i wasanaethau cyfrifiadurol ar y cwmwl, system reoli data gyfrinachol newydd a dyfeisiadau pen desg symudol ar fin digwydd.

Gwelodd y gwaith i wella ein rheolaeth ariannol a chaffael ni yn gweithredu polisi 'dim archeb/dim tâl'. Mae'r cyflenwyr wedi cael gwybod am y dull hwn.

Gwerth gwybodaeth yn ein gwaith

Rydym yn dangos cynnydd ar draws y sefydliad i wella ein rheolaeth ar ddealltwriaeth a gwybodaeth. Gwnaed gwaith sylweddol i wella ansawdd y data ar draws yr IPCC, gan gynnwys hyfforddiant ac arweiniad i staff, adolygiadau o'r data sydd gennym, a datblygu egwyddorion craidd i arwain ein gwaith.

Roedd data a gwybodaeth yn cael eu cadw mewn timau ar wahân yn y gorffennol, ond rydym yn awr yn rhannu a chofnodi gwybodaeth ar draws y sefydliad, ac yn ailstrwythuro'r modd y mae'n cael ei gyrchu a'i ddefnyddio.

Rydym wedi lansio'r 'Knowledgebase', lleoliad canolog ar gyfer data a gwybodaeth a ddefnyddir amlaf gan ein staff. Mae hyn yn cynnwys y wybodaeth am ymchwiliadau, lluoedd heddlu, materion allweddol ar gyfer datblygu polisi ac argymhellion.

Bydd ein strategaeth gudd-wybodaeth yn gadael i ni ddefnyddio ein hymchwiliadau fel cyfleoedd unigryw i gasglu gwybodaeth am ddirwyddiadau sensitif a difrifol sy'n ymwneud â'r heddlu.

Asesu ein perfformiad mewn cymhariaeth ag amcan strategol chwech

Ein targed ar gyfer 2016/17 oedd cyflawni sgôr ymgysylltiad arolwg staff o 61 y cant. Mae'r sgôr ymgysylltiad yn seiliedig ar ganlyniadau pum cwestiwn a gynhwysir yn yr arolwg. Mae'r cwestiynau yma yn ymwneud â balchder, eiriolaeth, cysylltiad, ysbrydoliaeth a chymhelliant.

Ni wnaethom gyrraedd y targed hwn, gan gael sgôr o 56 y cant. Roedd hyn, yn anochel, yn adlewyrchu peth ansicrwydd am y dyfodol, o ystyried ein ehangiad cyflym a'r newid i'r strwythur sydd ar y ffordd. Rydym wedi cymryd camau i ymdrin â hyn, gan ddatblygu strategaeth gyfathrebu fwy cadarn am y newidiadau, a sicrhau bod ein staff uwch yn fwy gweladwy.

Gwaith parhaus dan amcan strategol chwech

Byddwn yn parhau i adeiladu ar ein pwyslais ar ddysgu a datblygu yn y flwyddyn sydd i ddod. Gall pob aelod o staff ddefnyddio pump o ddyddiau dysgu a datblygu. Bydd ein pwyslais ar arweinyddiaeth a rheolaeth hefyd yn parhau, gyda digwyddiadau i'n huwch dîm arwain. Yn ogystal â hyn, rydym yn bwriadu cynyddu'r nifer o brentisiaethau a'r amrywiaeth yn eu plith.

Ein gwaith yng Nghymru yn ystod 2016/17

Rydym yn gweithio ar draws Cymru a Lloegr, gyda'r un cyfrifoldebau ar gyfer heddluoedd Cymru a Lloegr. Er nad yw plismona yng Nghymru wedi ei ddatganoli, mae'r amgylchedd y mae'n cael ei gyflawni ynddo, a'r asiantaethau partner sy'n ymwneud ag o yn wahanol iawn i'r rhai yn Lloegr. Y Comisiynydd Jan Williams¹⁵ oedd yn gyfrifol am roi goruchwyliaeth annibynnol dros luoedd heddlu yng Nghymru.

Yn 2016/17 gwelwyd lansio Fforwm Rhanddeiliaid IPCC Cymru: dan gadeiryddiaeth Comisiynydd Cymru, mae'r fforwm yn dwyn cyrff amrywiol o blismona, cyfiawnder troseddol a chyrff gwasanaeth cyhoeddus eraill at ei gilydd i drafod a bod yn sail i waith yr IPCC yng Nghymru.

Parhaodd y Comisiynydd ei rhaglen o gyfarfodydd briffio i swyddfa Ysgrifennydd Gwladol Cymru, a Llywodraeth Cymru. Roedd y cyfarfodydd briffio yma ar ffurf cyfarfodydd gydag Ysgrifenyddion Cabinet Llywodraeth Cymru dros lechyd, Llesiant a Chwaraeon a Chymunedau a Phlant, y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ynghyd â'i swyddogion, a'r Is-ysgrifennydd Gwladol yn Swyddfa Cymru. Mae hefyd wedi cyfarfod Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Roedd gan y Comisiynydd bwyslais penodol eleni ar gynyddu ymwybyddiaeth o rôl yr IPCC ymhlith cyrff datganoledig a sefydlodd raglen o gyflwyniadau i Fyrddau Oedolion a Diogelu Plant ar draws Cymru.

Gweithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu Cymru a Grŵp Prif Swyddogion Cymru

Fe wnaethom barhau ein hymgysylltu adeiladol â Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ar lefel Cymru gyfan a lefel unigol. Fe wnaethom hefyd barhau i ymwneud ag uwch swyddogion heddlu trwy Grŵp Prif Swyddogion Cymru i helpu lluoedd heddlu i wella polisi ac arferion, a pharhau i ddal lluoedd heddlu i gyfrif.

Rhannwyd yr hyn yr ydym wedi ei ddysgu o ymchwiliadau cam-drin domestig gyda Chymorth i Fenywod Cymru a'r Cynghorydd Cenedlaethol ar Drais yn Erbyn Menywod. Roedd y Comisiynydd Williams yn falch o dderbyn gwahoddiad y Cynghorydd i ymuno â'i Phanel Gwersi i'w Dysgu Cymru i helpu i siapio gwelliannau. Ar faterion ehangach, cadwodd y Comisiynydd gyswllt cyson ag Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi a Gwasanaeth Erlyn y Goron, a gyda sefydliadau iechyd meddwl. Bu cyswllt gydag Arolygiaeth Gofal lechyd Cymru a'r Weinyddiaeth Amddiffyn ar ymchwiliadau cyfochrog perthnasol.

¹⁵ Symudodd Jan Williams ymlaen i rôl newydd tu allan i'r IPCC ym Medi 2017.



Astudiaeth achos 17: Ein hymchwiliadau yng Nghymru

M Mae'r achosion pan fydd pobl yn y ddalfa yn llwyddo i ddwyn cyffuriau i mewn neu yn ceisio anafu eu hunain gyda llinynnau neu offer o'u gwneuthuriad eu hunain tra mewn celloedd yn parhau yn bryder. Mae system roi adroddiadau wedi ei safoni, y cytunwyd arni gan Fforwm y Ddalfa Cymru, yn creu mwy o gysondeb wrth i luoedd heddlu atgyfeirio digwyddiadau niweidiol yn y ddalfa i'r IPCC fel ein bod yn gallu dynodi unrhyw wersi i'w dysgu. Fe welwyd argymhellion cyflym hefyd, fel atgoffa lluoedd heddlu i ddilyn arfer a awdurdodir a sicrhau nad yw blancedi yn cuddio wyneb yr un yn y gell yn ystod gwiriadau celloedd. Mae mwy o waith dadansoddol yn cael ei wneud i helpu lluoedd heddlu Cymru i barhau â gwelliannau systemig o ran safonau diogelwch yn y ddalfa.

Cyhoeddodd Comisiynydd Cymru rybudd am y risg angheuol o lyncu cyffuriau i geisio eu cuddio wrth i bobl

gael eu stopio gan yr heddlu. Ymateb oedd hyn i ymchwiliadau i farwolaethau dau ddyn yn Aberdâr a Llanelli dan yr amgylchiadau hyn.

Fel rhan o ymchwiliad i farwolaeth dyn â phroblemau iechyd meddwl yn Nyfed Powys, gwnaed argymhellion i'r llu am sicrhau gwell arbenigedd meddygol yn y ddalfa a diweddarau protocolau gydag asiantaethau partner.

Lladdodd Matthew Williams Cerys Yemm mewn gwesty yn Argoed yn 2014. Yn ystod ei arestio defnyddiodd swyddogion gyffion ar ei freichiau a'i goesau, a defnyddio Taser bedair gwaith i geisio ei gael dan reolaeth. Cyflwynwyd ein hadroddiad ymchwiliad i Grwner EM i helpu'r cwest. O ystyried y sefyllfa yr oeddent yn ei hwynebu, daethom i'r casgliad bod swyddogion yr heddlu wedi gweithredu gyda grym rhesymol ac angenrheidiol.

Ein cyfrifoldebau am sefydliadau nad ydynt yn heddlu

Mae'r IPCC yn gyfrifol am y ffordd y mae rhai cwynion penodol am sefydliadau nad ydynt yn heddlu yn cael eu trin. Mae hyn yn cynnwys:

- cwynion difrifol yn erbyn yr Asiantaeth Droseddau Genedlaethol (NCA), gan gynnwys cwynion yn ymwneud â gweithgarwch elw troseddau
- rhai mathau o gwynion difrifol yn erbyn staff y Swyddfa Gartref sy'n cyflawni rhai swyddogaethau ffiniau a mewnfudo (gan gynnwys yn erbyn staff dan contract gan y Swyddfa Gartref i gyflawni rhai swyddogaethau ar eu rhan)
- cwynion difrifol yn erbyn staff Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThem)

Yn dilyn atgyfeiriad/cwyn, fe allwn ymchwilio i'r mater. Fel arall, gallwn benderfynu y gall y sefydliad ymdrin ag o trwy ei brosesau mewnol neu beidio â chymryd unrhyw gamau pellach.

Ein nod yw i'r sefydliadau yma ddysgu oddi wrth ein gwaith a gwella eu harferion o ganlyniad.

Ymchwiliadau ac apeliadau NCA yn 2016/17

Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 cawsom 21 o atgyfeiriadau o'r NCA:

- roedd dau yn destun ymchwiliad annibynnol (cychwynnwyd ymchwiliad annibynnol ychwanegol, ond ail bennwyd hwn fel ymchwiliad lleol yn nes ymlaen)

- roedd un yn destun ymchwiliad wedi'i oruchwyllo
- anfonwyd 12 yn ôl at yr NCA ar gyfer ymchwiliad lleol
- atgyfeiriwyd pump yn ôl i'r NCA ddelio â nhw fel y gwelai'n dda

O'r deg apêl ymchwilio NCA a gwblhawyd gennym yn ystod 2016/17, cadarnhawyd un, ni chadarnhawyd wyth ac nid oedd un yn ddilys. O'r 13 apêl peidio â chofnodi NCA a gwblhawyd gennym yn ystod 2016/17, cadarnhawyd tair, ni chadarnhawyd wyth, ac nid oedd dwy yn ddilys.

Ymchwiliadau ac apeliadau'r Swyddfa Gartref yn 2016/17

Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 cawsom 15 o atgyfeiriadau gan y Swyddfa Gartref:

- anfonwyd 11 yn ôl at y Swyddfa Gartref i'w ymchwilio yn lleol atgyfeiriwyd pedair yn ôl at y Swyddfa Gartref i ddelio â nhw fel y gwelai'n dda

O'r ddwy apêl ymchwiliad Swyddfa Gartref a gwblhawyd gennym yn ystod 2016/17, cadarnhawyd un ar y sail bod gwybodaeth annigonol wedi ei rhoi i'r achwynydd ar derfyn yr ymchwiliad. Nid oedd y llall yn ddilys. Nid oedd yr un o'r pedair apêl Swyddfa Gartref am beidio â chofnodi a gwblhawyd gennym yn ystod 2016/17 yn ddilys.

Ymchwiliadau ac apeliadau CThEM yn 2016/17

Rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017 cawsom 22 atgyfeiriad gan CThEM:

- roedd un yn destun ymchwiliad wedi'i oruchwyllo
- anfonwyd 20 yn ôl at CThEM i'w hymchwilio yn lleol
- cyfeiriwyd un yn ôl at CThEM er mwyn iddynt ymdrin ag ef fel y gwelent orau

O'r tair apêl ymchwilio CThEM a gwblhawyd gennym yn ystod 2016/17, cadarnhawyd un, ni chadarnhawyd dwy ac nid oedd un yn ddilys. Nid oedd yr un apêl CThEM am beidio â chofnodi a gwblhawyd gennym yn ystod 2016/17 yn ddilys.

Newidiadau i ddeddfwriaeth

Bydd y Ddeddf Plismona a Throseddu a'r rheoliadau cysylltiedig yn gwneud newidiadau mawr i'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli system gwynion yr heddlu. Mae'r rheoliadau sy'n rheoli cwynion NCA, y Swyddfa Gartref a CThEM yn seiliedig ar system gwynion yr heddlu, ond mae gwahaniaethau.

Rydym wedi dechrau trafodaethau gyda'r sefydliadau yma i ystyried pa rai o'r newidiadau yn system gwynion yr heddlu y byddai o fudd i'w hadlewyrchu yn system gwynion yr NCA, y Swyddfa Gartref a CThEM. Byddwn yn parhau i weithio yn ystod y flwyddyn sydd i ddod wrth i ddeddfwriaeth cwynion yr heddlu gael ei diwygio.

Adroddiad cynaliadwyedd

Mae'r adran hon yn esbonio effaith presennol yr IPCC ar yr amgylchedd o ran allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau gwastraff a'i reoli, defnydd o ddŵr a chaffael cynaliadwy.

Mae hyn yn bodloni gofynion 'HM Treasury Guidance 2016-17 Sustainability Reporting in the Public Sector'. Nid oes unrhyw gynllun gweithredu bioamrywiaeth gan nad yw'n berthnasol i'n swyddogaethau.

Ein perfformiad cynaliadwyedd yn 2016/17

Amlinellir y dangosyddion perfformiad allweddol yn y tabl isod, a'u cymharu â chanlyniadau ar gyfer y ddwy flynedd ariannol flaenorol lle mae'r ffigyrau hyn ar gael. Yn ystod y cyfnod adrodd hwn,

rydym wedi parhau i recriwtio rhagor o aelodau staff a chynyddu ein gofod swyddfa yn Sale o 516 metr sgwâr.

Yn ystod 2016/17, rydym wedi gweithio ar wella ein ffigyrau gwastraff a gostwng canran y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi.

Nid oes gwybodaeth am ein defnydd o ddŵr a'r costau ar gyfer ein swyddfeydd yn Llundain, Birmingham a Croydon.

Cyfrifwyd y ffigyrau isod drwy ddefnyddio'r ffactorau trosi a argymhellwyd ac a ddarparwyd gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, fel y nodir yn ei Chanllawiau Adrodd Amgylcheddol. Lle mae gwell gwybodaeth bellach ar gael ar gyfer y cyfnodau adrodd blaenorol, rydym wedi newid y data i adlewyrchu hyn.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr*		2014/15	2015/16	2016/17**
Dangosyddion anariannol (TCO2)	Allyriadau gros cwmpas 1	199	171	264
	Allyriadau gros cwmpas 2	825	973	778
	Allyriadau gros cwmpas 3	462.66	451.64	465
	Cyfanswm yr allyriadau	1,487	1,595	1,507
Nwy (kwh)		AMH	808,214	945,857
Dangosyddion anariannol (kg)	Cyfanswm y gwastraff	54,204	66,680	69,300
	Anfonwyd i dirlenwi	7,831	5,927	6,159
	Ailgylchu	32,305	46,721	48,557
	Llosgi	14,032	14,032	14,583
	Adfer ynni trwy losgi	-	-	-

Allyriadau nwyon tŷ gwydr*		2014/15	2015/16	2016/17**
Dangosyddion anariannol (m³)	Defnydd o ddŵr	12,623	18,331	19,135
Dangosyddion ariannol (£)	Gwariant ar ynni a brynwyd, gan gynnwys teithio	£1,012,146	£1,057,223	£1,346,841
	Gwariant ar waredu gwastraff, gan gynnwys:			
	Anfonwyd i dirlenwi	Amh	Amh	Amh
	Ailgylchu	£12,013	£11,747	£17,237
	Llosgi	-	-	-
	Gwariant ar y defnydd o ddŵr	£19,061	£20,307.77	£28,895
Papur a brynwyd				
	A4 (blychau)	1,668	1,740	1,808
	A3 (blychau)	27	60	62

* Mae allyriadau Cwmpas 1 o ffynonellau sydd ym meddiant neu a reolir gan yr IPCC, fel cerbydau a bwyleri.

Mae allyriadau Cwmpas 2 yn dod o ynni a ddefnyddiwyd gan yr IPCC, ond a brynwyd gan gyflenwyr allanol, fel trydan.

Mae allyriadau cwmpas 3 yn ymwneud â theithio ar fusnes swyddogol, ond heb gynnwys teithio ar reilffyrdd a theithiau awyr rhyngwladol sydd yn fychan iawn.

** Cynyddodd y nifer o staff amser llawn yn ystod y flwyddyn dan sylw ac nid yw'n bosibl cymharu'r ffigyrau uchod ar sail tebyg at ei debyg. Ond, mae swm y Co2 a grëwyd ar gyfer cyfanswm yr allyriadau wedi mynd i lawr o 268kg Co2 i bob gweithiwr rhwng 2015/16 a 2016/17.

Caffael cynaliadwy

Ein polisi caffael cynaliadwy yw sicrhau ein bod yn bodloni ein hanghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n cyflawni gwerth am arian trwy gydol oes. Trwy hyn, rydym yn golygu creu buddion nid yn unig i'r IPCC, ond hefyd i'r gymdeithas a'r

economi, gan gadw'r difrod i'r amgylchedd cyn lleied â phosibl. Rydym yn defnyddio contractau fframwaith Gwasanaethau Masnachol y Goron ar gyfer y rhan fwyaf o'n gwaith caffael. Pan fyddwn yn tendro ar gyfer ein gofynion ein hunain, caiff materion cynaliadwyedd eu hystyried ar ddechrau'r prosiect caffael a, lle bo'n briodol, eu cynnwys mewn dogfennau a'u gwerthuso.

Camau a gymerwyd yn ystod 2016/17 i wella perfformiad yr IPCC o ran cynaliadwyedd

Rydym wedi cymryd nifer o gamau yn ystod y flwyddyn i wella ein perfformiad ar gynaliadwyedd:

- Rydym wedi cyfnewid y goleuadau yn ein swyddfa yn Sale gyda goleuadau LED mwy effeithlon a hefyd wedi gosod synwryddion uwch-goch ar draws yr eiddo i gyd i ddiffodd goleuadau ar ôl deg munud heb neb yn symud.
- Datgomisiynu hen fwyleri yn ein swyddfa yn Warrington a'u cyfnewid am rai newydd gyda'r cyfraddau effeithlonrwydd uchaf.
- Rhaglennu ein systemau cyflyru awyr fel mai dim ond yn ystod oriau gweithredol y maent ymlaen.
- Gosod yr holl offer trydanol nad ydynt yn hanfodol i ddiffodd yn y nos i sicrhau nad yw'r eitemau yma yn cael eu gadael ymlaen yn ystod y nos.
- Cyflwyno rhannu ceir yn ein swyddfa ym Birmingham i leihau'r nifer o geir oedd yn cyrraedd y safle.
- Gweithredu systemau i sicrhau bod y defnydd o dacsis yn cael ei gadw cyn lleied â phosibl a bod y tacsis yr ydym yn eu defnyddio yn cludo cymaint o deithwyr ag sy'n bosibl.
- Cyflwyno cynllun cyfathrebu di-bapur yn swyddfa Croydon, sydd wedi lleihau'r defnydd o bapur o 30% a hefyd lleihau'r defnydd o arlliw-wyr a chetris inc.

Ein strategaeth at y dyfodol

Rydym wedi ymrwymo i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd yn unol â'r Ymrwymiadau Gwyrddu Llywodraeth (GGC) a byddwn yn parhau ein hymdrechion i gyfyngu ar allyriadau nwyon tŷ gwydr. Byddwn yn ystyried hyn ym mhob agwedd ar ein gwaith.

Byddwn yn parhau i wella cywirdeb ein data – yn arbennig ein ffigyrau dŵr a gwastraff. Rydym wedi adolygu ein holl gontractau casglu gwastraff ac wedi penodi gwasanaethau newydd i gasglu gwastraff yn ein swyddfeydd yn Sale a Wakefield. Bydd ein trefniadau newydd yn gostwng swm y gwastraff yr ydym yn ei anfon i safleoedd tirlenwi ymhellach. Rydym hefyd yn ystyried symud at adfer ynni trwy losgi ar gyfer ein swyddfa yn Llundain. Ein prif ddangosydd perfformiad allweddol yng nghyswllt cynaliadwyedd yw cadw at y GGC a rhoi adroddiadau ar y lefelau a osodir gan Gyfarwyddyd Trysorlys EM. Rydym yn anelu at gadw ein lefel o Co2 a gynhyrchir fesul cyflogai ar ei lefel bresennol neu ei leihau.


Cwynion amdanom ni

Rydym yn cydnabod bod ein staff yn gweithredu mewn amgylchiadau anodd ac y gall rhai o'r bobl yr ydym yn ymdrin â nhw fod yn anfodlon. Mae llawer yn ymdrin â digwyddiadau llawn straen a dyna pam eu bod yn cysylltu â ni. Er gwaethaf ein hymdrechion gorau gall pethau fynd yn anghywir ac mae gennym weithdrefn gwynion (www.policeconduct.gov.uk/investigations/our-service-complaints-and-compliments). Mae'r tabl isod yn nodi'r nifer o gwynion a dderbyniwyd gennym yn erbyn ein staff yn ystod 2016/17.

Ebr 2016	Mai 2016	Meh 2016	Gorff 2016	Awst 2016	Medi 2016	Hyd 2016	Tach 2016	Rhag 2016	Ion 2017	Chwef 2017	Maw 2017	Cyfanswm
37	41	34	25	35	39	33	31	30	52	41	25	423

Cadarnhawyd 38 o'r cwynion hyn, gyda rhai ymchwiliadau yn parhau wrth i ni gyhoeddi hwn. Fe wnaethom ymateb i 87 y cant o'r achwynwyr o fewn ein targed o 20 diwrnod gwaith. Ar gyfartaledd, cymerodd 12 diwrnod gwaith i gwblhau'r gwaith ar gwynion.

Fe wnaethom dderbyn 14 o gwynion yn erbyn ein comisiynwyr. Ni chadarnhawyd unrhyw un.



Michael Lockwood
Swyddog Cyfrifyddu
14 Chwefror 2018

A large, stylized number '2' is the central graphic. It is composed of two overlapping shapes: a light green shape on the left and a darker green shape on the right. The top of the '2' is a semi-circle, and the bottom is a horizontal line. The overall design is clean and modern.

Adroddiad atebolrwydd

2.1 Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Adroddiad y cyfarwyddwr

Esbonnir rôl y Comisiwn, y Pwyllgorau a'r Bwrdd Rheoli yn y datganiad Llywodraethu mewn rhan arall o'r adroddiad hwn.

Y Comisiwn

Rhestrir y comisiynwyr a wasanaethodd yn ystod 2016/17 isod.

Anne Owers	Cadeirydd
Rachel Cerfontyne	Dirprwy Gadeirydd
Sarah Green	Dirprwy Gadeirydd
Cindy Butts	Comisiynydd
Derrick Campbell	Comisiynydd
Mary Cunneen	Comisiynydd
Jennifer Izekor	Comisiynydd
Carl Gumsley	Comisiynydd
Jan Williams	Comisiynydd

Cyfarwyddwyr anweithredol

Rhestrir y comisiynwyr anweithredol a wasanaethodd yn ystod 2016/17 isod.

David Bird
Tim Robinson
Sue Whelan Tracy

Y Bwrdd Rheoli

Rhestrir aelodau'r Bwrdd Rheoli yn ystod 2016/17 isod.

Lesley Longstone	Prif Weithredwr	
Tim Bianek	Cyfarwyddwr, Newid	
Kathie Cashell	Cyfarwyddwr, Strategaeth ac Effaith	
David Emery	Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol	
David Knight	Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth ac Effaith	Rhwng 1 Ebrill 2016 a 5 Mawrth 2017
Ian Todd	Prif Swyddog Gweithrediadau ¹⁶	
Kevin Woodrow	Cyfarwyddwr, Adnoddau	
Emma Maloney	Ysgrifennydd y Comisiwn	Hyd 26 Awst 2016
Laraine Moody	Ysgrifennydd y Comisiwn	Rhwng 27 Awst 2016 a 17 Hydref 2016
Andrew Nathan	Ysgrifennydd y Comisiwn	O 18 Hydref 2016

Cofrestr buddiannau

Mae cofrestr sy'n cynnwys manylion cyfarwyddiaethau cwmnïau neu fuddiannau sylweddol eraill a ddelir gan aelodau o'r Comisiwn a'r Bwrdd Rheoli yn 2016/17 ar gael ar ein gwefan (<http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20170914105221/http://www.ipcc.gov.uk/page/chief-executive-and-directors>). Gellir ei gael yn ysgrifenedig gan Ysgrifennydd Comisiwn yr IPCC yn 90 High Holborn, London, WC1V 6BH.

Rhyddid gwybodaeth a diogelu data

Mae'r IPCC yn cydymffurfio â'r *Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth (FOI) 2000* a'r *Ddeddf Diogelu Data (DPA) 1998* (www.policeconduct.gov.uk/investigations/requesting-information-us). Rydym wedi sefydlu tîm hawliau gwybodaeth fel y man cyswllt canolog i brosesu pob cais am wybodaeth. Mae'r tîm yn gyfrifol am gydlynu gwaith yr IPCC, gan anelu i brosesu pob cais yn unol â'r ymrwymïadau statudol presennol, polisiau a gweithdrefnau mewnol. Mae'r tîm hefyd yn rhoi cyngor, cyfarwyddyd a chymorth i staff a rheolwyr am bob agwedd o waith rhyddid gwybodaeth a diogelu data.

Mae'r tablau isod yn dangos perfformiad yr IPCC mewn cymhariaeth â'r amserlenni statudol. Mae prosiect ar y gweill i wella perfformiad pan na fyddwn yn cyflawni'r amserlenni.

¹⁶ Ian Todd oedd y Prif Weithredwr Gweithredol rhwng 5 Mai 2016 a 26 Mehefin 2016.

Ceisiadau rhyddid gwybodaeth

Blwyddyn	Nifer a gwblhawyd	Cyrraedd y dyddiad cau statudol
2016/17	259	89%
2015/16	295	83%

Ceisiadau mynediad pwnc

Blwyddyn	Nifer a gwblhawyd	Cyrraedd y dyddiad cau statudol
2016/17	195	55%
2015/16	200	74%

Colli data a sicrhau gwybodaeth

Mae gan yr IPCC Gofrestr asedau gwybodaeth. Mae Perchenogion Asedau Gwybodaeth yn gyfrifol am reoli a gweithredu'r ased gan gydymffurfio â'n polisiau a sicrhau bod dulliau rheoli yn eu lle i reoli risgiau yn briodol. Ymchwiliir i ddigwyddiadau yn ymwneud â data sy'n cynnwys colli, dwyn neu ddatgelu amhriodol ar ein gwybodaeth gan y meysydd busnes ac adolygir yr adroddiadau am y digwyddiadau gan y tîm sicrhau gwybodaeth, sy'n rhoi sicrwydd i'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth am ein haeddfedrwydd o ran sicrhau gwybodaeth. Bydd hyn yn rhoi cyfle i unrhyw risgiau, neu ddulliau rheoli ychwanegol, gael eu dynodi ac iddynt gael sylw.


Roedd un digwyddiad yn gysylltiedig â data y rhoddwyd adroddiad amdano i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn 2016/17. Digwyddodd ail ddigwyddiad yn 2016/17 a rhoddwyd adroddiad amdano yn 2017/18 (2015/16: dim digwyddiadau). Nid oedd angen unrhyw gamau rheoleiddiol o ganlyniad i'r digwyddiadau hyn.

Iechyd a diogelwch

Mae'r IPCC yn cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch ac mae'r Pwyllgor Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn monitro perfformiad y sefydliad o ran iechyd a diogelwch. Mae'r siart ar y dudalen nesaf yn dangos bod gostyngiad wedi digwydd yn y digwyddiadau ers y llynedd. Rydym wedi dechrau casglu data am ddigwyddiadau a fu bron â digwydd fel bod y sefydliad yn gallu symud tuag at fonitro rhagweithiol a sicrhau bod ein proses o lunio penderfyniadau yn cael ei gyrru gan reoli risg ar sail tystiolaeth.

Datblygwyd strategaeth reoli newydd a chynllun 12 mis ar gyfer 2017/18, yn unol ag arfer gorau rheoli iechyd a diogelwch yn seiliedig ar y fframwaith 'cynllunio, gwneud, gwirio, gweithredu'.

Adroddiadau damweiniau/digwyddiadau/bron â digwydd yr IPCC – pob lleoliad



Ymchwil a datblygu

Mae rhaglen ymchwil y sefydliad yn cefnogi ein gwaith i wella'r system gwynion (www.policeconduct.gov.uk/research-and-learning). Mae'r gwaith hwn yn cynnwys Cyfarwyddyd Statudol ac adroddiadau dysgu gwersi i luoedd heddlu, ymchwil i hyder y cyhoedd a rhan-ddeiliaid, ymateb defnyddwyr a safbwyntiau polisi ar feysydd sy'n peri pryder.

Roedd yr ymchwil a wnaed yn ystod y flwyddyn yn cynnwys cwblhau astudiaeth i brofiad y defnyddiwr mewn ymchwiliad IPCC – mae'r gwaith hwn yn parhau yn 2017/18 wrth i beirianweithiau rhoi ymateb gael eu dylunio a'u gweithredu ar draws ein holl brosesau ar gyfer amrywiaeth eang o ddefnyddwyr.

Roedd y gwaith arall yn cynnwys cwblhau a chyhoeddi canfyddiadau'r arolwg rhanddeiliaid cyntaf, cynhyrchu ystadegau cenedlaethol ar farwolaethau yn ystod neu yn dilyn cyswllt â'r heddlu, a chynnal y seithfed arolwg hyder y cyhoedd.

Gellir canfod rhagor o wybodaeth am y darnau hyn o waith mewn rhan arall o'r adroddiad hwn.


Rhoddion elusennol

Ni roddodd yr IPCC unrhyw rodd i elusen yn ystod 2016/17. Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd staff yr IPCC ddigwyddiadau codi arian a rhoi cyfanswm o £8,000 (gan gynnwys Rhodd Cymorth) i nifer o elusennau'r Deyrnas Unedig (2015/16: £3,700).

Caffael

Rhoddir dirprwyaeth gaffael gan y Swyddfa Gartref ar y sail bod arfer gorau yn cael ei ddilyn, y gwerth gorau yn cael ei sicrhau a'n bod yn cydymffurfio â pholisïau caffael y Swyddfa Gartref a gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol perthnasol. Ar gyfer y rhan fwyaf o gategoriâu gwariant, defnyddir fframweithiau Gwasanaethau Masnachol y Goron ac ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol, rydym yn defnyddio fframweithiau Siambr.

Llwybr caffael



Yn 2016/17, dyfarnwyd/adnewyddwyd nifer o contractau am gyfanswm o £400,000 i gwblhau rhaglen Newid yr IPCC erbyn y dyddiadau cau y cytunwyd arnynt. Yn ychwanegol, dyfarnwyd tri contract am gyfanswm o £175,000 i fesur ymateb rhanddeiliaid am wasanaethau'r IPCC. Mae'r contractau hyn yn cynnwys ein harolwg hyder y cyhoedd.

Ystadau

Cytunwyd ar ein Strategaeth ystadau yn 2015 a'i diweddarau yn ystod y flwyddyn i gefnogi cynlluniau busnes ac ehangu sy'n parhau. Mae'r strategaeth yn nodi rhaglen i leihau ein daliadaeth o eiddo sector

preifat trwy ildio'r prydlesau sector preifat a defnyddio canolfannau'r llywodraeth neu eiddo arall gan y sector cyhoeddus. Bydd y penderfyniadau yma am ystadau ar sail dealltwriaeth glir o strategaeth ehangach yr IPCC a bydd yn adlewyrchu ystyriaethau gweithredol ac effaith ein rhaglen newid.

Cyfanswm cost rhedeg yr ystâd yn ystod y flwyddyn ariannol 2016/17 oedd £5.7 miliwn, sydd ychydig yn llai na chost y llynedd o £5.8 miliwn. Fe wnaeth lefelau daliadaeth gynyddu yn gyffredinol gan ein bod wedi cyflogi rhagor o staff. O ganlyniad, rydym wedi gwella ein cost gyffredinol i bob gweithiwr amser llawn (FTE) i £5,767 (2015/16: £6,485).

Mae'r gofod swyddfa mewn pedwar o'n saith lleoliad yn cadw at feincnod y llywodraeth o wyth metr sgwâr (M2) i bob FTE. Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad yn ôl lleoliad gan ddefnyddio'r FTE ym mis Mawrth.

Metrau sgwâr i bob gweithiwr amser llawn yn ôl lleoliad y swyddfa

Lleoliad y swyddfa	Mawrth 2017	Mawrth 2016	Math o eiddo
Birmingham	10.4	12.0	Sector preifat
Caerdydd	7.1	8.8	Sector preifat
Croydon	11.1	12.4	Sector cyhoeddus
Holborn	7.4	7.8	Sector preifat
Sale	8.0	6.1	Sector preifat
Wakefield	6.0	7.6	Sector cyhoeddus
Warrington	13.6	13.7	Sector cyhoeddus
CYFANSWM	9.1	9.7	

Mae gennym lefelau daliadaeth gwell ym mhob lleoliad, ac eithrio Sale, lle gwnaethom gymryd llawr ychwanegol i ehangu'r lle oedd ar gael ar gyfer mwy o staff ymchwiliadau yn ystod 2017/18.

Mae ein hymchwiliad i drychineb Hillsborough yn gweithredu o Warrington. Yn ystod 2017/18, rydym yn disgwyl gostyngiad yn y swyddi amser llawn wrth i'r ymchwiliad symud yn ei flaen. Gall hyn gael effaith niweidiol ar y dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer daliadaeth yn 2017/18.

Mae pedair o'n swyddfeydd ar brydles gan y sector preifat. Yn ystod 2017/18 byddwn yn gwerthuso a fydd symud i eiddo'r llywodraeth pan fydd y brydles yn dod i ben yn sicrhau gwell gwerth am arian.

Yn 2018, byddwn yn ymuno â rhaglen canolfannau'r llywodraeth ac yn symud ein Swyddfa yn Holborn i ganolfan yn 10 South Colonnade, Canary Wharf, Llundain. Bydd hwn yn weithle modern sy'n gadael i'n staff weithio'n effeithlon. Rydym yn disgwyl i hyn gynyddu cynhyrchiant, a gwella lles staff, gan gyfrannu at amcanion ehangach y llywodraeth.

Talu i gyflenwyr

Mae'r IPCC yn gweithredu'n unol â'r Safon Brydeinig ar gyfer Cyflawni Perfformiad Talu Da mewn Trafodion Masnachol (BS 7890). Yn neilltuol, rydym yn anelu at dalu anfonebau dilys yn unol â thelerau contractau neu 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb ddilys pan na fyddwn wedi cytuno ar delerau. Talwyd 83% cyn pen deng niwrnod gwaith (2015/16: 84%) a thalwyd 97% cyn pen 30 diwrnod gwaith (2015/16: 97%).


Cynnyrch

Mae'r IPCC yn atebol i San Steffan am ei wariant trwy'r Swyddfa Gartref. Mae'r Swyddfa Gartref yn ystyried ein cynlluniau gwariant ac yn rhoi grant cymorth yr ydym yn ei dynnu i lawr yn ystod y flwyddyn yn ôl y gofyn.

Ym mis Chwefror 2013, cymeradwyodd yr Ysgrifennydd Cartref arian ychwanegol i'n galluogi i ymchwilio i'r holl honiadau difrifol a sensitif a wneir yn erbyn yr heddlu. Yn ystod 2016/17 rydym wedi cwblhau blwyddyn olaf ein rhaglen ehangu tuag at gyflawni'r nod hwn.

Cyfanswm y gwariant cynhwysfawr net yn 2016/17 yw £73.0 miliwn, mewn cymhariaeth â £64.6 miliwn yn 2015/16. Mae'r siart trosodd yn dangos sut y gwnaethom ddefnyddio ein hadnoddau yn ystod y flwyddyn.


Sut y gwnaethom ddefnyddio ein hadnoddau o £73.0m



a chymryd gwaith newydd o ganlyniad i newidiadau deddfwriaethol.

Mae'r siart isod yn dangos ble yr ydym wedi cynyddu neu (leihau) gwariant yn 2016/17.

Sut y gwnaethom ddefnyddio ein gwariant ychwanegol o £8.4m yn ystod 2016/17



Mewn cymhariaeth â 2015/16 cynyddodd ein gwariant o £8.4 miliwn oherwydd ein bod wedi derbyn adnoddau ychwanegol i gwblhau ehangu ein gweithgaredd craidd


Bu'r rhan fwyaf o'r gwariant ychwanegol ar staff, a chynyddwyd cyfartaledd ein gweithwyr llawn amser o 104 rhwng 2015/16 a 2016/17. Gyrrodd y cynnydd mewn staff ein gwariant ar TGCh i fyny er mwyn darparu offer hanfodol, meddalwedd a chefnogaeth.

Cynyddodd y gwariant ar feysydd gweithredol eraill, yn arbennig ar wasanaethau cyfreithiol, lle'r ydym yn gwneud mwy o ddefnydd o gwrselau allanol. Ond, rydym wedi lleihau ein gwariant ar deithio yn sylweddol trwy ddefnyddio cyfleusterau cynadledau fideo yn fwy effeithiol. Rhoddir rhagor o fanylion yn Nodyn 3 ar y Cyfrifon.

Gwariant cyfalaf

Yn ystod y flwyddyn, gwariwyd £2.5 miliwn ar ychwanegu asedau. Y prif bryniannau oedd ehangu ein swyddfa yn Sale i gymryd rhagor o staff ymchwilio, a datblygu a diweddu'r system TGCh yr ydym yn ei defnyddio i weithio ar ein hymchwiliadau ac apeliadau.


Mae'r tabl isod yn dangos y duedd o ran costau ymchwilio am bedair blynedd. Gostyngodd y gost i bob achos o 50% ers dechrau'r rhaglen newid.



Tueddiadau gwariant

Mae'r tabl a siart isod yn dangos tueddiadau gwariant am bum mlynedd.

Tueddiadau gwariant £000oedd	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18
Busnes craidd	31,207	33,183	43,389	52,346	61,448	68,350
Hillsborough	581	7,546	10,615	12,319	11,127	7,024
Cyfanswm	31,788	40,729	54,004	64,665	72,575	75,374



Datganiad o gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu

O dan baragraff 17(1) o Atodlen 2 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, mae'n ofynnol i'r IPCC baratoi datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Paratoy y cyfrifon ar sail croniadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r IPCC ynghyd â'i gynnyrch adnoddau net, y modd y defnyddir adnoddau, newidiadau yn ecwiti'r trethdalwyr, a llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth ac yn neilltuo:

- ddilyn y Cyfarwyddyd ar Gyfrifon, a gyhoeddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol, gyda chaniatâd y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion atebolrwydd a datgelu perthnasol, a rhoi polisiâu cyfrifyddu priodol ar waith yn gyson
- lunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- ddatgan a gyflawnwyd y safonau cyfrifyddu cymwys fel y'u nodir yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw achosion perthnasol o beidio â gwneud hynny yn y cyfriflenni ariannol
- baratoi'r cyfrifon ariannol ar sail busnes gweithredol

Ar gyfer y flwyddyn dan sylw, penododd Swyddog Cyfrifyddu'r Swyddfa Gartref y Brif Weithredwraig, Lesley Longstone, yn Swyddog Cyfrifyddu'r IPCC. Penodwyd Michael Lockwood yn Swyddog Cyfrifyddu ar 8 Ionawr 2018. Nodir cyfrifoldebau'r

Swyddog Cyfrifyddu yn Rheoli Arian Cyhoeddus a gyhoeddir gan Drysorlys Ei Mawrhydi. Maent yn cynnwys bod yn gyfrifol am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'n atebol amdano, am gadw cofnodion cywir a diogelu asedau'r IPCC.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu wedi cadarnhau, cyn belled ag y mae ef yn ymwybodol, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilwyr yr IPCC yn ymwybodol ohoni, a'i fod wedi cymryd pob cam y dylai ei gymryd i sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sicrhau bod archwilwyr yr IPCC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r Swyddog Cyfrifyddu hefyd wedi cadarnhau bod yr adroddiad a'r cyfrifon blynyddol ar y cyfan yn deg, cytbwys a dealladwy. Mae'n cymryd cyfrifoldeb personol am yr adroddiad a chyfrifon blynyddol a'r penderfyniadau gofynnol i bennu eu bod yn deg, cytbwys a dealladwy.

Datganiad Llywodraethu Blynyddol Personol y Swyddog Cyfrifyddu ar gyfer 2016/17

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn ymwneud â Chomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu (IPCC), a ddaeth yn Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) ar 8 Ionawr 2018. Mae'r sefydliad, er ei fod yn newid ei enw a strwythur ei gorff llywodraethu, yr un endid cyfreithiol ac mae'r datganiad hwn, sy'n ymwneud â'r cyfnod fel IPCC, yn cael ei lofnodi gennyf fi fel y Swyddog Cyfrifyddu presennol.

Penodwyd fi fel Cyfarwyddwr Cyffredinol (DG) yr IOPC, ac fel ei Swyddog Cyfrifyddu, ar 8 Ionawr 2018. Rwyf wedi cyhoeddi dirprwyaethau gweithredol newydd yn adlewyrchu fy awdurdod a chyfrifoldebau, yn benodol gan fod y rhain wedi cymryd lle rhai'r Comisiwn a rhai Prif Weithredwr yr IPCC. Mae cyn Brif Swyddog Gweithredu yr IPCC wedi ei benodi yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol (Gweithrediadau) ar yr IOPC a phenodwyd pump o gyfarwyddwyr rhanbarthol, a Chyfarwyddwr i Gymru. Yng nghyfarfod cyntaf y Bwrdd Unedol, cymeradwywyd trefniadau ar gyfer is-bwyllgorau, gan gynnwys Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg, a Phwyllgor Adnoddau Dynol a Chyflogau. Mae'r trefniadau llywodraethu eraill yn parhau yn weithredol, fel y maent wedi bod i'r IPCC, ac fel y'u disgrifir isod.

Fframwaith llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu yn cynnwys y systemau a'r prosesau sy'n cyfarwyddo a rheoli'r sefydliad. Galluogodd i'r Comisiwn fel corff llywodraethu fonitro cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r sefydliad wedi cyflawni'r swyddogaethau a nodir yn Neddf Diwygio'r Heddlu 2002

a Deddfau dilynol yn diwygio'r Ddeddf a'r rheoliadau i gefnogi hynny.

Mae'r system lywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg wedi'u dylunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion; felly, dim ond rhoi sicrwydd uchel o effeithiolrwydd y gall ei wneud, yn hytrach na rhoi sicrwydd absoliwt.

Sefydlwyd yr IPCC a'i strwythur llywodraethu sylfaenol drwy statud yn 2002 ac roedd yn gweithio'n dda tra'r oedd y sefydliad yn gymharol fach ac yn llai gwasgaredig nag ydyw yn awr. Fel y tyfodd y sefydliad a dod yn fwy dibynnol ar systemau ffurfiol o reolaeth fodd bynnag, daeth yn amlwg bod y strwythur hwn yn creu nifer o heriau cynhenid. Yn benodol mae rolau gwahanol y comisiynwyr, o ran llywodraethu, cynrychiolaeth a gweithrediadau, wedi creu cymhlethdod yn yr amgylchedd rheoli. Roedd dwy linell reoli mewn gwirionedd ar gyfer gweithgareddau gweithredol, un drwy'r Prif Weithredwr a'r llall drwy'r dirprwy gadeiryddion, sy'n dod at ei gilydd fel Cadeirydd anweithredol.

Ar sail dadansoddiad gan Raglen Newid yr IPCC, gwahoddodd adolygiad tair blynedd yr IPCC yn 2015 yr IPCC i gynnig newidiadau i'w drefn lywodraethu ac yn enwedig i 'wahanu'r rolau gweithredol a llywodraethu'. Cymerwyd camau i liniaru'r risgiau yn y trefniadau oedd yn bodoli a chyflwynwyd cynigion i'r Swyddfa Gartref i newid y strwythur llywodraethu. Aeth y cynigion hyn wedyn trwy adolygiad annibynnol gan Sheila Drew Smith, a wnaeth nifer o argymhellion eraill. Roedd yr adroddiad ychwanegol hwn yn rhan o ymgynghoriad gan y Swyddfa Gartref: 'Diwygio Comisiwn Cwynion Annibynnol

yr Heddlu: strwythur a llywodraethu', a gaeodd ar 28 Ionawr 2016. Derbyniodd Deddf Plismona a Throseddau 2017 y Cydsyniad Brenhinol ar 31 Ionawr 2017 ac mae'n cynnwys camau i ddiwygio dulliau llywodraethu'r IPCC. Mae'n adlewyrchu argymhellion yr adroddiad ac yn ymdrin â'r materion a godwyd yn yr Adolygiad tair blynedd. Daeth y newidiadau hyn i rym ar 8 Ionawr 2018 pan wnaeth yr IPCC droi yn IOPC, a phan fu i mi gael fy mhenodi.

Mae fframwaith rheolaeth fewnol y sefydliad yn seiliedig ar adolygu gwybodaeth reoli yn rheolaidd, gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Fe'i dyluniwyd i reoli risgiau i gyflawni amcanion, yn effeithlon a darbodus. Galluogodd cyfarfodydd rheolaidd y Comisiwn adolygiadau o gyfeiriad strategol a chynlluniau, a rhoi adroddiadau ar berfformiad mewn cymhariaeth â nodau. Roedd y Comisiwn hefyd o bryd i'w gilydd yn adolygu'r heriau mewnol ac allanol oedd yn wynebu'r sefydliad a sut orau y gall yr IPCC ymateb i'r heriau hynny.

Roedd y Comisiwn yn gyfrifol am bennu strategaeth a dyrannu adnoddau. Roedd Cadeirydd y Comisiwn yn atebol i'r Ysgrifennydd Cartref am lywodraethu'r sefydliad a chyflawni ei amcanion. Sefydlodd y Comisiwn bedwar pwyllgor – y Pwyllgor Archwilio a Risg, Pwyllgor Pobl ac Adnoddau Dynol, y Pwyllgor Strategaeth ac Effaith a'r Pwyllgor Trawsnewid – i gyflawni swyddogaethau penodol. Roedd pob Pwyllgor yn rhoi adroddiadau i'r Comisiwn ac roedd ganddynt gyloch gorchwyl clir. Cynhyrchodd y Pwyllgorau yma i gyd grynodedbau o'u gwaith goruchwyllo i mi a Bwrdd Unedol newydd yr IOPC.

Sefydlwyd y Pwyllgor Trawsnewid gyda'r diben o graffu ar drosglwyddiad fframwaith llywodraethu'r IPCC, a'r newidiadau sefydliadol cysylltiedig a'u goruchwyllo. Roedd dan gadeiryddiaeth Cadeirydd yr IPCC, oedd yn adrodd i'r Comisiwn yn y cyfarfod cyntaf ar ôl pob cyfarfod gan y Pwyllgor Trawsnewid, ac yn gofyn am benderfyniadau gan y Comisiwn yn ôl y gofyn.

Rôl y Pwyllgor Archwilio a Risg oedd cefnogi'r Comisiwn a'r Swyddog Cyfrifyddu yn eu cyfrifoldebau o ran materion risg, rheoli a llywodraethu a sicrwydd cysylltiedig. Mae'r Pwyllgor wedi goruchwyllo systemau a phrosesau cyllid, llywodraethu corfforaethol, atebolrwydd ac effeithiolrwydd y dulliau rheoli. Roedd hefyd yn gyfrifol am gymeradwyo'r cyfrifon blynyddol ar ran y Comisiwn. Roedd y Pwyllgor dan gadeiryddiaeth comisiynydd anweithredol ac roedd y Cadeirydd yn adrodd yn ôl ar waith y Pwyllgor i'r Comisiwn yn y cyfarfod cyntaf ar ôl pob Pwyllgor Archwilio a Risg yn flynyddol, trwy gyfrwng adroddiad ffurfiol ar waith y Pwyllgor.

Y Pwyllgor Pobl ac Adnoddau Dynol oedd yn cytuno ar argymhellion y Brif Weithredwraig ar ddatblygiad cyflog, ac roedd yn goruchwyllo cyflog y Brif Weithredwraig o fewn ei gyloch gorchwyl. Roedd rôl y Pwyllgor hwn yn cynnwys goruchwyllo'r Strategaeth Pobl, Polisi Gwrthdaro Buddiannau, Polisi Iechyd a Diogelwch a'r Cod Ymddygiad. Roedd dan gadeiryddiaeth comisiynydd anweithredol.

Roedd y Pwyllgor Strategaeth ac Effaith yn cyfarfod bob chwarter. Fforwm oedd hwn i oruchwyllo gweithredu strategaethau yn ymwneud â goruchwyllo

a hyder, ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyfathrebu a rheoli gwybodaeth. Roedd dan gadeiryddiaeth Cadeirydd yr IPCC a sicrhodd bod gan y Cadeirydd a'r comisiynwyr ddigon o amser i ystyried a chraffu ar y materion hyn yn fanwl.

Roedd y Comisiwn ei hun yn gweithredu yn unol â'i Reolau Sefydlog ac roedd yn atebol i'r Senedd. Drwy gyfarfodydd y Cadeirydd a'r Brif Weithredwraig gyda'r Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Gwladol dros Blismona a Chyfiawnder Troseddol, adolygwyd effeithiolrwydd y sefydliad yn gyson, ac yn fwy cyffredinol, bu'n ddarostyngedig i graffu a diddordeb seneddol a chyhoeddus sylweddol. Sefydlwyd cyfarfodydd dwyochrog gydag Uned Noddi'r Swyddfa Gartref i drafod materion strategol, cyllidebol a gweithredol. Ni thrafodwyd unrhyw faterion a allai greu risg i annibyniaeth y sefydliad. Ategwyd at y cyfarfodydd hyn drwy gyfarfodydd pellach ynglŷn â risg, cyllid, adnoddau dynol ac ystadau, fel roedd yr angen.

Mae'r Bwrdd Rheoli (MB) wedi bod yn gyfrifol am ddarparu busnes y sefydliad yn weithredol. Mae'n cyfarfod yn fisol, gan dderbyn adroddiadau am gyllid, perfformiad, cynllunio busnes a risg yn gyson, fel sail i wneud penderfyniadau. Yn ogystal â Phrif Swyddog Gweithredol yr IPCC, mae aelodau'r Bwrdd Rheoli wedi cynnwys y Prif Swyddog Gweithrediadau, y Cyfarwyddwr Adnoddau, Cyfarwyddwr Newid, Cyfarwyddwr Strategaeth ac Effaith, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ysgrifennydd y Comisiwn.

Roedd cyfnod o naw wythnos yn ystod Mai a Mehefin 2016 pan, oherwydd absenoldeb y cyn Brif Weithredwraig, oedd wedi ei drefnu ymlaen llaw, roedd y cyn

Brif Swyddog Gweithredol yn gweithredu fel Prif Swyddog Gweithredol a Swyddog Cyfrifyddu dros dro. Yn ogystal â hyn, roedd y Cyfarwyddwr, Strategaeth ac Effaith ar absenoldeb mamolaeth am y rhan fwyaf o'r flwyddyn, gan ddychwelyd ym Mawrth 2017. Rhoddwyd rhywun yn y swydd dros dro.

Gadawodd y Cyn Brif Weithredwraig yr IPCC ar 23 Tachwedd 2017 cyn i ni drawsnewid yn IOPC a gweithredodd y Prif Swyddog Gweithredol eto fel Prif Weithredwr nes i mi gyrraedd.

Cryfhawyd polisiâu a gweithdrefnau iechyd a diogelwch trwy waith y Pwyllgor Gweithredol Iechyd a Diogelwch, a oedd i gychwyn dan gadeiryddiaeth y cyn Brif Weithredwraig, ac sydd yn awr dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr, Adnoddau. Mae'n cynnwys cynrychiolwyr o bob cyfarwyddiaeth. Mae'r Pwyllgor wedi goruchwyllo'r gwaith o ddynodi newidiadau polisi a gweithdrefnol, cynllunio a gweithredu camau gweithredu. Penodwyd rheolwr iechyd a diogelwch cymwys i gyflawni'r gwelliannau a gwelwyd cynnydd sylweddol, ac mae'n dal i ddiwydd. Yn 2015/16, cyflwynodd yr IPCC ddadl fusnes i'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Swyddfa Gartref yn nodi'r angen am eithriad i Ddeddf Adfer Troseddwyd 1970 (ROA) a pham bod arnom angen y gallu i ofyn am wiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y staff. Cytunwyd ar hyn a daeth i rym yn Awst 2016. Mae'r sefydliad yn cynnal gwiriadau ar gyfer yr holl staff newydd perthnasol a bydd yn cwblhau gwiriadau ôl-syllol ar gyfer y staff presennol perthnasol yn 2018.

Presenoldeb yn y Comisiwn a'r Pwyllgor Archwilio a Risg 2016/17

	Comisiwn						Archwilio a Risg		
	13 Ebr	6 Gorff	14 Medi	30 Tach	1 Chwef	29 Mawrth	13 Meh	3 Hydref	23 Ion
Y Fonesig Anne Owers	1	1	1	1	1	1			
David Bird	1	1	1	1	1	1	1	1	1
Cindy Butts	1	1	1	Ymddih	1	1			
Derrick Campbell	1	1	1	Ymddih	1	1			
Rachel Cerfontyne	1	1	Ymddih	1	1	Ymddih			
Mary Cuneen	1	1	1	1	1	1			
Sarah Green	1	Ymddih	1	1	1	1			
Carl Gumsley	1	1	1	1	1	Ymddih			
Jennifer Izekor	1	Ymddih	1	1	1	-			
Tim Robinson	1	1	1	1	1	1	1	1	1
Sue Whelan-Tracy	1	1	1	1	1	Ymddih	1	1	1
Jan Williams	1	1	1	1	1	1	1	1	1
Cyfanswm y comisiynwyr i bob cyfarfod	12/12	10/12	11/12	10/12	12/12	8/11	4/4	4/4	4/4
Cyfartaledd	100%	83.3%	91.67	83.3%	100%	73%	100%	100%	100%

Perfformiad y Comisiwn

Cynhaliodd y Comisiwn nifer o brosesau a systemau i sicrhau y gall weithredu'n effeithiol. Ni wnaed unrhyw benodiadau newydd i'r Comisiwn yn ystod y flwyddyn. Roedd y comisiynwyr gweithredol i gyd yn ddarostyngedig i arfarniad blynyddol gan ddirprwy gadeirydd ac arfarnwyd y dirprwy gadeiryddion a'r comisiynwyr anweithredol gan y Cadeirydd. Adolygodd y Comisiwn ei effeithiolrwydd ei hun a gosod amcanion ar gyfer 2017/18.

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, roedd agendâu a phapurau cyfarfodydd ar gael mewn amrywiaeth o fformatau o leiaf wythnos cyn y cyfarfodydd. Roedd y papurau yn rhoi digon o wybodaeth a thystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau cadarn gan gynnwys cyfeiriadau at risg, goblygiadau ariannol, cyfreithiol, rhan-ddeiliaid allanol, ac amrywiaeth, gan gynnwys gwasanaethau Cymraeg.

Llywodraethu corfforaethol

Rydym wedi adolygu'r Cod Llywodraethu Corfforaethol mewn adrannau llywodraeth ganolog. Er ei fod wedi'i gyfeirio at adrannau gweinidogol yn hytrach nag at gyrff cyhoeddus anadrannol, mae'n darparu arfer gorau ar drefniadau llywodraethu corfforaethol. Pan ystyrir eu bod yn berthnasol, mae'r IPCC wedi cydymffurfio ag egwyddorion y Cod, gyda'r gwyrriad canlynol:

Nid oedd dau aelod o staff yn adrodd i'r Brif Weithredwraig ond cawsant eu penodi'n hytrach fel comisiynwyr cyswllt ac felly roeddent yn adrodd i ddirprwy gadeirydd. Roedd comisiynwyr cyswllt yn gweithio ochr yn ochr â chomisiynwyr i weithredu fel gwarantwyr annibyniaeth yr IPCC.

Roedd ganddynt gyfrifoldeb comisiynydd dirprwyedig llawn ar gyfer llwyth achosion ymchwiliadau'r IPCC ac roedd gofyn iddynt hefyd helpu'r comisiynwyr presennol gydag ymchwiliadau mawr a chymhleth, craffu ar benderfyniadau MOI, a chynnal cysylltiadau â heddluoedd. Nid oedd ganddynt unrhyw gyfrifoldebau llywodraethu. Daeth y rolau hyn i ben pan ddaeth yr IPCC yn IOPC, gyda'r aelodau perthnasol o staff yn symud i rolau eraill yn y strwythur newydd.

Rydym yn parhau i weithio ar y cyd gyda'r Swyddfa Gartref fel rhan o'i menter i sicrhau dull cyson o gydymffurfio â Rheolaeth Swyddfa'r Cabinet ar draws eu cyrff hyd braich amrywiol.

Asesiad risg

Mae fframwaith rheoli risg y sefydliad yn ceisio sicrhau bod y risgiau i gyflawni ei amcanion yn cael eu canfod, eu monitro a'u rheoli. Asesir risgiau ar sail eu heffaith a'u tebygolrwydd gan ddefnyddio graddfa a gytunwyd gan y Comisiwn. Cedwir cofrestr risg strategol ac mae pob cyfarwyddiaeth wedi datblygu cofrestr risg weithredol ar y cyd â chynlluniau'r gyfarwyddiaeth.

Mae'r holl risgiau hyn yn ddarostyngedig i'n prosesau rheoli risg. Mae'r risgiau a'r gweithgaredd perthnasol i'w lliniaru wedi cael eu dynodi a rhoddwyd adroddiad arnynt i'r Bwrdd Rheoli, y Pwyllgor Archwilio a Risg a'r corff llywodraethol, yn unol â chylchoedd adrodd y sefydliad. Adolygwyd a thrafodwyd y risgiau sy'n ymwneud â'n rhaglen ehangu yn y bwrdd rhaglen perthnasol a'u dyrchafu i'r gofrestr risgiau strategol fel roedd yr angen.

Datblygwyd datganiad awch am risg, a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli ac a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio a Risg. Yna trafododd y Comisiwn y datganiad a chytuno arno yn Ebrill 2016.

Darperir gwasanaethau archwilio mewnol gan Uned Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) o dan contract tair blynedd, a adnewyddwyd ar 1 Ebrill 2015. Mae archwiliadau mewnol ac allanol yn ein cynorthwyo i wella ein gweithdrefnau a'n dulliau rheoli yn barhaus. Cytunir ar gamau gweithredu mewn ymateb i'r argymhellion, ac mae'r rhain yn cael eu holrhain er mwyn sicrhau y cânt eu gweithredu. Darparwyd adroddiad monitro ar weithrediad yr argymhellion i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

Canolbwyntiodd rheoli risg gwybodaeth ar ddynodi asedau gwybodaeth, dynodi perchenogion asedau gwybodaeth newydd (IAO) er mwyn cymathu'r rhain â strwythur trefniadol newydd yr IOPC, y defnydd o reolaeth ddiogelwch newydd a gwell wedi ei galluogi trwy Raglen Drawsnewid TGCh a chyflwyno system newydd, trwy'r llywodraeth, ar gyfer ymdrin ag asedau gwybodaeth a ddosberthir fel rhai sensitif a chyfrinachol. Cynhaliwyd gwiriad lechyd Technoleg Gwybodaeth ar systemau a swyddfeydd newydd gan gynnwys gwiriad iechyd sydd ei angen ar gyfer achrediad Rhwydwaith Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r holl systemau gwybodaeth a berchnogir neu a reolir gan yr IPCC sydd yn y cwmpas wedi'u hachredu ar gyfer cysylltedd Mewnwyd Ddiogel y Llywodraeth (GSI) a PSN.

Ail-ddyfarnwyd statws ISO 27001 i brif gyflenwr TG y sefydliad ar gyfer y System

Rheoli Diogelwch Gwybodaeth y mae'n ei darparu i ni.

Yn ystod 2016/17 dynodwyd gwendid rheoli wrth roi modd adnabod swyddogol i'r rhai oedd yn dechrau o'r newydd. Mae'n ofynnol cael cyfarfod briffio diogelwch gorfodol, ond hysbysodd rhai o'n harchwilwyr eu bod wedi derbyn eu dulliau adnabod heb dderbyn cyfarwyddyd oherwydd y prinder staff yn y tîm Diogelwch. Ymdriniwyd â hyn a'i liniaru trwy ddynodi'r defnyddwyr yma, cynnal cyfarfodydd briffio a chael Gweithdrefnau Gweithredu Diogelwch wedi eu llofnodi ar gyfer yr holl staff.

Mae'r sefydliad yn derbyn y rhan fwyaf o'i wasanaethau TG gan un cyflenwr, Sopra Steria. Bu'r isadeiledd TGCh trwy nifer o gamau dros dro i ymdrin â'r cynnydd yn y capasiti gofynnol oherwydd ehangiad cyflym yr IPCC a gwnaed penderfyniadau tactegol i newid y contract gwreiddiol. Mae cynlluniau yn eu lle ac ar y gweill ar gyfer tynnu o'r contract yn gyffredinol, oedd â'r toriad cyntaf yn Rhagfyr 2016. Byddwn yn tynnu allan o'r contract bob yn gam. Bydd angen rheoli dibyniaeth yn ofalus, yn arbennig gyda'r gwaith fydd yn digwydd ar yr un pryd i ddiwygio'r system gwynion, trosglwyddo i'r strwythur llywodraethu newydd a newidiadau a gynlluniwyd i brydlesau swyddfa. Mae'r dulliau llywodraethu mewnol ac allanol gofynnol i reoli hyn wedi cael eu sefydlu. Yn ystod 2016/17 dynodwyd gwendid rheoli yn ein rheolaeth ar wariant mewn cymhariaeth â chyfyngiadau contractaidd ar gyfer un o'n cyflenwyr trydydd parti. Cynhaliwyd adolygiad gan ein Rheolwr Risg ac Archwilio a gwnaed a gweithredwyd nifer o argymhellion. Ni welwyd rhagor o broblemau yn y maes hwn.

Mae'r Bwrdd Rheoli wedi cytuno yn ffurfiol ar "gapio" ein Rhaglen Newid, ac rydym yn rhagweld y bydd y rhaglen yn cau yn swyddogol cyn diwedd 2017/18. Ond, mae ein prosiectau newid sy'n cael blaenoriaeth yn parhau i gael eu goruchwyllo gan y Bwrdd Rheoli, gan ddefnyddio'r un dulliau rheoli ag a oedd wedi eu sefydlu ar gyfer ein Rhaglen Newid. Rydym yn awr yn sefydlu "swyddogaeth" cyflawni prosiect (sydd wedi deillio o'n rhaglen) i sicrhau bod yr arbenigedd cyflawni prosiect yn parhau yn yr IOPC. Heriwyd prosiectau newid gan y Bwrdd Cyflawni, gan gynnwys craffu ar gofnodi prosiectau a rheoli risg cyflawni.

Profodd amddiffynfeydd TGCh yr IPCC yn gadarn yn wyneb yr ymosodiad meddalwedd, "Wannacry", ac mae'r seilwaith a'r meddalwedd eisoes yn gyfredol. Bu'r effaith mewn manau eraill, y rhoddwyd sylw mawr iddo, yn gyfle i atgoffa staff o'u hymrwymiaadau o ran diogelwch seibr. Bydd y Rhaglen Drawsnewid TGCh yn sicrhau ymhellach bod ein systemau yn gyfredol bob amser ac yn cael eu diogelu yn ôl y safonau diweddaraf.

Mae'r sefydliad yn derbyn rhai o'i wasanaethau cyfleusterau cyffredin mewn adeiladau a rennir trwy gontract Swyddfa Gartref. Mae oedi o ran taliadau gan y Swyddfa Gartref wedi creu risg i ragolygon ariannol. Rydym yn gweithio gyda staff Cyllid ac Ystadau'r Swyddfa Gartref i ddatrys y rhesymau am yr oedi, yn ogystal â'r taliadau sy'n dal heb eu talu eu hunain.

Mae'r ychydig o gamau gweithredu sydd yn weddill o'n cynllun gweithredu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu gorffen ac mae'r gwaith wedi dechrau ar gynhyrchu strategaeth i'r IOPC. Trosglwyddwyd y

meysydd a ddynodwyd yn ystod 2017/18 sydd angen sylw sefydliadol i'r cynllunio busnes. Gan fod ystyriaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hymwreiddio yn ein gwaith, bydd prosiectau a gwaith ar gyfer 2018/19 yn cael eu hadlewyrchu ar draws cynlluniau busnes y gyfarwyddiaeth. Er mwyn sicrhau monitro cadarn a chyson, tynnir sylw at risgiau sy'n dod i'r amlwg ac maent yn cael eu hadolygu gan y Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a'r Pwyllgor Pobl ac Adnoddau Dynol.

Parhaodd y gwaith cynllunio busnes trwy gydol y flwyddyn, gyda'r eitemau a gynlluniwyd yn cael eu hail osod yn nhrefn blaenoriaeth i fodloni gofynion heriol, pwysau ar adnoddau a newidiadau mewn deddfwriaeth. Mae'r cynllunio busnes ar gyfer 2017/18 yn gyflawn erbyn hyn, er ei fod yn ddarostyngedig, fel erioed, i adolygiadau yn ystod y flwyddyn yn arbennig yng ngoleuni'r newid sylweddol a gynllunnir mewn deddfwriaeth a'n strwythur llywodraethu sefydliadol. Cymeradwywyd Cynllun Busnes 2017/18 gan Weinidogion a'i gyhoeddi ar ein [gwefan](#). Mae ein cynllun corfforaethol presennol yn dod i ben yn Ebrill 2018. Rydym yn datblygu cynllun un flwyddyn, a fydd yn newid ein hamcanion presennol ar gyfer 2018/19 i'w hystyried gan y Bwrdd Unedol newydd.

Ar gyfer 2017/18 rydym wedi derbyn £64.45m o arian craidd gan y Swyddfa Gartref, a £6.02m o gyllid ar gyfer Hillsborough. Roedd cyllid Hillsborough yn llai na'r gofyn a gynlluniwyd ar ddechrau'r flwyddyn, ond fe wnaethom hefyd dderbyn llythyr cysur gan y Swyddfa Gartref y byddai'n ceisio bodloni ein gofyn ariannu yn llawn gyda dirprwyad yn cael ei addasu yn y flwyddyn petai angen. Rydym wedi

adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol bob mis yn ein rhagolygon ariannol, ac wedi trafod y rhain yn fanwl gyda'r Swyddfa Gartref. Rydym yn rhagweld y bydd tanwariant ar ein cyllidebau craidd yn cael eu defnyddio i leihau'r gofyn am arian ychwanegol ar gyfer Hillsborough. Yn yr un modd â'r blynyddoedd blaenorol, mae'r Swyddfa Gartref wedi gofyn i ni sicrhau bod ein canlyniad ariannol yn llai na thanwariant o 1% mewn cymhariaeth â'n rhagolygon canol y flwyddyn.

Yn dilyn ein hehngiad dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf rydym wedi cadw'r gymhareb o staff du a lleiafrifoedd ethnig (BME) yn y sefydliad sydd yn awr yn sefyll ar 14.6%, yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 14%. Mae'r gynrychiolaeth ar lefelau uwch yn y sefydliad yn is na hyn ac mae'n parhau yn bwnc sy'n cael sylw.

Rydym wedi gwella gweithdrefnau i ymdrin â phob un ond un o'r materion a ddynodwyd gan archwiliad CThEM o drethu treuliau teithio dau leoliad. Bydd y newidiadau polisi a system sy'n ofynnol i roi cyfrif priodol am hyn yn eu lle erbyn Mawrth 2018.

Ar ddiwedd y flwyddyn, roedd yr IPCC yn ddarostyngedig i archwiliad gan Swyddfa'r Comisiynwyr Goruchwyllo i sicrhau bod cydymffurfiaid â'r darpariaethau statudol sy'n rheoli'r defnydd o wyllo cudd. Roedd yr adroddiad yn canmol y trefniadau sydd yn eu lle ac ni wnaed unrhyw argymhellion o ran gwelliannau.

Risgiau mawr

Mae'r sefydliad wedi profi cyfres fawr a chymhleth o newidiadau o ganlyniad i'r ehangu, newidiadau i'n deddfwriaeth lywodraethu a gwaith sy'n parhau ar

foderneiddio ein technoleg, ystâd a phrosesau ac effeithlonrwydd gweithredol. Bu cynnal morâl y staff yn ystod cyfnod o newid yn heriol, ond mae'r risg hon yn lleihau wrth i ffyrdd newydd o weithio ymsefydlu, ac i strwythurau ac arweiniad newydd gael eu gweithredu. Rydym yn parhau yn ddibynnol ar y Swyddfa Gartref ar gyfer cyflawni ac amseru newidiadau i ddeddfwriaeth ac yn adolygu cynnydd yn barhaus ac oblygiadau unrhyw oedi er mwyn lliniaru unrhyw risg bellach sy'n cael ei chreu gan ansicrwydd.

Yn dilyn ymadawiad Cyfarwyddwr Hillsborough ym Mawrth 2016, ac i gydnabod natur gymhleth, hanesyddol yn aml a graddfa fawr y mathau hyn o ymchwiliadau sy'n cael eu hatgyfeirio a'u gweithredu, rydym wedi ymateb trwy sefydlu Cyfarwyddiaeth, Ymchwiliadau Mawr (DMI). Mae'r gyfarwyddiaeth yn rheoli ymchwiliad Hillsborough ac unrhyw gamau dilynol, ac mae gennym oruchwyliaeth dros yr holl achosion cam-drin plant yn rhywiol. Mae'r gyfarwyddiaeth yn eistedd yn y Gyfarwyddiaeth Gweithrediadau. Dyrannwyd adnoddau ariannol ychwanegol sylweddol i'r gyfarwyddiaeth newydd ar gyfer 2017/18 i ddatblygu'r swyddogaeth hon. Rydym wedi gweld effeithiau cadarnhaol gallu crynhoi cymysgedd o staff ymchwilio i gefnogi anghenion gweithredol brys ar draws y sefydliad. Ar hyn o bryd mae gan y DMI Gyfarwyddwr Gweithredol.

Mae ymchwiliadau annibynnol ac a reolir (Operation Resolve) y sefydliad i drychineb Hillsborough yn parhau i ddangos cynnydd. Yn dilyn dwyn cwestau Hillsborough i ben yn Ebrill 2016 dwysaodd sylw'r cyfryngau, cynyddodd disgwyliaid cyhoedd ac roedd y teuluoedd yn rhagweld y camau nesaf yn y broses farnwrol. O ystyried

graddfa, cymhlethdod a phroffil yr ymchwiliadau hyn, mae'r angen i gyflawni canlyniadau sy'n amserol ac o safon uchel yn parhau yn risg strategol i'r sefydliad. Bu'r IPCC ac Operation Resolve yn gweithio'n glos i sicrhau bod y ddau ymchwiliad yn cael eu cydlynu mewn modd addas, gan ddeall llinellau ymchwil ein gilydd a chynllunio ar y cyd ar gyfer unrhyw gamau a all ddeillio o hyn yn y dyfodol. Cyflwynwyd nifer o ffeiliau i Wasanaeth Eryl y Goron (CPS) i gael penderfyniadau cyhuddo yn Ionawr 2017 ac rydym yn parhau i ymwneud â'r CPS i sicrhau bod eu gofynion yn cael eu deall a'u cynnwys yn ein gwaith ymchwilio a datgelu, gan gadw'r annibyniaeth angenrheidiol.

Ym Mehefin 2017, cyhoeddodd y CPS y byddai chwe unigolyn ar draws ein hymchwiliadau ni, ac Operation Resolve yn cael eu cyhuddo a disgwylir i'r CPS wneud penderfyniadau ar atgyfeiriadau eraill cyn diwedd y flwyddyn. Mae'r sefydliad yn paratoi i gefnogi nifer o achosion troseddol, a drefnwyd yn gynnar yn 2019, a bydd angen sicrhau ei fod yn gallu cefnogi gweithgareddau datgelu sy'n parhau a cheisiadau gan y llys. Mae'r ymchwiliad yn parhau i gael adnoddau addas ac mae craffu cyson arno trwy Fwrdd Ymchwiliad Hillsborough i sicrhau bod y risgiau yn cael eu deall, eu rheoli a'u lliniaru pan fydd hynny'n briodol.

Mae'r sefydliad hefyd yn ymwneud â nifer o ymchwiliadau amlwg yn deillio o fethiannau posibl yn ymateb yr heddlu i gam-drin rhywiol ar blant. Mae'r rhain yn ymchwiliadau mawr a chymhleth, yn aml gyda chwynion hanesyddol a/ neu luosog ac atgyfeiriadau ar draws nifer o luoedd heddlu. Mae llawer ohonynt yn rhedeg

yn gyfochrog â phrosesau troseddol neu'r goron. Tynnwyd yr adnoddau ar gyfer yr ymchwiliadau hyn o'r sefydliad fel y mae – ond, trwy sefydlu'r DMI, mae gennym yn awr dimau yn cyflawni ymchwiliadau ar draws ein holl swyddfeydd, heblaw Caerdydd a Warrington. Gall yr ymchwiliadau hyn ddefnyddio system Holmes a chefnogaeth yr ystafell digwyddiad mawr yn ein swyddfa yn Sale a defnyddio'r tîm "hwb" i weithio ar giwiau gweithredu. Mae'r ymchwiliadau yma yn gofyn am sgiliau arbenigol, swyddogaethau ymchwiliol, ac maent yn gofyn am lawer iawn o adnoddau. Rydym wedi gweithredu ymagwedd strategol i ymateb i'r niferoedd mawr o ymchwiliadau cam-drin plant yn rhywiol. Mae hyn wedi cynnwys penodi rheolwyr ymgysylltu â'r rhai sydd wedi goroesi i reoli'r risg i ddefnyddwyr gwasanaeth a hyfforddiant wedi ei baratoi i'r diben gan gynnwys rhanddeiliaid allweddol allanol a chanolfan wybodaeth i staff sy'n gweithio ar yr ymchwiliadau hyn.

Rydym yn cysylltu'n glos gyda'r Ymchwiliad Annibynnol i gam-drin plant yn rhywiol ac Operation Hydrant (sy'n cydlynu ymateb yr heddlu i gam-drin rhywiol ar blant mewn sefydliadau yn y gorffennol). Mae'r cynnydd cychwynnol yn yr atgyfeiriadau wedi arafu yn awr ac er nad ydym yn gallu rhagweld a fydd rhagor o ofyn yn y maes hwn, rydym yn fwy hyderus o'n gallu i ymateb i'r math hwn o ymchwiliad mawr, cymhleth yn dilyn y buddsoddiad yn y seilwaith DMI.

Gyda'r newidiadau sylweddol a llawer o gyfleoedd newydd i staff i gael dyrchafiad neu i ddargyfeirio i waith arall, mae wedi bod ac mae'n parhau yn her i gynnal y nifer o staff ymchwilio rheng flaen a'u sgiliau. Gwelwyd buddsoddiad sylweddol o ran

amser ac adnoddau yn y broses recriwtio a chynefino a hyfforddi staff newydd. Bydd angen i hyn barhau trwy 2018/19. Yn wyneb y sialensiau hyn, roeddem ychydig yn brin o'r prif darged y cytunwyd arno gyda'r Swyddfa Gartref ar gyfer 2016/17 – sef agor rhwng 600 a 900 o ymchwiliadau annibynnol newydd yn y flwyddyn, gan agor 592 o ymchwiliadau annibynnol yn ystod 2016/17.

Yn y cyfnod hyd ddiwedd Rhagfyr 2017, fodd bynnag, rydym eisoes wedi agor 536 o ymchwiliadau annibynnol ac wedi cwblhau 574. Rydym yn rhagweld y byddwn yn cyrraedd ein targed am eleni o agor rhwng 650 a 750 o ymchwiliadau annibynnol. Yn ystod y flwyddyn bresennol hyd yn hyn mae ein perfformiad ar brydlondeb ar 228 o ddyddiau gwaith, dan ein gwaelodlin o 239 o ddyddiau gwaith.

Mae panel rheoli achosion cenedlaethol wedi bod yn canolbwyntio sylw yn llwyddiannus ar ymchwiliadau maith ac amlwg neu risg uchel. Galluogodd hyn i nifer gael eu symud ymlaen i'w gorffen, er unwaith eto, mae cau achosion hyn yn cael effaith ar ein dulliau mesur prydlondeb.

Rhodddwyd paneli lleol yn eu lle hefyd i ystyried meysydd risg isel a chanolig. Mae'r achosion hyn wedi eu dyrchafu i'r panel cenedlaethol, neu wedi cael eu galw i mewn ganddynt os bydd angen.

Un risg sylweddol yw y gall y pwyslais ar gyflawni nifer uwch o ymchwiliadau gael effaith niweidiol ar eu hansawdd. Mae dull y tîm Adolygu Ansawdd yn sicrhau bod ymchwiliadau yn cael eu hadolygu yn barhaus trwy gydol eu hoes i gael safonau uchel o'r dechrau, annog arfer da, a lleihau ail-lunio gwastraffus wrth ysgrifennu

adroddiadau. Cyflwynwyd nifer o welliannau i brosesau ac mae eraill yn parhau i gael eu dynodi a'u gweithredu trwy ein rhaglen welliannau barhaus. Rydym wedi gweithio yn glos gyda swyddogion y Swyddfa Gartref i ddylanwadu ar y diwygiadau i'r system gwynion ac i asesu effaith ymarferol y diwygiadau, yn ogystal ag unrhyw effaith ar weithrediadau'r IPCC a'r gofynion cyllido. Roedd hyn yn cynnwys, yn benodol, y cynnig i gael gwared ar ymchwiliadau a reolir a dan oruchwyliaeth. Fe wnaethom gyflwyno'r ddadl yn llwyddiannus dros rym i arwain adnoddau'r heddlu, pan fydd hyn yn ymateb mwy priodol nag ymchwiliad annibynnol gan ddefnyddio ein hadnoddau ein hunain yn unig. Mae llawer o'r newidiadau deddfwriaethol a gynigir yn adlewyrchu ein barn am y modd y gellid symleiddio'r system gwynion a chyflwyno pwerau newydd neu gryfach i'r IOPC i gynyddu hyder y cyhoedd. Daeth yr estyniad ar ein hawdurdodaeth i'r Awdurdod Gangfeistri a Cham-drin Llafur i rym yn Ebrill 2017. Daeth newidiadau deddfwriaethol eraill i rym rhwng Ebrill a Rhagfyr 2017. Rydym hefyd yng nghamau cyntaf cynllunio ar gyfer y newidiadau mwy sylweddol i ddeddfwriaeth a ddisgwylir yn ystod 2019, gan gynnwys yr ymestyn posibl ar awdurdodaeth yr IOPC o ran y gwasanaethau heddlu a thân ar ôl iddynt gael eu cyfuno.

Mae risg yn rhan o gymhlethdod y ddeddfwriaeth a'n cylch gorchwyl ni dros wahanol sefydliadau. Mae'r newidiadau deddfwriaethol hyd yn hyn wedi canolbwyntio yn unig ar luoedd heddlu'r Swyddfa Gartref ac nid oes newidiadau cysylltiedig wedi cael eu gwneud i ddeddfwriaeth ar gyfer sefydliadau eraill sydd yn ein cylch gorchwyl (NCA, CThEM, Ffiniau ac ati). Nes bydd hyn yn cael ei

wneud mae'n rhaid i ni weithredu prosesau gwahanol ac mae risg o wallau a heriau yn hyn yn ogystal ag aneffeithlonrwydd ar adeg pan ydym ni'n canolbwyntio ar wella ansawdd a phrydlondeb.

Rydym yn parhau i weithio'n glos gyda swyddogion y Swyddfa Gartref ar reoliadau drafft i sicrhau bod y rhain yn ymarferol ac yn gwella system gwynion yr heddlu.

Effeithiolrwydd y Polisi Chwythu'r Chwiban

Diweddarwyd Polisi Chwythu'r Chwiban yr IPCC yn unol â'i gylch adolygu bob tair blynedd a'i ailenwi yn Bolisi Codi Pryderon. Roedd cyhoeddi'r polisi wedi ei ddiweddarau yn rhoi cyfle i atgoffa staff am ddarpariaethau'r polisi petai ganddynt bryderon am ymddygiad cydweithwyr ar unrhyw bryd. Yn ystod 2016/17 codwyd un pryder gan staff trwy ddefnyddio'r gweithdrefnau chwythu'r chwiban. Adolygwyd y pryder, am ddefnyddio contract, gan y Pennaeth Caffael, a ddaeth i'r casgliad ei fod yn ddi-sail.

Codwyd pryder arall yn 2017/18 yn y cyfnod cyn llofnodi'r cyfrifon. Ymchwiliwyd i'r pryder hwn, oedd yn ymwneud â phrosesau diogelu, ac fe'i datryswyd.


Swyddog Cyfrifyddu

Fel Swyddog Cyfrifyddu'r IPCC, mae gennyf gyfrifoldeb personol dros gynnal system gadarn o lywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg i gefnogi'r broses o gyflawni swyddogaethau'r IPCC dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002 a deddfwriaeth berthnasol arall, a nodau ac amcanion y Comisiwn, tra'n diogelu'r cronfeydd cyhoeddus ac asedau sefydliadol.

Mae fy adolygiad yn rhannol seiliedig ar waith ein harchwilwyr mewnol sydd wedi darparu sicrwydd ar lefel gymedrol yn seiliedig ar y gwaith a wnaed ganddynt.

Diffinnir sicrwydd cymedrol ganddynt fel: Mae cryfderau sydd yn y systemau rheoli, risg a gwybodaeth yn gorbwysu'r gwendidau. Er bod angen gwella mewn meysydd penodol, yn gyffredinol mae'r systemau yn gweithio'n effeithiol.

Rwyf yn cefnogi'r farn ac yn credu y bydd y trosglwyddiad diweddar i strwythur llywodraethu newydd yn ein galluogi i wella'r dulliau rheoli eto wrth symud ymlaen.



Michael Lockwood
Swyddog Cyfrifyddu
14 Chwefror 2018

2.2 Cydnabyddiaeth ac adroddiad staff

Polisi cydnabyddiaeth

Mae'r IPCC yn anelu at sicrhau bod y pecynnau cydnabyddiaeth a gynigir ganddo yn gystadleuol. Fe'u cynllunnir i ddenu, cadw a chymell uwch weithredwyr a gweithwyr eraill. Dirprwyodd y Comisiwn yr awdurdod i gytuno ar y strategaeth cyflog a gwobrwyo staff a chylch cyflog blynyddol y staff i'r Pwyllgor Pobl ac Adnoddau Dynol. Ystyriodd y Pwyllgor hefyd a phenderfynu ar argymhellion y Brif Weithredwraig ar ddatblygiad cyflog a dyfarniadau bonws i bob cyfarwyddwr.

Mae'r IPCC yn gweithio o fewn canllawiau polisi'r llywodraeth ar gyflog y sector cyhoeddus. Rydym yn dilyn argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch ar gyfer cyfarwyddwyr a chomisiynwyr. Mae cydnabyddiaeth y Cadeirydd yn cynyddu yn flynyddol yn ôl dyfarniadau cyflog sylfaenol cyfartalog band tâl Gwasanaeth Sifil Uwch 2. Mae cydnabyddiaeth y Comisiynwyr yn cynyddu yn flynyddol yn ôl dyfarniadau cyflog sylfaenol cyfartalog band tâl Gwasanaeth Sifil Uwch 1, yn amodol ar berfformiad boddhaol.

Contractau gwasanaeth

Mae Cadeirydd yr IPCC yn benodiad gan y Goron a phenodwyd y Fonesig Anne Owers yn Gadeirydd parhaol yr IPCC o 2 Ebrill 2012 ar gyngor y Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Cartref. Ar 1 Ebrill 2017 fe'i hail-benodwyd am gyfnod yn dod i ben ar 30 Mehefin 2018. Ond, daeth yr ailbenodiad i ben o'r dyddiad pan ddaeth

strwythur newydd yr IOPC i rym. Fel arfer roedd comisiynwyr yn cael eu penodi am gyfnod sefydlog o dair i bum mlynedd.

Penodwyd Lesley Longstone yn Brif Weithredwraig dan gytundeb secondiad gyda'r Adran Addysg. Dan y cytundeb hwn talodd yr IPCC i'r adran am ei chydabyddiaeth a'i chostau cysylltiedig, gan gynnwys TAW. Mae'r cytundeb hwn yn cynnwys cymal torri a ddefnyddiwyd ym mis Tachwedd 2017 a daeth ei phenodiad i ben ar 23 Tachwedd 2017.

Y Brif Weithredwraig oedd yn penodi cyfarwyddwyr. Fel arfer nid oedd cyfnod penodol i'w contractau ac maent yn derfynadwy gyda hyd at chwe mis o rybudd gan yr IPCC. Ym Mawrth 2017, roedd dau eithriad: Roedd Tim Bianek ar gontract tymor penodol yn dod i ben ym Mawrth 2018, ac roedd Ian Todd ar gontract tymor penodol yn dod i ben yn Rhagfyr 2017. Yn Awst 2017, penodwyd Ian Todd yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol (Gweithrediadau) ar yr IOPC. Byddai terfyniad cynnar i Gyfarwyddwyr, am resymau ar wahân i gamymddygiad, yn arwain at dalu iawndal i'r unigolyn o dan Gynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ffigwr cyfanswm unigol y gydnabyddiaeth i bob comisiynydd ac uwch reolwr

Mae'r wybodaeth yn y tablau cydnabyddiaeth yn cydymffurfio â Hysbysiad Pensiwn Cyflogwr (492) ac mae'n rhoi manylion am gydnabyddiaeth a buddiannau pensiwn comisiynwyr, y Brif Weithredwraig ac uwch reolwyr yr IPCC ac mae'n cael ei archwilio.

Ffigwr cyfanswm unigol y gydnabyddiaeth i gomisiynwyr*Archwiliwyd y tabl hwn.*

Comisiynydd	Cyflog	Cyflog	Buddiannau pensiwn	Buddiannau pensiwn	Cyfanswm	Cyfanswm
	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	cydnabyddiaeth 2016/17	cydnabyddiaeth 2015/16
	£'000	£'000	£	£	£'000	£'000
Anne Owers	75-80	60-65	-	-	75-80	60-65
Rachel Cerfontyne	100-105	95-100	39,000	39,000	135-140	135-140
Sarah Green	100-105	95-100	40,000	43,000	135-140	135-140
Carl Gumsley	80-85	75-80	32,000	30,000	110-115	105-110
Cindy Butts	80-85	80-85	33,000	33,000	115-120	115-120
Jennifer Izekor	80-85	80-85	33,000	33,000	115-120	115-120
Mary Cunneen	80-85	80-85	55,000	42,000	140-145	125-130
Derrick Campbell	80-85	80-85	32,000	32,000	110-115	110-115
Jan Williams	80-85	80-85	-	-	80-85	80-85
Sue Whelan Tracy	10-15	10-15	-	-	10-15	10-15
David Bird	5-10	5-10	-	-	5-10	5-10
Tim Robinson	5-10	5-10	-	-	5-10	5-10

Ffigwr cyfanswm unigol y gydnabyddiaeth i uwch reolwyr*Archwiliwyd y tabl hwn.*

Uwch reolwr	Cyflog	Cyflog	Taliadau bonws	Taliadau bonws	
	2016/17	2015/16	2016/17	2015/16	
	£'000	£'000	£'000	£'000	
Lesley Longstone, Prif Weithredwraig	140-145	135-140	10-15	15-20	
Ian Todd, Prif Swyddog Gweithrediadau	135-140	55-60 (125-130)*	-	-	
Kathie Cashell, Cyfarwyddwr, Strategaeth ac Effaith	50-55 (100-105)*	100-105	-	-	
David Knight, Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth ac Effaith (1 Ebrill 2016 - 5 Mawrth 2017)	100-105 (100-105)*	100-105	-	-	
Kevin Woodrow, Cyfarwyddwr Adnoddau	100-105	100-105	-	-	
Tim Bianek, Cyfarwyddwr, Newid	100-105	95-100	-	-	
Julian Blazeby, Cyfarwyddwr, Ymchwiliadau Mawr	100-105	5-10 (100-105)*	-	-	

*Cyfatebol i flwyddyn gyfan

	Buddiannau mewn da i'r £00 agosaf 2016/17	Buddiannau mewn da i'r £00 agosaf 2015/16	Buddiannau pensiwn i'r £000 agosaf 2016/17	Buddiannau pensiwn i'r £000 agosaf 2015/16	Cyfanswm cydnabyddiaeth 2016/17	Cyfanswm cydnabyddiaeth 2015/16
	£	£	£	£	£'000	£'000
	-	-	36,000	41,000	185-190	195-200
	-	-	51,000	22,000	180-185	75-80
	-	-	33,000	38,000	85-90	140-145
	-	39,000	15,000	110,000	115-120	250-255
	30,000	38,000	22,000	29,000	150-155	165-170
	-	-	52,000	42,000	155-160	135-140
	62,000	3,900	-	-	165-170	10-15

Cyflog

Mae hyn yn cynnwys cyflog gros; cyflog ar sail perfformiad; goramser; hawliau a gedwir i bwysoliad Llundain neu lwfansau Llundain, lwfansau recriwtio a chadw staff; lwfansau swyddfa breifat ac unrhyw lwfans arall i'r graddau ei fod yn drethadwy yn y Deyrnas Unedig. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar daliadau cronol a wneir gan yr IPCC ac fe'u cofnodir felly yn y cyfrifon hyn.

Bonysau

Telir bonysau ar sail lefelau perfformiad a gyraeddwyd ac fe'u gwneir fel rhan o'r broses arfarnu. Nid yw'r broses arfarnu yn rhoi digon o amser i gronni ar gyfer bonysau unigol am berfformiad 2016/17 yn y datganiadau ariannol am 2016/17. O ganlyniad, mae'r bonysau y rhoddir adroddiad amdanynt yn 2016/17 am berfformiad yn 2015/16 ac mae'r bonysau cymharol y rhodddwyd adroddiad arnynt yn 2015/16 yn ymwneud â pherfformiad yn 2014/15.

Taliadau a wnaethpwyd i gyfarwyddwyr o dan gynllun iawndal y gwasanaeth sifil

Yn ystod 2016/17, nid oedd unrhyw daliadau i gyfarwyddwyr dan gynllun iawndal y gwasanaeth sifil (2015/16: £49,000).

Buddiannau mewn da

Mae'n ofynnol i uwch reolwyr a rhai aelodau eraill o staff deithio i swyddfeydd IPCC i gyflawni eu dyletswyddau. Pan, oherwydd natur y tasgau a gyflawnir ac amllder y teithio, y bydd y rhain yn cael eu hystyried yn weithle parhaol, yna ni

ellir tynnu'r costau teithio dan Adran 338 ITEPA 2003. Telir am gostau teithio, heblaw i'r fan lle maent yn gweithio, gan yr IPCC a rhoddir adroddiad amdano i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel budd trethadwy.

Buddiannau pensiwn

Mae'r Cadeirydd, y comisiynwyr a phob aelod o staff yn gymwys i fod yn aelod o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil.

Mae rhai o gyn-gomisiynwyr yr IPCC a'r staff a fu'n aelodau o Awdurdod Cwynion yr Heddlu (PCA) yn aelodau o gynllun pensiwn 'cyffelyb' (BBA) yn lle bod yn aelodau o gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r IPCC yn gyfrifol am ariannu buddiannau pensiwn yn y dyfodol.

Mae'r wybodaeth yn y tablau buddiannau pensiwn isod yn rhoi manylion ynglŷn â buddion pensiwn comisiynwyr, y Brif Weithredwraig a'r uwch reolwyr ac mae'n ddarostyngedig i archwiliad.

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd i weision sifil – y Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n rhoi buddion ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol yn cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd yr holl weision sifil a mwyafrif y rhai sydd eisoes yn y gwasanaeth ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, roedd gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae pedair adran i'r PCSPS:

- tair yn rhoi buddion ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60
- ac un yn rhoi buddion ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65

Nid ariennir y trefniadau statudol hyn, a thelir cost buddiannau gan arian y mae'r Senedd yn pleidleisio arno bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium, classic plus nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Arhosodd aelodau o'r PCSPS oedd o fewn deng mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai oedd rhwng deng mlynedd ag 13 mlynedd a phum mis i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn symud i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 a 1 Chwefror 2022. Bydd yr holl aelodau sy'n symud i alpha yn gweld eu buddion PCSPS yn cael eu 'bancio', gyda'r rhai gyda buddion cynharach yn un o'r adrannau cyflog terfynol o'r PCSPS yn cael y buddion hynny wedi eu seilio ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigyrau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer aelodau yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu alpha – fel sy'n briodol. Pan fydd gan yr aelod o staff fuddion yn y PCSPS ac alpha y ffigwr a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun.) Gallai aelodau a ymunodd ers Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiant diffiniedig priodol neu bensiwn cyfranddeiliaid 'prynu arian' gyda chyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau gweithwyr yn gysylltiedig â chyflog ac yn amrywio rhwng:

- 3 y cant a 8.05 y cant o enillion pensiynadwy ar gyfer y cynllun classic (ac aelodau o alpha a oedd yn aelodau o classic yn union cyn ymuno ag alpha)
- 4.6 y cant a 8.05 y cant i aelodau premium, classic plus, nuvos a phob aelod arall o alpha.

Mae buddiannau yn y cynllun classic yn cronni ar raddfa o 1/80 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n cyfateb i werth tair blynedd o bensiwn ar adeg ymddeol. Ar gyfer y cynllun premium, mae'r buddiannau yn cronni ar raddfa o 1/60 o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i'r cynllun classic, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae 'classic plus', i bob diben, yn hybrid gyda buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 wedi'u cyfrifo'n fras yn ôl y cynllun 'classic' a buddiannau ar gyfer gwasanaeth o fis Hydref 2002 wedi'u cyfrifo yn ôl y cynllun 'premium'. Yn nuvos, mae aelod yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod ei gyfnod fel aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) caiff cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod ei gredydu â 2.3 y cant o'i enillion pensiynadwy yn ystod blwyddyn honno'r cynllun a chaiff y pensiwn a gronnwyd ei uwchraddio yn unol â'r ddeddfwriaeth Cynyddu Pensiynau. Mae buddion yn alpha yn cynyddu mewn modd tebyg i nuvos, ac eithrio bod y raddfa grynhoi yn 2.32 y cant. Ym mhob achos gall aelodau ddewis ildio pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a nodir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfranddeiliaid. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol o rhwng 8 y cant a 14.75 y cant (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y gweithiwr o blith panel o ddarparwyr. Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond os bydd yn cyfrannu, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniad cyfatebol hyd at derfyn o 3% o'r cyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5 y cant pellach o'r cyflog pensiynadwy i dalu cost yswiriant buddiannau risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth wrth weithio ac ymddeoliad o ganlyniad i salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn y mae hawl gan aelod ei gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu ar unwaith pan fydd yn rhoi'r gorau i fod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu dros oedran pensiwn. Oedran pensiwn yw 60 oed ar gyfer aelodau o gynlluniau classic, premium a classic plus, 65 oed ar gyfer aelodau o gynllun nuvos, a'r hynaf o 65 oed neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth i aelodau alpha. (Mae'r ffigyrau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer aelodau yn dangos y pensiwn a enillwyd yn y PCSPS neu alpha – fel sy'n briodol. Pan fydd gan yr aelod fuddion yn y PCSPS ac alpha y ffigwr a ddyfynnir yw gwerth cyfun eu buddion yn y ddau gynllun, ond sylwer y gall rhannau o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf buddiannau cynllun pensiwn a aseswyd gan actwari a gronnir gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau'r aelod a gronnir ac unrhyw bensiwn wrth gefn sydd gan briod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun pensiwn neu drefniant i ddiogelu buddiannau pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fo'r aelod yn gadael y cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn eu cynllun blaenorol. Mae a wnelo'r ffigyrau pensiwn a ddangosir â'r buddiannau y mae'r unigolyn wedi eu cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, ac nid dim ond y cyfnod a dreuliyd mewn uwch swydd y mae'r datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigyrau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiannau pensiwn ychwanegol a gronnir i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol a delir gan yr aelod ei hun. Cyfrifir CETV yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Diwygio) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i'r buddiannau sy'n deillio o Dreth Lwfans Gydol Oes a allai fod yn ddyledus pan gymerir buddiannau pensiwn.

Cynnydd gwirioneddol mewn CETV

Mae hwn yn adlewyrchu'r cynnydd o ran CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd o ran pensiwn a gronnir o ganlyniad i chwyddiant, y cyfraniadau a delir gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddir o gynllun neu drefniant pensiwn arall), ac mae'n defnyddio ffactorau priso'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Buddiannau pensiwn i gomisiynwyr

Archwiliwyd y tabl hwn.

Comisiynydd	Pensiwn a gronwyd ar oedran pensiwn ar 31/3/17 a'r cyfandaliad cysylltiedig £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £'000	CETV ar 31 Mawrth 2017 £'000	CETV ar 31 Mawrth 2016 £'000	Cynnydd / (lleihad) gwirioneddol mewn CETV £'000
Rachel Cerfontyne	15-20 Dim cyfandaliad	0-2.5 Dim cyfandaliad	274	235	27
Sarah Green	15-20 Dim cyfandaliad	2.5-5 Dim cyfandaliad	285	246	20
Carl Gumsley	5-10 Dim cyfandaliad	0-2.5 Dim cyfandaliad	60	38	15
Cindy Butts	5-10 Dim cyfandaliad	0-2.5 Dim cyfandaliad	89	67	13
Jennifer Izekor	5-10 Dim cyfandaliad	0-2.5 Dim cyfandaliad	104	79	17
Mary Cunneen	30-35 Dim cyfandaliad	2.5-5 Dim cyfandaliad	436	372	17
Derrick Campbell	20-25 Dim cyfandaliad	0-2.5 Dim cyfandaliad	262	234	16

Buddiannau pensiwn i uwch reolwyr

Archwiliwyd yr adran hon.

Uwch reolwr		Pensiwn a gronwyd ar oedran pensiwn ar 31/3/17 a'r cyfandaliad cysylltiedig £'000	Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfandaliad cysylltiedig ar oedran pensiwn £'000	CETV ar 31 Mawrth 2017 £'000	CETV ar 31 Mawrth 2016 £'000	Cynnydd / (lleihad) gwirioneddol mewn CETV £'000
Lesley Longstone	Prif Weithredwraig	50-55 155-160 Cyfandaliad	0-2.5 0-2.5 Cyfandaliad	1,008	942	20
Ian Todd	Prif Swyddog Gweithrediadau	0-5 Dim cyfandaliad	2.5-5 Dim cyfandaliad	41	12	19
Kathie Cashell	Cyfarwyddwr, Strategaeth ac Effaith	10-15 Dim cyfandaliad	0-2.5 Dim cyfandaliad	125	107	12
David Knight	Cyfarwyddwr Gweithredol, Strategaeth ac Effaith	40-45 120-125 Cyfandaliad	0-2.5 2.5-5 Cyfandaliad	838	782	12
Kevin Woodrow	Cyfarwyddwr, Adnoddau	30-35 95-100 Cyfandaliad	0-2.5 2.5-5 Cyfandaliad	664	614	19
Tim Bianek	Cyfarwyddwr, Newid	20-25 Dim cyfandaliad	2.5-5 Dim cyfandaliad	311	268	26

Nid yw Julian Blazeby yn aelod o'r cynllun.

Iawndal am ymddeol yn gynnar neu gollu swydd

Archwiliwyd yr adran hon.

Dim (2015/16: dim).

Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr

Archwiliwyd yr adran hon.

Dim (2015/16: dim).

Staff gwasanaeth sifil uwch yn ôl band

Band	Nifer
SCS2	2
SCS1	6
Cyfanswm	8

Datgeliad cyflog teg

Archwiliwyd yr adran hon.

Mae'n ofynnol i gyrff sy'n adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n derbyn y cyflog uchaf a chydabyddiaeth ganolrif y gweithlu.

Y cyfarwyddwr oedd yn derbyn y cyflog uchaf yn yr IPCC oedd y Cyfarwyddwr Ymchwiliadau Mawr yn ystod y flwyddyn dan sylw. Ei gydnabyddiaeth ar fand yn 2016/17, sy'n cynnwys buddiannau mewn da, oedd £165,000 – £170,000. Mae hyn 5.2 gwaith y cyflog canolrif i'r gweithlu, sef £32,037.

Yn y flwyddyn flaenorol, y Brif Weithredwraig oedd y cyfarwyddwr ar y cyflog uchaf. Ei chydabyddiaeth hi ar fand yn 2015/16 oedd £155,000 i £160,000. Roedd hyn 5.1 gwaith canolrif y gydnabyddiaeth i'r gweithlu, oedd yn £31,113.

Yn 2016/17 ni dderbyniodd unrhyw weithiwr gydnabyddiaeth oedd yn fwy na'r cyfarwyddwr a dderbyniodd y cyflog uchaf (2015/16: 0).

Telir y staff ar draws 12 ystod cyflog sy'n gysylltiedig yn uniongyrchol a'u sgôr gwerthuso swydd (JE). Dangosir eu sgôr a'r cyflog ar gyfradd mynediad yn y tabl isod.

Sgôr Gwerthuso Swydd	Cyfradd mynediad £
16	66,600
15	58,857
14	52,966
13	43,685
12	35,855
11	31,113
10	27,876
9	25,000
8	23,300
7	21,600
6	19,100
Prentis	13,000

Mae lwfans pwysoli Llundain o £4,161 yn berthnasol i staff a phrentisiaid High Holborn a Croydon. Nid oes pwyntiau ar y raddfa yn cael eu gosod ar yr ystod cyflogau. Gosodir y cyflogau mewn ystod cyflog gyda'r cynnydd cyflog blynyddol yn cael ei bennu gan y cynnydd canrannol i'w gytuno yn flynyddol. Mae'r graddau cyflog yn cael eu hailbriso yn flynyddol. Y dyddiad ailbriso nesaf fydd 1 Gorffennaf 2017.

Adroddiad staff

Pecynnau ymadael

Archwiliwyd yr adran hon.

Dangosir data cymharol (mewn cromfachau) ar gyfer 2015/16

Band cost y pecyn ymadael	Nifer o ddiswyddiadau gorfodol	Nifer o ymadawiadau eraill y cytunwyd arnynt	Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost
<£10,000	- (-)	- (-)	- (-)
£10,000 - £25,000	- (-)	- (-)	- (-)
£25,000 - £50,000	- (-)	- (2)	- (2)
£50,000 - £150,000	- (-)	1 (-)	1 (-)
£150,000 - £200,000	- (-)	- (-)	- (-)
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl math (cyfanswm cost)	- (-)	1 (2)	1 (2)
Cyfanswm cost adnoddau (2016/17) mewn £000	-	95	95
Cyfanswm cost adnoddau (2015/16) mewn £000	-	85	85

Talwyd costau diswyddo ac ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-daliadau 1972. Cyfrifir am gostau gadael yn llawn yn y flwyddyn pan gaiff y gweithiwr hysbysiad ffurfiol bod ei swydd wedi dod i ben.

Pan fydd yr IPCC wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan yr IPCC ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir am gostau ymddeol oherwydd salwch gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt yn gynwysedig yn y tabl.

Niferoedd staff a chostau

Archwiliwyd yr adran hon.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y nifer cyfartalog o bobl gyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn. Mae staff parhaol yn cynnwys staff ar gontractau tymor sefydlog sydd fel arfer yn 12 mis o hyd. Mae staff arall yn cynnwys staff sydd ar secondiad i mewn a llafur dros dro y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu cadw ar gyfer ein hymchwiliad i drychineb Hillsborough.

Nifer cyfartalog o staff	2016/17	2015/16
Parhaol	909	830
Arall	85	60
Cyfanswm	994	890

Mae'r tabl canlynol yn dangos cost y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn. Mae staff parhaol yn cynnwys staff ar gontractau tymor sefydlog sydd fel arfer yn 12 mis o hyd. Mae staff eraill yn cynnwys staff dros dro a staff ar secondiad o'r tu allan. Mae'r costau ar ôl adenillion yng nghyswllt secondiadau allanol.

Costau staff	2016/17 £'000	2016/17 £'000	2016/17 £'000	2015/16 £'000
	Staff parhaol	Staff eraill	Cyfanswm	Cyfanswm
Cyflogau a thâl	32,676	5,222	37,898	32,954
Cost nawdd cymdeithasol	3,425	-	3,425	2,452
Cyfraniadau pensiwn	6,278	-	6,278	5,673
Is gyfanswm	42,379	5,222	47,601	41,079
Tynnu: adenillion yng nghyswllt secondiadau allanol	(43)	-	(43)	-
Costau net holl staff	42,336	5,222	47,558	41,079

Pobl ag anableddau

Mae'r IPCC yn ystyried ceisiadau am swyddi gan bobl ag anableddau mewn ffordd deg a llawn, pan fo natur y swydd yn golygu bod hyn yn briodol. Yn yr un modd, mae'r IPCC yn ymrwymedig i alluogi unrhyw aelod o staff sy'n dod yn anabl yn ystod ei gyflogaeth barhau yn ei rôl.

Cydraddoldeb ac amrywiaeth

Arweinir y Grŵp Cydraddoldeb ac Amrywiaeth gan y Brif Weithredwraig. Mae'n cynnwys un comisiynydd ac 14 aelod o staff o bob rhan o'r sefydliad. Mae tri aelod o staff yn cymryd rôl arweinwyr cyfarwyddiaeth Cydraddoldeb ac amrywiaeth. Mae gan y grŵp rôl bwysig o ran llywodraethu trwy sicrhau bod atebolrwydd a pherchenogaeth ar waith cydraddoldeb trwy'r sefydliad cyfan. Mae'n cynnig fforwm i:

- fonitro a herio cynnydd yng nghyswllt ein Cynllun Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
- werthuso a gwneud argymhellion dros newid yng nghyswllt ein polisiau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth neu eu gweithredu
- godi ymwybyddiaeth o bryderon cydraddoldeb ac amrywiaeth generig ymhlith staff a rhoi cyngor fel y bo'n briodol
- sicrhau ansawdd o ran cyfarwyddyd cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae chwe rhwydwaith staff. Cefnogir pob un gan gyfarwyddwr ac mae'n cyfarfod yn gyson. Mae'r rhwydweithiau yn canolbwyntio ar bob un o'r naw nodwedd a warchodir o Ddeddf Cydraddoldeb

2010, yn ogystal â Siaradwyr Cymraeg. Mae'r IPCC yn cydnabod arwyddocâd y Gymraeg ac yn ei thrin fel y degfed nodwedd a ddiogelir. Yn ystod y flwyddyn cyflwynodd y rhwydwaith staff i bobl â diddordeb ym meysydd iechyd meddwl ac anableddau corfforol a synhwyrdd basbort addasiad gweithle fel nad oes angen ail drafod addasiadau gweithle bob tro y bydd gweithiwr yn newid ei rôl, ei dîm neu yn mynd at reolwr newydd.

Data absenoldeb salwch

Yn ystod 2016/17, cafodd ein gweithwyr 7.7 diwrnod o absenoldeb salwch ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu â chyfartaledd o 6.5 o ddiwrnodau yn 2015/16. Mae'r IPCC wedi ymrwmo i iechyd a lles staff ac mae ganddo bolisi absenoldeb salwch cynhwysfawr. Mae'r IPCC yn darparu Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a Rhaglen Cynorthwyo Gweithwyr.

Cyfansoddiad y staff

Mae'r IPCC yn ymroddedig i sicrhau bod dynion a menywod yn gallu cyrraedd eu potensial llawn yn y sefydliad. Rydym yn monitro amrywiaeth y sefydliad trwy ddata adnoddau dynol a phrofiad staff fel y dangosir yng nghanlyniadau ein harolwg staff. Mae'r tablau ar y tudalennau dilynol yn dangos y cyfrif o staff yn y sefydliad ym Mawrth 2017.

Gadawyd y dudalen
hon yn wag yn fwriadol

Ethnigrwydd yn ôl gradd – 31 Mawrth 2017

Cefndir ethnig	Prentisiaid 5 a 6	7 ac 8	9, 10 ac 11	12 a 13	
Asiaidd					
Bangladeshaid	2	2	7	2	
Indiaidd Asiaidd	0	7	21	7	
Asiaidd eraill	1	0	5	0	
Pacistanaid					
Asiaidd	1	2	12	1	
Du Affricanaid	2	3	7	1	
Du Caribiaidd	0	1	8	3	
Du arall	0	2	9	1	
Tsieineaid neu grŵp ethnig					
Tsieineaid arall	0	0	3	0	
Cymysg - Gwyn a Du Affricanaid	0	0	1	0	
Cymysg Gwyn a Du Caribiaidd	0	0	3	2	
Cymysg Asiaidd Gwyn	0	1	2	3	
Arall	2	0	2	1	
Cefndir cymysg arall	0	0	4	2	
Cyfanswm Du a lleiafrifoedd	8	18	84	23	
	13.56%	22.78%	15.61%	10.65%	
Gwrthod rhoi gwybodaeth	0	1	1	0	
Heb ei ddatgan	0	0	4	1	
Heb ei ddatgan	0	0	6	3	
Cyfanswm anhysbys	0	1	11	4	
	0.00%	1.27%	2.04%	1.85%	
Gwyn	49	56	424	180	
Gwyn arall	1	1	11	4	
Gwyn Gwyddelig	1	3	8	5	
Cyfanswm Gwyn/Gwyn Arall/Gwyn Gwyddelig	51	60	443	189	
	86.44%	75.95%	82.34%	87.50%	
Cyfanswm	59	79	538	216	
cymhareb ar gyfer diwedd Mawrth 2016	21.15%	23.88%	14.17%	12.37%	

Yn cynnwys comisiynwyr, staff ar secondiad i mewn ac allan (ac eithrio staff asiantaeth dros dro).

	14, 15 ac 16	Cyfanswm nif- eroedd staff	Comisiynydd	Cyfarwyddwr	Cyfanswm
	0	13	0	0	13
	3	38	0	0	38
	0	6	0	0	6
	1	17	0	0	17
	0	13	1	0	14
	0	12	1	0	13
	0	12	1	0	13
	0	3	0	0	3
	1	2	0	0	2
	0	5	0	0	5
	0	6	0	0	6
	0	5	0	0	5
	0	6	1	0	7
	5	138	4	0	142
	7.25%	14.36%	33.33%	0.00%	14.49%
	1	3	0	0	3
	1	6	0	0	6
	2	11	3	0	14
	4	20	3	0	23
	5.80%	2.08%	25.00%	0.00%	2.35%
	59	768	5	7	780
	1	18	0	0	18
	0	17	0	0	17
	60	803	5	7	815
	86.96%	83.56%	41.67%	100.00%	83.16%
	69	961	12	7	980
	6.78%	14.45%	33.33%	0.00%	14.60%

Ethnigrwydd yn ôl cyfarwyddiaeth – 31 Mawrth 2017

Cefndir ethnig	Prif Swyddog Gweithredol a'r Comisiwn		Newid		Cyfreithiol		
	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff	
Grŵp Du a lleiafrifoedd	10	29.41%	14	29.79%	1	4.00%	
Anhysbys	3	8.82%	3	6.38%	0	0.00%	
Gwyn/Gwyn arall/Gwyn Gwyddelig	21	61.76%	30	63.83%	24	96.00%	
Cyfanswm	34	3.47%	47	4.80%	25	2.55%	

Yn cynnwys comisiynwyr, staff ar secondiad i mewn ac allan (ac eithrio staff asiantaeth dros dro).

Sylwer bod adnoddau dynol wedi symud o'r gyfarwyddiaeth Adnoddau i'r gyfarwyddiaeth Newid o 1 Ebrill 2016. Ond, nid yw'r adroddiad Amrywiaeth yn adlewyrchu hyn tan 30 Medi 2016 ymlaen.

Ethnigrwydd yn ôl lleoliad – 31 Mawrth 2017

Cefndir ethnig	Birmingham		Caerdydd		Croydon		Holborn		
	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff	
Grŵp Du a lleiafrifoedd	44	28.21%	6	5.31%	19	24.36%	54	20.45%	
Anhysbys	4	2.56%	1	0.88%	1	1.28%	10	3.79%	
Gwyn/Gwyn arall/Gwyn Gwyddelig	108	69.23%	106	93.81%	58	74.36%	200	75.76%	
Cyfanswm	156	100.00%	113	100.00%	78	100.00%	264	100.00%	
Data cymharol BME diwedd Mawrth 16	26.36%		5.62%		22.86%		22.31%		

Yn cynnwys comisiynwyr, staff ar secondiad i mewn ac allan (ac eithrio staff asiantaeth dros dro).

	Gweithrediadau		Adnoddau		Strategaeth ac Effaith		Cyfanswm nifer y staff	
	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff
	99	13.67%	10	14.71%	8	9.76%	142	14.49%
	12	1.66%	3	4.41%	2	2.44%	23	2.35%
	613	84.67%	55	80.88%	72	87.80%	815	83.16%
	724	73.88%	68	6.94%	82	8.37%	980	100.00%

	Cartref		Sale		Wakefield		Warrington		Cyfanswm	
	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff
	2	12.50%	12	7.19%	3	3.23%	2	2.15%	142	14.49%
	0	0.00%	1	0.60%	1	1.08%	5	5.38%	23	2.35%
	14	87.50%	154	92.22%	89	95.70%	86	92.47%	815	83.16%
	16	100.00%	167	100.00%	93	100.00%	93	100.00%	980	100.00%
	17.65%		6.57%		4.05%		1.82%		14.60%	

Rhyw yn ôl gradd – 31 Mawrth 2017

Rhyw	Prentisiaid 5 a 6		7 ac 8		9, 10 ac 11		12 a 13	
	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %
Benyw	37	62.71%	60	75.95%	323	60.04%	128	59.26%
Gwryw	22	37.29%	19	24.05%	215	39.96%	88	40.74%
Cyfanswm	59	100.00%	79	100.00%	538	100.00%	216	100.00%
Data cymharol menywod diwedd Mawrth 2016		67.31%		79.10%		58.10%		57.53%

Rhyw yn ôl cyfarwyddiaeth – 31 Mawrth 2017

Rhyw	Prif Swyddog Gweithredol a'r Comisiwn		Newid		Cyfreithiol	
	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %
Benyw	26	76.47%	35	74.47%	17	68.00%
Gwryw	8	23.53%	12	25.53%	8	32.00%
Cyfanswm	34	100.00%	47	100.00%	25	100.00%

Yn cynnwys comisiynwyr, staff ar secondiad i mewn ac allan (ac eithrio staff asiantaeth dros dro).

Sylwer bod adnoddau dynol wedi symud o'r gyfarwyddiaeth Adnoddau i'r gyfarwyddiaeth Newid o 1 Ebrill 2016. Ond, nid yw'r adroddiad Amrywiaeth yn adlewyrchu hyn tan 30 Medi 2016 ymlaen.

	14, 15 ac 16		Cyfanswm nif- eroedd staff		Comisiynydd		Cyfarwyddwr		Cyfanswm	
	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %
	29	42.03%	577	60.04%	8	66.67%	2	28.57%	587	59.90%
	40	57.97%	384	39.96%	4	33.33%	5	71.43%	393	40.10%
	69	100.00%	961	100.00%	12	100.00%	7	100.00%	980	100.00%
	42.37%		59.09%		66.67%		28.57%		58.95%	

	Gweithrediadau		Adnoddau		Strategaeth ac Effaith		Cyfanswm	%
	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %
	424	58.56%	32	47.06%	53	64.63%	587	59.90%
	300	41.44%	36	52.94%	29	35.37%	393	40.10%
	724	100.00%	68	100.00%	82	100.00%	980	100.00%

Oedran yn ôl gradd – 31 Mawrth 2017

Categori oedran	Prentisiaid 5 a 6		7 ac 8		9, 10 ac 11		12 a 13	
	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %
16 i 19	1	1.69%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%
20 i 24	17	28.81%	6	7.59%	8	1.49%	0	0.00%
25 i 29	12	20.34%	18	22.78%	104	19.33%	15	6.98%
30 i 34	5	8.47%	17	21.52%	111	20.63%	32	14.88%
35 i 39	5	8.47%	13	16.46%	119	22.12%	57	26.51%
40 i 44	4	6.78%	9	11.39%	40	7.43%	27	12.56%
45 i 49	2	3.39%	5	6.33%	46	8.55%	29	13.49%
50 i 54	5	8.47%	7	8.86%	45	8.36%	26	12.09%
55 i 59	4	6.78%	3	3.80%	47	8.74%	19	8.84%
60 i 64	2	3.39%	0	0.00%	13	2.42%	7	3.26%
Dros 65	2	3.39%	1	1.27%	5	0.93%	2	0.93%
Anniffiniedig	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	1	1.69%
Cyfanswm	59	100.00%	79	100.00%	538	100.00%	215	100.00%

Oedran yn ôl cyfarwyddiaeth – 31 Mawrth 2017

Ystod oedran	Prif Swyddog Gweithredol a'r Comisiwn		Newid		Cyfreithiol	
	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff
16 i 19	0	0.00%	1	2.13%	0	0.00%
20 i 24	1	2.94%	1	2.13%	0	0.00%
25 i 29	6	17.65%	8	17.02%	2	8.00%
30 i 34	2	5.88%	4	8.51%	3	12.00%
35 i 39	3	8.82%	17	36.17%	6	24.00%
40 i 44	4	11.76%	4	8.51%	6	24.00%
45 i 49	5	14.71%	5	10.64%	2	8.00%
50 i 54	9	26.47%	4	8.51%	1	4.00%
55 i 59	2	5.88%	1	2.13%	5	20.00%
60 i 64	1	2.94%	1	2.13%	0	0.00%
Dros 65	1	2.94%	0	0.00%	0	0.00%
Anniffiniedig	0	0.00%	1	2.13%	0	0.00%
Cyfanswm	34	100.00%	47	100.00%	25	100.00%

Yn cynnwys comisiynwyr, staff ar secondiad i mewn ac allan (ac eithrio staff asiantaeth dros dro).

Sylwer bod adnoddau dynol wedi symud o'r gyfarwyddiaeth Adnoddau i'r gyfarwyddiaeth Newid o 01 Ebrill 2016. Ond, nid yw'r adroddiad Amrywiaeth yn adlewyrchu hyn tan 30 Medi 2016 ymlaen.

	14, 15 ac 16		Cyfanswm nif-eroedd staff		Comisiynydd		Cyfarwyddwr		Heb ei raddio		Cyfanswm nifer	
	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %	Nifer y staff	Staff %
	0	0.00%	1	0.10%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	1	0.10%
	0	0.00%	31	3.23%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	31	3.16%
	0	0.00%	149	15.52%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	149	15.20%
	0	0.00%	165	17.19%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	165	16.84%
	16	23.19%	210	21.88%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	210	21.43%
	11	15.94%	91	9.48%	0	0.00%	1	14.29%	0	0.00%	92	9.39%
	12	17.39%	94	9.79%	2	16.67%	2	28.57%	0	0.00%	98	10.00%
	13	18.84%	96	10.00%	6	50.00%	2	28.57%	0	0.00%	104	10.61%
	10	14.49%	83	8.65%	2	16.67%	2	28.57%	0	0.00%	87	8.88%
	5	7.25%	27	2.81%	1	8.33%	0	0.00%	0	0.00%	28	2.86%
	1	1.45%	11	1.15%	1	8.33%	0	0.00%	0	0.00%	12	1.22%
	1	1.69%	2	3.39%	0	0.00%	0	0.00%	1	14.29%	3	0.31%
	69	100.00%	960	100.00%	12	100.00%	7	100.00%	1	0.00%	980	100.00%

	Gweithrediadau		Adnoddau		Strategaeth ac Effaith		Cyfanswm nifer y staff	
	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff	Nifer y staff	% Nifer y staff
	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	1	0.10%
	27	3.73%	2	2.94%	0	0.00%	31	3.16%
	119	16.44%	2	2.94%	12	14.63%	149	15.20%
	134	18.51%	11	16.18%	11	13.41%	165	16.84%
	136	18.78%	17	25.00%	31	37.80%	210	21.43%
	60	8.29%	5	7.35%	13	15.85%	92	9.39%
	68	9.39%	12	17.65%	6	7.32%	98	10.00%
	74	10.22%	9	13.24%	7	8.54%	104	10.61%
	73	10.08%	5	7.35%	1	1.22%	87	8.88%
	23	3.18%	3	4.41%	0	0.00%	28	2.86%
	9	1.24%	2	2.94%	0	0.00%	12	1.22%
	1	0.14%	0	0.00%	1	1.22%	3	0.31%
	724	100.00%	68	100.00%	82	100.00%	980	100.00%

Gadawyr yn ôl cefndir ethnig fesul gradd 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017

Cefndir ethnig	Prentisiaid 5 a 6		7 ac 8		9, 10 ac 11		12 a 13		
	Nifer wedi gadael	% wedi gadael	Nifer wedi gadael	% wedi gadael	Nifer wedi gadael	% wedi gadael	Nifer wedi gadael	% wedi gadael	
Indiaidd Asiaidd	0	0.00%	0	0.00%	5	8.47%	0	0.00%	
Asiaidd Bangladeshaid	1	12.50%	0	0.00%	1	1.69%	0	0.00%	
Pacistanaid Asiaidd	1	12.50%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	
Asiaidd eraill	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	1	5.26%	
Du Affricanaid	0	0.00%	1	11.11%	1	1.69%	0	0.00%	
Du Caribiaidd	1	12.50%	0	0.00%	2	3.39%	0	0.00%	
Du arall	0	0.00%	1	11.11%	0	0.00%	0	0.00%	
Tsieineaid neu grŵp ethnig Tsieineaid arall	0	0.00%		0.00%		0.00%		0.00%	
Cymysg Gwyn a Du Caribiaidd	1	12.50%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	
Cymysg Asiaidd Gwyn	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	1	5.26%	
Arall	0	0.00%	0	0.00%	1	1.69%	0	0.00%	
Cefndir cymysg arall	0	0.00%	0	0.00%	2	3.39%	0	0.00%	
Gwyn Gwyddelig	0	0.00%	0	0.00%	1	1.69%	1	5.26%	
Gwyn	3	37.50%	7	77.78%	45	76.27%	16	84.21%	
Gwyn arall	0	0.00%	0	0.00%	1	1.69%	0	0.00%	
Anhysbys	1	12.50%	0	0.00%	0	0.00%	0	0.00%	
Cyfanswm	8	100.00%	9	100.00%	59	100.00%	19	100.00%	

Nid yw'n cynnwys gweithwyr asiantaeth dros dro.

14, 15 ac 16		Cyfanswm		Comisiynydd		Cyfarwyddwr		Cyfanswm	
Nifer wedi gadael	% wedi gadael	Nifer wedi gadael	% wedi gadael	Nifer wedi gadael	% wedi gadael	Nifer wedi gadael	% wedi gadael	Nifer wedi gadael	% wedi gadael
0	0.00%	5	5.10%	0	0.00%	0	0.00%	5	5.10%
0	0.00%	2	2.04%	0	0.00%	0	0.00%	2	2.04%
1	33.33%	2	2.04%	0	0.00%	0	0.00%	2	2.04%
0	0.00%	1	1.02%	0	0.00%	0	0.00%	1	1.02%
0	0.00%	2	2.04%	0	0.00%	0	0.00%	2	2.04%
0	0.00%	3	3.06%	0	0.00%	0	0.00%	3	3.06%
0	0.00%	1	1.02%	0	0.00%	0	0.00%	1	1.02%
	0.00%	0	0.00%		0.00%		0.00%	0	0.00%
0	0.00%	1	1.02%	0	0.00%	0	0.00%	1	1.02%
0	0.00%	1	1.02%	0	0.00%	0	0.00%	1	1.02%
0	0.00%	1	1.02%	0	0.00%	0	0.00%	1	1.02%
0	0.00%	2	2.04%	0	0.00%	0	0.00%	2	2.04%
1	33.33%	3	3.06%	0	0.00%	0	0.00%	3	3.06%
1	33.33%	72	73.47%	0	0.00%	0	0.00%	72	73.47%
0	0.00%	1	1.02%	0	0.00%	0	0.00%	1	1.02%
0	0.00%	1	1.02%	0	0.00%	0	0.00%	1	1.02%
3	100.00%	98	100.00%	0	0.00%	0	0.00%	98	100.00%

Rheoli perfformiad – achosion disgyblu, cwyno a gallu ffurfiol agorwyd 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017

	Disgyblu		Cwyno		Gallu	
	Nifer	% o'r cyfanswm	Nifer	% o'r cyfanswm	Nifer	% o'r cyfanswm
Gwyn/Gwyn arall/Gwyn Gwyddelig	11	73%	7	58%	1	100%
Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig	4	27%	3	25%	0	0%
Anhysbys	0	0%	2	17%	0	0%
Cyfanswm	15	100%	12	100%	1	100%
Gwryw						
Gwryw	7	47%	2	17%	0	0%
Benyw						
Benyw	8	53%	10	83%	1	100%
Cyfanswm	15	100%	12	100%	1	100%

Ein staff yn ôl cefndir gyrfa – 31 Mawrth 2017

Teitl swydd	Cyfanswm niferoedd staff	Cynswyddog heddlu yn unig	%	Cynweithiwr sifil i'r heddlu yn unig	%	Cynswyddogion a gweithwyr sifil	%	Cyfanswm staff sy'n gyn-staff heddlu o bob math	%
Ymchwilydd	296	56	19%	32	11%	9	3%	97	33%
Arweinydd tîm gweithrediadau/dirprwy uwch ymchwilydd	53	15	28%	1	2%	1	2%	17	32%
Rheolwr gweithrediadau/uwch ymchwilydd	21	7	33%	1	5%	1	5%	9	43%
Gwaith Achos Gweithrediadau a Chyswllt ac Asesu	107	4	4%	8	7%	0	0%	12	11%
Arall	503	33	7%	50	10%	8	2%	91	18%
Cyfanswm niferoedd staff	980	115	12%	92	9%	19	2%	226	23%

Mae Ymchwilydd yn cynnwys pob gradd, h.y. ymchwilydd dan hyfforddiant, ymchwilydd ac ymchwilydd arweiniol.

Yn cynnwys comisiynwyr, staff ar secondiad i mewn ac allan (ac eithrio staff asiantaeth dros dro).

Mae Cysylltu ac Asesu yn cynnwys Uned Asesu, Cyswllt ac Asesu a'r Ganolfan Gyswllt.

Ein staff yn ôl cefndir gyrfaoi a chyfarwyddiaeth - 31 Mawrth 2017

Cyfarwyddiaeth	Cyfanswm niferoedd staff	Cyn-swyddog heddlu	%	Cyn-swyddog sifil heddlu	%	Cyn-staff heddlu yn swyddogion a staff sifil	%	Cyfanswm staff sy'n gyn-staff heddlu o bob math	%
Adnoddau	68	0	0.0%	3	4.4%	0	0.0%	3	4.4%
Gwaith Achos Gweithrediaid	109	4	3.7%	8	7.3%	0	0.0%	12	11.0%
Prif Swyddog Gweithredol a'r Comisiwn	34	1	2.9%	0	0.0%	0	0.0%	1	2.9%
Newid	47	0	0.0%	3	6.4%	0	0.0%	3	6.4%
Gweithrediaid Hillsborough	85	20	23.5%	13	15.3%	2	2.4%	35	41.2%
Gweithrediaid	530	88	16.6%	57	10.8%	16	3.0%	161	30.4%
Strategaeth ac Effaith	82	1	1.2%	7	8.5%	1	1.2%	9	11.0%
Cyfreithiol	25	1	4.0%	1	4.0%	0	0.0%	2	8.0%
Cyfanswm niferoedd staff	980	115	11.7%	92	9.4%	19	1.9%	226	23.1%

Yn cynnwys comisiynwyr, staff ar secondiad i mewn ac allan (ac eithrio staff asiantaeth dros dro).

Sylwer bod adnoddau dynol wedi symud o'r gyfarwyddiaeth Adnoddau i'r gyfarwyddiaeth Newid o 1 Ebrill 2016. Ond, nid yw'r adroddiad Amrywiaeth yn adlewyrchu hyn tan 30 Medi 2016 ymlaen.

Dechreuwyr o'r newydd, 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017

	Cyfanswm	BME	% BME	Benyw	% Benyw	Cyn swyddogion heddlu	% Cyn swyddogion heddlu
Staff ymchwiliadau	77	11	14%	42	55%	40	52%
Gweithrediadau	158	30	19%	96	61%	57	36%
Yr IPCC i gyd	206	34	17%	124	60%	58	28%

Yn cynnwys comisiynwyr, staff ar secondiad i mewn ac allan (ac eithrio staff asiantaeth dros dro).

Nodwch ar gyfer y ffigyrau uchod: Mae'r IPCC i gyd yn cynnwys gweithrediadau. Mae gweithrediadau yn cynnwys staff ymchwilio.

Gwariant ar y defnydd o ymgynghorwyr

Nid oedd unrhyw wariant ar ymgynghorwyr yn ystod y cyfnod dan sylw.

Gweithwyr achlysurol

Mae'r IPCC yn defnyddio gweithwyr achlysurol yn unol â phroses reoli gadarn a osodir gan y Swyddfa Gartref. Rhoddir adroddiad ar y gwariant bob mis i'r Bwrdd Rheoli i graffu arno a'i adolygu.

Mae'r rhan fwyaf o'n gweithwyr achlysurol yn cael eu defnyddio ar gyfer ein hymchwiliad Hillsborough oherwydd bod arnom angen adnodd medrus hyblyg ar wahanol gyfnodau yn yr ymchwiliad. Yn ystod 2016/17 rydym wedi defnyddio contractwyr arbenigol ychwanegol i weithio ar ddatgelu tystiolaeth. Mae gennym staff achlysurol hefyd i gefnogi ein rhaglen Newid pan fydd angen sgiliau arbenigol.

Costau gweithwyr achlysurol

	2016/17 £'000	2015/16 £'000
Cyfarwyddiaeth neu faes		
Hillsborough	3,727	2,022
Newid ac adnoddau dynol	752	863
Cyfarwyddiaethau eraill	743	696
Cyfanswm	5,222	3,581

Swyddi oddi ar y gyflogres

Nid yw comisiynwyr na chyfarwyddwyr yr IPCC yn cael eu talu drwy daliadau i gwmni cyfyngedig na thrydydd parti yn lle cyflog. Telir yr holl gomisiynwyr a chyfarwyddwyr drwy gyflogres yr IPCC, heblaw am y Brif Weithredwraig sydd ar secondiad o'r Adran Addysg. Mae'r IPCC yn talu yn uniongyrchol iddynt hwy am ei gwasanaeth.

Mae'r tabl hwn yn dangos y nifer o swyddi oddi ar y gyflogres o 31 Mawrth 2017, am fwy na £220 y dydd ac sy'n parhau am fwy na chwe mis.

Nifer y swyddi oddi ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2017	
Math o swyddi	Nifer
Y swyddi sydd wedi bodoli ers llai na blwyddyn ar adeg yr adroddiad	-
Y swyddi sydd wedi bodoli ers rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar adeg yr adroddiad	1
Y swyddi sydd wedi bodoli ers rhwng dwy flynedd a thair blynedd ar adeg yr adroddiad	2
Y swyddi sydd wedi bodoli ers rhwng tair blynedd a phedair blynedd ar adeg yr adroddiad	-
Swyddi sydd wedi bodoli am bedair neu fwy o flynyddoedd ar adeg yr adroddiad	-
Cyfanswm y swyddi oddi ar y gyflogres	3
Sicrwydd o dreth incwm ac ymrwymadau yswiriant cenedlaethol	-
Swyddi lle derbyniwyd sicrwydd o dreth incwm ac ymrwymadau yswiriant cenedlaethol	2
Swyddi lle na dderbyniwyd sicrwydd o dreth incwm ac ymrwymadau yswiriant cenedlaethol	1

Rydym wedi adolygu'r risg yn gysylltiedig â'r unigolyn sydd heb roi sicrwydd a sicrhau, am 2017/18, bod y swm cywir o dreth ac yswiriant cenedlaethol yn cael eu talu dan y ddeddfwriaeth canolwyr.

2.3 Atebolrwydd seneddol ac adroddiad yr archwiliad

Archwilwyr

Gwneir trefniadau ar gyfer archwiliad allanol o dan baragraff 17 (2) o Atodlen 2 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) archwilio, ardstyio a rhoi adroddiad ar y datganiad o gyfrifon, a chyflwyno copiâu ohono (ynghyd â'i adroddiad) gerbron dau Dŷ'r Senedd. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn gwneud y gwaith archwilio ar ran y C&AG. Y ffioedd ar gyfer y gwasanaethau hyn yn 2016/17 yw £47,000 (roedd y ffi archwilio yn 2015/16 yn £47,000). Ni wnaeth yr NAO ymgymryd ag unrhyw waith nad oedd yn waith archwilio.

Darperir gwasanaethau archwilio mewnol o dan gontract gan Uned Archwilio Fewnol y Swyddfa Gartref a benodwyd ar 1 Ebrill 2009 gyda chytundeb yr uned sy'n noddi.

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd yn ôl

Dim.

Cysondeb y gwariant

Archwiliwyd yr adran hon.

Nid oes unrhyw faterion rheoleidd-dra i roi adroddiad arnynt.

Colledion a thaliadau arbennig

Archwiliwyd yr adran hon.

Roedd y cyfanswm o golledion a thaliadau arbennig o dan y trothwy sy'n ei gwneud yn ofynnol adrodd arnynt.

Rhoddion

Archwiliwyd yr adran hon.

Ni roddwyd unrhyw roddion.

Ffioedd a thaliadau

Archwiliwyd yr adran hon.


Derbyniodd yr IPCC incwm gan CThEM ar gyfer ymchwiliadau a wnaethpwyd o dan adran 28 Deddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005. Derbyniwyd incwm gan y Swyddfa Gartref ar gyfer ymchwiliadau a gynhaliwyd i atgyfeiriadau priodol. Amcan ariannol yr IPCC am incwm gan gyrff llywodraeth eraill yw adfer y gost lawn yn unol â Chanllaw Ffioedd a Thaliadau'r Trysorlys. Cyflawnwyd yr amcan ariannol hwn. Darperir y dadansoddiad isod i bwrpasau ffioedd a thaliadau ac nid ar gyfer dibenion IFRS 8 fel mae'r FreM yn cyfarwyddo.

Ffioedd a thaliadau	2016/17 £'000 Incwm	2016/17 £'000 Costau	2016/17 £'000 (Diffyg)	2015/16 £'000 Incwm	2015/16 £'000 Costau	2015/16 £'000 (Diffyg)
Incwm CThEM	17	(17)	-	9	(9)	-
Incwm Swyddfa Gartref	22	(22)	-	218	(218)	-
Incwm o weithgareddau	39	(39)	-	227	(227)	-
Incwm amrywiol	15	(15)	-	-	-	-
Incwm arall	15	(15)	-	-	-	-
Cyfanswm	54	(54)	-	227	(227)	-

Rhwymedigaethau wrth gefn heb fod wrth law

Archwiliwyd yr adran hon.

Dim.



Michael Lockwood
Swyddog Cyfrifyddu
14 Chwefror 2018

Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dai'r Senedd

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y datganiadau gwariant net cynhwysfawr, sefyllfa ariannol, llif arian, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr, a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiâu cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff a'r datgeliadau Atebolrwydd Seneddol a ddisgrifir yn yr adroddiad hwnnw fel gwybodaeth a archwiliwyd.

Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn llawnach yn Natganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi golwg gywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd yn ôl ar y datganiadau ariannol yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu 2002. Cynhaliais fy ymchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (y Deyrnas Unedig ac Iwerddon). Mae'r safonau hyn yn ei gwneud yn ofynnol i mi a fy staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Ymarfer Archwilwyr.

Sgôp yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys cael tystiolaeth ynglŷn â'r symiau a datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol fod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, p'un yr achoswyd hynny gan dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: a yw'r polisiâu cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu a'u bod wedi eu gweithredu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu arwyddocaol a wnaethpwyd gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

At hynny, darllenais yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn adrannau Perfformiad ac Atebolrwydd yr Adroddiad Blynyddol i ddynodi anghysondebau perthnasol gyda'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac unrhyw wybodaeth sydd yn ymddangos yn faterol anghywir yn seiliedig ar, neu'n hanfodol anghyson â'r, wybodaeth a dderbyniais wrth gynnal yr archwiliad. Os deuaif yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol perthnasol, ystyriaif oblygiadau i fy nhystysgrif.

Mae'n ofynnol imi gael tystiolaeth ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant ac incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi cael eu cymhwyso i'r pwrpasau a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol ymhob ffordd berthnasol, wedi eu defnyddio at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar ddatganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr materion Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2017 a'r gwariant net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi yn briodol yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol a gyhoeddwyd dani.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad Cydnabyddiaeth a Staff a'r datgeliadau atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio wedi eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau'r Ysgrifennydd Gwladol dan Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002; ac
- mae'r wybodaeth a roddwyd yn rhannau adroddiad Perfformiad ac adroddiad Atebolrwydd o'r Adroddiad Blynyddol am y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion yr wyf yn adrodd arnynt trwy eithriad

Nid oes gennyf ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol yr wyf yn adrodd arnynt i chi os, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifo digonol neu ni dderbyniwyd ffurflenni digonol ar gyfer fy ymchwiliad oddi wrth ganghennau nad oedd fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol a'r rhan o'r Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff a'r datgeliadau atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio'n cytuno â'r cofnodion cyfrifyddu neu'r ffurflenni; neu
- nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau sydd arnaf eu hangen ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn dangos ei fod yn cydymffurfio â chyfarwyddyd Trysorlys EM.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Amyas C E Morse
Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
23 Chwefror 2018

National Audit Office
 157-197 Buckingham Palace Road
 Victoria
 London SW1 W9S

A large, stylized number '3' is the central graphic element. It is composed of two shades of blue: a darker blue for the main body and a lighter blue for the inner curves and the top loop. The number is positioned in the upper right quadrant of the page.

Datganiadau ariannol

Datganiad o wariant net cynhwysfawr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017


	Nodyn	2016/17 £'000	2015/16 £'000
Incwm gweithredu arall		54	227
Cyfanswm incwm gweithredu		54	227
Costau staff	2.1	(47,558)	(41,079)
Prynu nwyddau a gwasanaethau	3	(20,204)	(19,032)
Dibrisiant a thaliadau amharu	3	(4,593)	(4,282)
Colled ar waredu asedau sefydlog	3	(227)	(601)
Treuliau darparu	3	(47)	102
Cyfanswm gwariant gweithredu		(72,629)	(64,892)
Gwariant net am y flwyddyn		(72,575)	(64,665)
Gwariant net cynhwysfawr arall			
(Colledion) /enillion actwaraidd	2.2	(378)	94
Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		(72,953)	(64,571)

Ni therfynwyd unrhyw weithrediadau, caffaeliadau na gwarediadau yn ystod y cyfnod.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 111 i 134 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2017

	Nodyn	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, offer a chyfarpar	5	8,688	9,482
Asedau anniriaethol	6	4,627	6,128
Asedau ariannol	10	162	259
Cyfanswm asedau anghyfredol		13,477	15,869
Asedau cyfredol			
Asedau ariannol	10	1,201	1,678
Arian a chyfwerth ag arian	11	4,704	2,904
Cyfanswm asedau cyfredol		5,905	4,582
Cyfanswm asedau		19,382	20,451
Rhwymedigaethau cyfredol			
Darpariaethau	13	(121)	(18)
Taladwyon masnach ac eraill	12	(5,588)	(5,431)
Rhwymedigaethau eraill	12.1	(811)	(659)
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		(6,520)	(6,108)
Cyfanswm asedau tynnu rhwymedigaethau presennol		12,862	14,343
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Darpariaethau	13	(1,771)	(1,314)
Rhwymedigaethau pensiwn	2.2	(2,336)	(1,954)
Taladwyon eraill	12	(614)	(981)
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol		(4,721)	(4,249)
Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau		8,141	10,094
Ecwiti trethdalwyr a chronfeydd eraill wrth gefn			
Cronfa wrth gefn gyffredinol		10,477	12,048
Cronfa bensiwn wrth gefn		(2,336)	(1,954)
Cyfanswm ecwiti		8,141	10,094



Michael Lockwood
Swyddog Cyfrifyddu
14 Chwefror 2018

Mae'r nodiadau ar dudalennau 111 i 134 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o lif arian am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2017

	Nodyn	2016/17 £'000	2015/16 £'000
Llif arian parod o weithgareddau gweithredol			
Gwariant gweithredu net		(72,575)	(64,665)
Addasiad ar gyfer trafodion heb fod yn arian parod	3	4,867	4,781
(Cynnydd) / gostyngiad mewn derbyniadwyon masnach a derbyniadwyon eraill	10	78	(276)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn taladwyon masnach ac eraill	12	727	(1,046)
Cynnydd mewn buddiannau gweithwyr sy'n daladwy	12.1	152	51
Tynnu symudiadau mewn darpariaethau pensiwn yn gysylltiedig ag eitemau nad ydynt yn pasio drwy'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr		(65)	(65)
Defnydd o ddarpariaethau	13	(18)	(49)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredol		(66,834)	(61,269)
Llif arian parod o weithgareddau buddsoddi			
Prynu PPE	5	(1,582)	(3,818)
Pryniant asedau anniriaethol	6	(287)	(1,238)
Enillion o waredu PPE		-	100
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		(1,869)	(4,956)
Llif arian parod o weithgareddau ariannu			
Grantiau gan y Swyddfa Gartref		71,000	63,000
Elfen gyfalaf taliadau o ran trefniadau consesiwn gwasanaeth SoFP		(497)	(694)
Ariannu net		70,503	62,306
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian a chywerth arian yn y cyfnod		1,800	(3,919)
Arian a chywerth arian ar gychwyn y cyfnod		2,904	6,823
Arian parod a chyfwerth ag arian parod ar ddiwedd y cyfnod	11	4,704	2,904

Mae'r nodiadau ar dudalennau 111 i 134 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o newidiadau yn ecwiti'r trethdalwr am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017

	Nodyn	Cronfa wrth gefn gyffredinol £'000	Cronfa bensiwn wrth gefn £'000	Cyfanswm cronfeydd wrth gefn £'000
Balans ar 31 Mawrth 2015		13,707	(2,042)	11,665
Newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2015/16				
Grant y Swyddfa Gartref ar gyfer gwariant refeniw	22	57,884	–	57,884
Grantiau gan y Swyddfa Gartref ar gyfer gwariant cyfalaf	22	5,116	–	5,116
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn		6	(6)	–
Gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn		(64,665)	–	(64,665)
Enillion actiwaraidd mewn blwyddyn		–	94	94
Balans ar 31 Mawrth 2016		12,048	(1,954)	10,094
Newidiadau i ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2016/17				
Grant gan y Swyddfa Gartref ar gyfer gwariant refeniw	22	69,116	–	69,116
Grant gan y Swyddfa Gartref ar gyfer gwariant cyfalaf	22	1,884	–	1,884
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn		4	(4)	–
Gwariant cynhwysfawr am y flwyddyn		(72,575)	–	(72,575)
(Colled) actiwaraidd yn y flwyddyn		–	(378)	(378)
Balans ar 31 Mawrth 2017		10,477	(2,336)	8,141

Mae'r nodiadau ar dudalennau 111 i 134 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau ar y cyfrifon

1 Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM) 2016/17 a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisiau cyfrifyddu sydd yn y FReM yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y cawsant eu diwygio neu eu dehongli i'r cyd-destun sector cyhoeddus. Pan fo'r FReM yn caniatáu dewis polisi cyfrifyddu, dewiswyd y polisi cyfrifyddu mwyaf priodol i amgylchiadau penodol yr IPCC i bwrpas rhoi barn gywir a theg. Disgrifir y polisiau penodol a fabwysiedir gan yr IPCC isod. Maent wedi eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio gydag eitemau a ystyrir yn berthnasol i'r cyfrifon.

Cyflwynir y datganiadau ariannol mewn sterling a chaiff pob gwerth ei dalgrynnu i fyny i'r mil o bunnau agosaf (£'000).

1.1 Confensiynau cyfrifyddu

Paratowyd y cyfrifon ar sail cronadau o dan y confensiwn cost hanesyddol, a ddiwygiwyd i gymryd i ystyriaeth ailbriso eiddo, offer a chyfarpar, asedau anniriaethol, ac eithrio pan ddefnyddir cost hanesyddol a ddibrisiwyd fel dirprwy ar gyfer gwerth teg ar gyfer asedau byrhoedlog neu werth isel.

1.2 Busnes gweithredol

Caiff gweithgareddau'r IPCC eu hariannu'n bennaf gan y Swyddfa Gartref. Cadarnhaodd y Swyddfa Gartref y bydd cymorth grant yn cael ei roi ar gyfer 2017/18 a 2018/19.

Nid oes rheswm dros gredu na cheir nawdd gan y Swyddfa Gartref a chymeradwyaeth gan y Senedd yn y dyfodol. Yn unol â hynny, penderfynwyd ei bod yn briodol gweithredu ar ffurf busnes gweithredol o ran paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

Trawsnewidiwyd yr IPCC yn IOPC yn ystod 2017/18. Mae hwn yn awr yn endid cyfreithiol newydd ac ni fydd yn cael unrhyw effaith ar sail busnes sy'n parhau'r paratoi.

1.3 Cymorth grant

Defnyddir y cymorth grant a gafwyd i ariannu gweithgareddau a gwariant sy'n cefnogi amcanion statudol ac amcanion eraill yr IPCC. Mae'r FReM yn ei gwneud yn ofynnol i gymorth grant gael ei drin fel cyllid a'i gredydu i'r gronfa wrth gefn gyffredinol, oherwydd fe'i hystyrir yn gyfraniad gan barti rheoli.

1.4 Eiddo, offer a chyfarpar

Cydnabyddir eiddo, offer a chyfarpar yn y lle cyntaf fel cost ac wedi hynny ar werth teg llai'r dibrisiant ac amhariad a godir ar ôl y dyddiad ailbriso.

Mae cost yn cynnwys faint o arian a delir i gaffael yr asedau ac yn cynnwys unrhyw gostau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i roi'r ased ar gael i'w ddefnyddio yn ôl y bwriad. Y trothwy cyfalafu ar gyfer gwariant ar PPE yw £5,000.

Nid yw'r IPCC yn berchen ar unrhyw eiddo. Caiff yr holl offer a chyfarpar eu hadolygu'n flynyddol ar gyfer amhariad a chânt eu cario ar werth teg. Mae'r IPCC wedi dewis mabwysiadu cost hanesyddol

a ddibrisiwyd fel dirprwy am werth teg ar gyfer asedau byrhoedlog neu werth isel. Mae FReM yn caniatáu hyn.

Caiff gwariant ar osod ffitiadau mewn adeiladau a gaiff eu hariannu drwy brydlesi gweithredol ei gyfalafu fel ased diriaethol nad yw'n gyfredol os yw'r gwaith yn ychwanegu gwerth at yr adeilad. Gall y costau gosod ffitiadau mewn adeiladau gynnwys costau dodrefn a chyfarpar newydd sydd yn unigol yn costio llai na £5,000 pan fydd y Swyddog Cyfrifyddu o'r farn ei fod yn fwy priodol cyfalafu'r costau. Caiff costau adnewyddu dodrefn ac offer y dyfodol eu hariannu o'r gyllideb adnoddau os yw'r costau'n is na'r trothwy cyfalafu ar adeg adnewyddu.

1.5 Asedau anniriaethol

Mesurir asedau anniriaethol pan gânt eu cydnabod gyntaf ar gost ac wedi hynny ar werth teg llai'r amorteiddiad ac amhariad a godir ar ôl y dyddiad ailbriso. Ni chyfafeir asedau anniriaethol a gynhyrchir yn fewnol, ac eithrio costau datblygu a gyfalafwyd, a chydabyddir gwariant yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y digwyddodd y gwariant.

Cyfafeir gwariant ar asedau anniriaethol sy'n drwyddedau meddalwedd a'r costau cysylltiedig o'u gweithredu pan fydd y gost yn £5,000 neu'n fwy.

Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol caiff yr asedau anniriaethol eu hasesu ar gyfer amhariad a chaiff y cyfnod a'r dull amorteiddio eu hadolygu hefyd. Caiff asedau anniriaethol eu cario ar werth teg. Mae'r IPCC wedi dewis mabwysiadu cost hanesyddol wedi'i hamorteiddio ar gyfer

gwerth teg ar gyfer asedau anniriaethol byrhoedlog neu werth isel. Mae FReM yn caniatáu hyn.

1.6 Dibrisiad ac amorteiddio

Rhoddir dibrisiant neu amorteiddiad ar yr holl asedau anghyfredol sy'n cael eu defnyddio ar sail llinell syth i ddileu'r gost neu brisiad dros oes ddefnyddiol yr ased fel a ganlyn:

Math ar ased	Oes ddefnyddiol
Ffitiadau a dodrefn	Hyd y brydles neu'r oes ddefnyddiol a ragwelir
Cerbydau	7 mlynedd
Technoleg gwybodaeth	3 i 7 mlynedd
Asedau anniriaethol anghyfredol	3 i 7 mlynedd
Asedau consesiwn gwasanaeth	Hyd y contract

1.7 Consesiynau gwasanaeth

Cyfafeir asedau sy'n cael eu defnyddio ac sydd o dan reolaeth yr IPCC fel asedau anghyfredol yn ôl y ddarpariaeth o dan ddehongliad 12, Cytundebau Consesiwn Gwasanaeth, y Pwyllgor Rhyngwladol Dehongli Adrodd Ariannol a dehongliad 29, Cytundebau Consesiwn Gwasanaeth: Datgeliadau'r Pwyllgor Dehongli Safonau. Mae'r asedau hyn wedi eu dibrisio dros oes ddisgwyliedig y contract.

1.8 Pensiynau

a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Fel rheol, dylid darparu pensiynau yn unol â darpariaethau Prif Gynllun

Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a ddisgrifir yn llawnach yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth. Mae datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS cyfan. Cyfrifir am gyfraniadau pensiwn y cyflogwr ar sail cronïadau. Mae'r rhwymedigaethau yn aros gyda'r PCSPS ac nid yr IPCC.

b) Pensiynau cyffelyb

Yn achos rhai cyn aelodau o Awdurdod Cwynion yr Heddlu, darperir pensiynau drwy drefniant 'Pensiwn Cyffelyb'. Yn yr achosion hyn, cydnabyddir cost flynyddol y cyfraniad pensiwn yn y Datganiad Cynhwysfawr o Wariant Net. Caiff symiau sy'n gysylltiedig â newidiadau ym mhriadiad actiwaraid rhwymedigaethau cynllun eu haddasu drwy'r Datganiad o newid yn ecwiti trethdalwyr. Mae'r rhwymedigaethau ar gyfer y cynllun cyffelyb yn aros gyda'r IPCC. Cydnabyddir y rhain yn y Datganiad sefyllfa ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cydymffurfio'n llawn ag IAS 19: Buddiannau Gweithiwr.

1.9 Costau ymadael yn gynnar

Mae'r IPCC yn talu am gostau ychwanegol buddion y tu hwnt i fuddion Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil mewn perthynas â gweithwyr sy'n ymddeol yn gynnar drwy dalu'r symiau sydd eu hangen yn flynyddol i Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil dros y cyfnod rhwng gadael yn gynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Mae'r IPCC yn darparu yn llawn ar gyfer hyn pan fydd y penderfyniad gadael yn gynnar yn cael ei gymeradwyo trwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau a amcangyfrifir gyda disgownt yn ôl cyfradd ddisgownt Trysorlys EM sy'n berthnasol

ar ddyddiad y SoFP. Ar 31 Mawrth 2017 roedd hyn yn 0.24 y cant mewn termau real (1.37 y cant yn 2015/16).

Mae'r costau diswyddo heb eu setlo ar ddiwedd y flwyddyn o dan gynllun iawndal y gwasanaeth sifil yn cael eu cronni yn hytrach na chael darpariaeth ar eu cyfer.

1.10 Costau staff

Yn unol â Buddiannau Gweithiwr IAS 19, mae'r IPCC yn cydnabod costau disgwylidig buddiannau gweithiwr tymor byr ar ffurf absenoldebau digolledol, fel a ganlyn:

- (a) yn achos absenoldebau digolledol cronol, pan fo'r gweithwyr yn rhoi gwasanaeth sy'n cynyddu eu hawl i absenoldebau digolledol i'r dyfodol
- (b) yn achos absenoldebau cronol nad ydynt yn ddigolledol, pan fo absenoldebau'n digwydd.

1.11 Darpariaethau

Yn unol â IAS 37, datgelir darpariaethau yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol ar gyfer ymrwymïadau cyfreithiol neu adeiladol sy'n bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd os yw swm y taliad i setlo'r ymrwymïad yn debygol ac y gellir ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Mae'r swm a gydnabyddir mewn darpariaethau yn cymryd i ystyriaeth yr adnoddau sydd eu hangen i gynnwys ymrwymïadau taliadau i'r dyfodol. Mae'r mesur wedi ei seilio ar swm y setliad gyda'r tebygolrwydd uchaf neu os yw'r hyn sy'n debygol yn gyfartal, yna'n defnyddio gwerth disgwylidig symiau'r setliad. Os yw'r effaith yn berthnasol, caiff llifau arian disgwylidig y dyfodol

eu disgowntio gan ddefnyddio'r gyfradd wirioneddol a osodir gan Drysorlys EM. I'r graddau y mae hawliadau ad-daliad yn bodoli o fewn ystyr IAS 37, maent yn cael eu cydnabod fel ased ar wahân os yw eu gwireddu mwy neu lai'n bendant.

1.12 Prydlesi

Caiff costau prydlesi gweithredol a ddelir gan yr IPCC eu codi ar y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar sail llinell syth dros gyfnod y brydles. Mae'r prydlesi gweithredol sylweddol ar gyfer adeiladau swyddfa pan nad oes opsiynau prynu ar gael.

Nid oes gan yr IPCC unrhyw brydlesi ariannol.

1.13 Incwm

Mae incwm o weithgareddau yn ymwneud yn uniongyrchol ag incwm gan CThEM a'r Swyddfa Gartref ar gyfer gweithgareddau a gyflawnir fel rhan o gyfrifoldebau a phwerau statudol yr IPCC.

Mae incwm gweithredol arall yn ymwneud â ffioedd a thaliadau am wasanaethau eraill a ddarperir.

Mae incwm yn cynrychioli gwerth yr anfonebau a yrrir ar derfyn y gwasanaethau a'r gwerth wedi ei gwblhau ond heb eto ei anfonebu.

1.14 Treth ar Werth (TAW)

Mae'r IPCC wedi'i gofrestru ar gyfer TAW, ond dim ond TAW ar bryniannau pan fydd yr IPCC yn gwneud gweithgareddau anstatudol y gall ei hawlio yn ôl. Dangosir

incwm fel incwm net o TAW, pan fydd TAW yn ddyledus, ac fe nodir gwariant gros. Mae unrhyw dreth mewnbwn sy'n adferadwy yn cael ei gredydu ar y Datganiad o wariant net cynhwysfawr.

1.15 Treth Gorfforaethol

Mae'r IPCC wedi'i gofrestru ar gyfer treth gorfforaethol fel rhan o Grŵp Treth Gorfforaethol y Swyddfa Gartref.

1.16 Safonau a gyhoeddwyd ond ddim yn effeithiol eto

Mae'r IPCC yn darparu datgeliad nad yw hyd yma wedi defnyddio safon gyfrifyddu newydd. Cyhoeddwyd IFRS 9 ac IFRS 15 yn ystod 2014/15 a bydd y ddau yn cael eu gweithredu ar ddatganiadau blynyddol yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2018 yn unol â FReM. Ni ddisgwyllir i'r safonau hyn gael effaith gwirioneddol ar ddatganiadau ariannol yr IPCC. Cyhoeddwyd IFRS 16 yn 2016/17 a bydd yn cael ei weithredu ar ddatganiadau ariannol yn dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2019; nid yw'r effaith posibl wedi cael ei asesu. Nid yw'r IPCC wedi mabwysiadu unrhyw safonau'n gynnar.

2 Datganiad o gostau gweithredu yn ôl segment gweithredol

Mae'r segmentau gweithredol yn seiliedig ar y strwythur adrodd o fewn yr IPCC. Mae hyn yn rhoi'r cyfrifoldeb ariannol i'r cyfarwyddwr sydd yn y man gorau i gymryd penderfyniadau gwariant a sicrhau bod gwerth am arian yn cael ei gyflawni.

Mae segment gweithredol Hillsborough yn cynnwys gwariant ac anariannol y Comisiwn pan fydd hynny'n addas. Mae gwybodaeth am wariant Hillsborough i'w gweld yn nodyn 23.

	2016/17 Gwariant gros £'000	2016/17 Incwm £'000	2016/17 Gwariant net £'000
Adnoddau	20,118	(15)	20,103
Gweithrediadau	28,366	(39)	28,327
Newid ac Adnoddau Dynol	3,932	-	3,932
Comisiwn	1,853	-	1,853
Hillsborough	11,127	-	11,127
Prif Weithredwr	486	-	486
Cyfreithiol	2,485	-	2,485
Strategaeth ac Effaith	4,262	-	4,262
Cyfanswm	72,629	(54)	72,575

	2015/16 Gwariant gros £'000	2015/16 Incwm £'000	2015/16 Gwariant net £'000
Adnoddau	17,598	(26)	17,572
Gweithrediadau	22,972	(201)	22,771
Newid ac Adnoddau Dynol	3,963	-	3,963
Comisiwn	2,084	-	2,084
Hillsborough	12,319	-	12,319
Prif Weithredwr	503	-	503
Cyfreithiol	2,029	-	2,029
Strategaeth ac Effaith	3,424	-	3,424
Cyfanswm	64,892	(227)	64,665

Mae cyfansoddiad segmentau adrodd yr IPCC wedi newid, oherwydd y newidiadau i strwythur mewnol y sefydliad ac mae gwybodaeth segmentau 2015/16 wedi ei hail ddatgan.

2.1. Niferoedd staff a chostau cysylltiedig

Costau staff	2016/17 £'000 Cyfanswm	2015/16 £'000 Cyfanswm
Cyflogau a thâl	37,898	32,954
Cost nawdd cymdeithasol	3,425	2,452
Cyfraniadau pensiwn	6,278	5,673
Is gyfanswm	47,601	41,079
Tynnu: adenillion yng nghyswllt secondiadau allanol	(43)	–
Costau net holl staff arall	47,558	41,079

Dangosir datgeliadau mwy manwl am gostau staff a'u niferoedd yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

2.2 Cynllun pensiwn cyffelyb

Mae rhai comisiynwyr a staff fu'n gwasanaethu fel aelodau gydag Awdurdod Cwynion yr Heddlu (PCA) yn derbyn buddiannau pensiwn cyffelyb (BBA) gan y PCSPS.

Nid yw pensiynau BBA yn cael eu hariannu, gyda'r buddiannau'n cael eu talu fel y dônt yn daladwy ac maent yn cael eu gwarantu gan yr IPCC. Nid oes cronfa ac felly dim gwarged na diffyg. Mae rhwymedigaethau'r cynllun am wasanaeth wedi ei gyfrifo gan Adran Actwari'r Llywodraeth gan ddefnyddio'r tybiaethau ariannol canlynol:

	2016/17	2015/16
Cyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	2.80%	3.60%
Cyfradd cynnydd mewn taliadau pensiynau a phensiynau gohiriedig	2.55%	2.20%
Tybiaeth chwyddiant CPI	2.55%	2.20%

Mae'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig ag aelodau fel a ganlyn:

	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Darpariaeth bensiwn		
Balans ar 1 Ebrill	1,954	2,042
Cynnydd (gostyngiad) yn y ddarpariaeth	382	(88)
Gwerth presennol rhwymedigaethau	2,336	1,954

Symiau eraill i'w datgelu er mwyn deall y newid mewn darpariaeth.

	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Rhwymedigaeth cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	1,954	2,042
symudiad yn y flwyddyn:		
Cost llog	69	71
(Enillion)/ colledion actiwaraid	378	(94)
Buddiannau a dalwyd	(65)	(65)
Cynnydd mewn rhwymedigaeth cynllun	382	(88)
Rhwymedigaeth cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	2,336	1,954

	2016/17 £'000	2015/16 £'000
Costau i'w cydnabod yn y cyfrif Datganiad o wariant net cynhwysfawr	£'000	£'000
Costau llog	69	71
Cyfanswm costau	69	71

Enillion/ colledion actiwaraidd i'w cydnabod yn Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr	2016/17 £'000	2015/16 £'000
Colled/(enillion) profiad yn codi ar rwymedigaethau'r cynllun	(17)	(40)
Newid mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	395	(54)
Cyfanswm net enillion actiwaraidd ar ecwiti trethdalwyr	378	(94)

Nid oes costau ar gyfer cyflogeion a chyflogwyr yn daladwy yn 2016/17.

Gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000	31 Mawrth 2015 £'000	31 Mawrth 2014 £'000	31 Mawrth 2013 £'000
Rhwymedigaeth yng nghyswllt					
Aelodau gweithredol	–	–	–	–	546
Pensiynwyr wedi'u gohirio	513	398	406	353	298
Pensiynau presennol	1,823	1,556	1,636	1,541	879
Cyfanswm gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	2,336	1,954	2,042	1,894	1,723
Hanes o brofiad colledion/(enillion)	(17)	(40)	(35)	75	(12)
Canran o rwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	-0.7%	-2.0%	-1.7%	4.0%	-0.7%

2.3 Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Mae'r PCSPS yn gynllun buddiant diffiniedig aml-gyflogwr nas ariennir, ond ni all yr IPCC nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Cafwyd prisiad o'r cynllun gan actiwari'r cynllun ar 31 Mawrth 2012. Mae manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Blwydd-daliadau Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer 2016/17, roedd cyfraniadau cyflogwyr o £6,072k yn daladwy i'r PCSPS (2015/16 £5,487k) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 20 y cant i 24.5 y cant o dâl pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr, bob pedair blynedd fel arfer, yn dilyn priso'r cynllun yn llawn.

Pennir cyfraddau'r cyfraniadau i dalu cost y buddiannau a gronwyd yn ystod 2016/17 i'w talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddiannau a dalwyd yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall gweithwyr ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth neu bensiwn cyfranddeiliaid gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr o £198k (2015/16 £178k) i un neu fwy o'r panel o dri darparwr pensiynau cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac maent yn amrywio o 8 y cant i 14.75 y cant o gyflog pensiynadwy.

Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau gweithwyr hyd at 3 y cant o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £8k (2015/16 £7k), 0.8 y cant o'r tâl pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost darparu buddion cyfandaliad yn y dyfodol yn dilyn marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad y cyflogeion hyn ar sail iechyd.

3 Costau gweithredu eraill

	Nodyn	2016/17 £'000	2015/16 £'000
Mae gwariant arall yn cynnwys y canlynol:			
TG		3,032	2,701
Taliadau gwasanaeth consesiwn gwasanaeth		5,070	4,462
Rhentu llety		2,560	2,538
Llety nad yw'n cael ei rentu		3,172	3,234
Teithio a chynhaliaeth		1,633	2,102
Hyfforddiant		1,033	879
Fforensig		477	330
Recriwtio		969	956
Offer swyddfa		200	237
Ymchwil		161	124
Gwasanaethau cyfreithiol		1,039	666
Cyfarwyddyd i'r heddlu a'r cyhoedd		112	105
Ffioedd proffesiynol		210	102
Ffi archwiliad – allanol		47	47
Taliadau llog consesiwn gwasanaeth		12	30
Costau eraill		477	519
Cyfanswm gwariant arall		20,204	19,032
Eitemau anariannol:			
Dibrisiant	5	2,932	2,743
Amorteiddiad	6	1,661	1,539
Darpariaethau a ddarparwyd yn y flwyddyn tynnu'r darpariaethau nad oedd eu hangen	13	(22)	(173)
Colled ar waredu asedau		227	601
Cost pensiwn BBA		69	71
Cyfanswm eitemau anariannol		4,867	4,781
Cyfanswm		25,071	23,813

Roedd y ffi am yr archwiliad allanol o'r Datganiad o Gyfrifon yn £47,000 (2015/16 £47,000). Ni wnaeth yr archwilwyr allanol unrhyw waith nad oedd yn waith archwilio.

4 Incwm

Derbyniodd yr IPCC incwm gan CThEM ar gyfer ymchwiliadau a wnaethpwyd o dan adran 28 Deddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005. Derbyniwyd incwm gan y Swyddfa Gartref ar gyfer ymchwiliadau a gynhaliwyd i atgyfeiriadau priodol.

Mae ein hincwm gan CThEM ac UKBA wedi ei seilio ar gostau gwirioneddol y gwaith a wnaethpwyd.

Gweler y wybodaeth ynglŷn â dyrannu incwm i segmentau yn nodyn 2 a gellir gweld rhagor o wybodaeth am ffioedd a thaliadau mewn rhan arall o'r Adroddiad Atebolwydd.

5 Eiddo, offer a chyfarpar

Cost neu brisiad	Taliadau ar gyfrif ac asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000	Technoleg gwybodaeth £'000	Cerbydau £'000	Dodrefn a ffitiadau £'000	Cyfanswm £'000
Ar 1 Ebrill 2016	656	6,241	853	11,535	19,285
Ailddosbarthiadau	(653)	636	–	17	–
Ychwanegiadau	1,131	508	–	543	2,182
Gwarediadau	–	(658)	–	–	(658)
Ar 31 Mawrth 2017	1,134	6,727	853	12,095	20,809
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2016	–	3,264	55	6,484	9,803
Tâl am y flwyddyn	–	994	122	1,816	2,932
Gwarediadau	–	(614)	–	–	(614)
Ar 31 Mawrth 2017	–	3,644	177	8,300	12,121
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017	1,134	3,083	676	3,795	8,688
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2016	656	2,977	798	5,051	9,482
Ariannu asedau:					
Ar drefniadau consesiwn gwasanaeth SoFP	–	701	–	–	701

	Taliadau ar gyfrif ac asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000	Technoleg gwybodaeth £'000	Cerbydau £'000	Dodrefn a ffitiadau £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2015	984	5,151	442	9,106	15,683
Aiiddosbarthiadau	(984)	202	–	782	–
Ychwanegiadau	656	1,008	776	1,647	4,087
Gwarediadau	–	(120)	(365)	–	(485)
Ar 31 Mawrth 2016	656	6,241	853	11,535	19,285
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2015	–	2,433	245	4,756	7,434
Tâl am y flwyddyn	–	951	64	1,728	2,743
Gwarediadau	–	(120)	(254)	–	(374)
Ar 31 Mawrth 2016	–	3,264	55	6,484	9,803
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2016	656	2,977	798	5,051	9,482
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015	984	2,718	197	4,350	8,249
Ariannu asedau:					
Ar drefniadau consesiwn gwasanaeth SoFP		959	–	–	959

6 Asedau anniriaethol

	Taliadau ar gyfrif ac asedau sy'n cael eu hadeiladu £'000	Technoleg gwybodaeth £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad			
Ar 1 Ebrill 2016	426	10,092	10,518
Ailddosbarthiadau	(358)	358	-
Ychwanegiadau	28	315	343
Gwarediadau	(72)	(416)	(488)
Ar 31 Mawrth 2017	24	10,349	10,373
Amorteiddiad			
Ar 1 Ebrill 2016	-	4,390	4,390
Tâl am y flwyddyn	-	1,661	1,661
Gwarediadau	-	(305)	(305)
Ar 31 Mawrth 2017	-	5,746	5,746
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2017	24	4,603	4,627
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2016	426	5,702	6,128
Ariannu asedau:			
Ar drefniadau consesiwn gwasanaeth SoFP	-	2,011	2,011
Cost neu brisiad			
Ar 1 Ebrill 2015	747	9,478	10,225
Ailddosbarthiadau	(724)	724	-
Ychwanegiadau	403	835	1,238
Gwarediadau	-	(945)	(945)
Ar 31 Mawrth 2016	426	10,092	10,518

Amorteiddiad			
Ar 1 Ebrill 2015	–	3,205	3,205
Tâl am y flwyddyn	–	1,539	1,539
Gwarediadau	–	(354)	(354)
Ar 31 Mawrth 2016	–	4,390	4,390
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2016	426	5,702	6,128
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2015	747	6,273	7,020
Ariannu asedau:			
Ar drefniadau consesiwn gwasanaeth SoFP	–	2,791	2,791

7 Offerynnau ariannol

Nid yw'r IPCC yn dal unrhyw offerynnau ariannol cymhleth. Yr unig offerynnau ariannol sydd wedi eu cynnwys yn y cyfrifon yw derbyniadwyon a thaladwyon. Cydnabyddir derbyniadwyon masnach ar y dechrau ar werth teg llai darpariaeth ar gyfer amhariad. Gwneir darpariaeth ar gyfer amhariad pan fydd tystiolaeth y bydd yr IPCC yn methu casglu swm dyledus yn unol â'r telerau y cytunwyd arnynt.

Mae adnoddau'r IPCC yn cael eu cwrdd yn bennaf trwy gymorth grant gan y Swyddfa Gartref drwy'r broses gyflenwi ac o incwm o waith a wneir ar sail ad-dalu. Nid oes gan yr IPCC unrhyw bwerau i fenthyg arian nac i fuddsoddi cronfeydd dros ben ac eithrio asedau a rhwymedigaethau ariannol a gynhyrchir gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd. O ganlyniad nid yw'r IPCC yn agored i fawr ddim neu unrhyw risg credyd, hylifedd, arian tramor na chwyddiant.

8 Amhariadau

Nid oes gan yr IPCC amhariadau yn ystod y cyfnod.

9 Rhestrau

Nid oes gan yr IPCC restrau yn y cyfnod.

10 Derbyniadwyon masnach, asedau ariannol ac eraill

Derbyniadwyon masnach, asedau ariannol ac eraill	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn:		
Rhan gyfredol o dderbyniadwyon consesiwn gwasanaeth	97	496
Incwm cronnus	20	356
Derbyniadwyon masnach	8	8
Derbyniadwyon eraill	-	1
Blaensymiau staff	75	78
Rhagdaliadau	1,001	739
	1,201	1,678
Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn:		
	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Rhan anghyfredol o dderbyniadwyon consesiwn gwasanaeth	162	259
	162	259
Cyfanswm masnach a derbyniadwyon eraill	1,363	1,937

11 Arian a chyfwerth ag arian

	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Balans cychwynnol	2,904	6,823
Newid net mewn balansau arian yn ystod y flwyddyn	1,800	(3,919)
Balans arian cau	4,704	2,904

Dim ond arian parod sy'n cael ei gadw ac mae ar gael ar unwaith o Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth.

12 Taladwyon masnach a rhwymedigaethau cyfredol eraill

	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Symiau sy'n dod yn ddyledus o fewn blwyddyn		
TAW	(4)	–
Trethi a nawdd cymdeithasol arall	(2,078)	(1,845)
Taladwyon masnach	(196)	(234)
Taladwyon eraill	(5)	(1)
Croniadau ac incwm gohiriedig	(3,115)	(2,403)
Rhan gyfredol o groniadau trefniant consesiwn gwasanaeth am asedau sy'n dod i ddefnydd cyn eu talu	(93)	(452)
Rhan gyfredol o elfen brydles ariannol briodolledig y trefniant consesiwn gwasanaeth	(97)	(496)
	(5,588)	(5,431)
Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn		
	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl blwyddyn		
Taladwyon eraill, croniadau ac incwm gohiriedig	(298)	(486)
Rhan anghyfredol o groniadau trefniant consesiwn gwasanaeth am asedau sy'n dod i ddefnydd cyn eu talu	(154)	(236)
Elfen brydles ariannol briodolledig y trefniant consesiwn gwasanaeth	(162)	(259)
	(614)	(981)

12.1 Rhwymedigaethau eraill

Mae IAS 19 yn ei gwneud yn ofynnol cael datgeliad buddiannau gweithwyr a gydnabyddir yn y cyfnod y mae'r endid yn derbyn gwasanaethau gan y gweithiwr, yn hytrach na phan fo'r buddiannau yn cael eu talu neu yn daladwy. Gan ystyried y diffiniad hwn o IAS 19, mae'r IPCC yn cydnabod cronïadau gwyliau am y flwyddyn 2016/17 i fod yn fuddiannau staff.

Mae nifer cyfartalog y gwyliau a gronnwyd y pen yn seiliedig ar nifer y staff ar ddiwedd mis Mawrth 2017 yn bedwar diwrnod (pedwar diwrnod ym Mawrth 2016).

	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Buddiannau staff	(811)	(659)
Cyfanswm	(811)	(659)

13 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

Ar gyfer darpariaethau eiddo mae'r IPCC yn cydnabod darpariaeth dadfeillion ar gyfer pob eiddo ar brydles lle mae ganddo rwymedigaeth i sicrhau bod yr eiddo mewn cyflwr da ar ddiwedd y brydles. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar gostau amcangyfrifedig adfer addasiadau a wnaed gan yr IPCC a rhwymedigaethau atgyweirio sy'n ofynnol yn ystod cyfnod y brydles. Yr amcangyfrif o gost adfer addasiadau a wnaed i'r adeiladau yw £1,771,000 (£1,195,000 ar gyfer 2015/16). Yn unol ag IAS 37 Darpariaethau, Rhwymedigaethau Wrth Gefn ac Asedau Wrth Gefn, cydnabuwyd costau adfer fel rhan o'r asedau dodrefnu a chânt eu dibrisio yn ystod y brydles.

Y ddarpariaeth gadael yn gynnar yw'r balans dros ben o gostau gadael yn gynnar y cyfarwyddwyr a staff eraill a gollodd eu swyddi cyn 1 Ebrill 2017.

Cafodd y ddarpariaeth gadael yn gynnar ddisgownt ar raddfa o 0.24% (1.37% ar gyfer 2015/16) a osodwyd gan Drysorlys EM.

	Eiddo £'000	Gadael yn gynnar £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Ebrill 2016	1,195	137	1,332
A ddarparwyd yn y flwyddyn	600	2	602
Darpariaethau nad oedd eu hangen wedi'u hysgrifennu'n ôl	(24)	–	(24)
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	–	(18)	(18)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau	576	(16)	560
Balans ar 31 Mawrth 2017	1,771	121	1,892
Cynrychiolir gan:			
Elfen anghyfredol o'r ddarpariaeth	1,771	–	1,771
Elfen gyfredol o'r ddarpariaeth	–	121	121
Dadansoddiad o amseriad disgwylidig llifoedd gostyngol:			
	Eiddo £'000	Gadael yn gynnar £'000	Cyfanswm £'000
Dim hwyrach na blwyddyn	–	121	121
Yn hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd	1,382	–	1,382
Hwyrach na phum mlynedd	389	–	389
Balans ar 31 Mawrth 2017	1,771	121	1,892

	Eiddo £'000	Gadael yn gynnar £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 31 Mawrth 2015	1,256	183	1,439
A ddarparwyd yn y flwyddyn	236	3	239
Darpariaethau nad oedd eu hangen wedi'u hysgrifennu'n ôl	(297)	–	(297)
Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn y flwyddyn	–	(49)	(49)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau	(61)	(46)	(107)
Balans ar 31 Mawrth 2016	1,195	137	1,332
Cynrychiolir gan:			
Elfen anghyfredol o'r ddarpariaeth	1,195	119	1,314
Elfen gyfredol o'r ddarpariaeth	–	18	18

14 Ymrwymïadau cyfalaf

Ar 31 Mawrth 2017, roedd gan yr IPCC ymrwymïadau cyfalaf o £32k (dim ar 31 Mawrth 2016).

15 Ymrwymïadau dan brydlesau

15.1 Prydlesau gweithredol

Ar 31 Mawrth roedd gan yr IPCC y cyfanswm taliadau prydles gofynnol i'r dyfodol o dan brydlesi gweithredu nad ydynt yn brydlesi y gellir eu canslo ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol:

	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Ymrwymïadau o dan brydlesau gweithredu yn cynnwys		
Adeiladau:		
Dim hwyrach na blwyddyn	2,856	2,696
Yn hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd	2,517	4,436
Cyfanswm yr ymrwymïadau	5,373	7,132

15.2 Prydlesau ariannol

Nid oedd gan yr IPCC unrhyw brydlesau ariannol yn y cyfnod.

16 Ymrwymïadau o dan drefniadau consesiwn gwasanaeth

Gwnaeth yr IPCC gontract gyda Steria Limited ar 25 Awst 2009 am ddarpariaeth gwasanaethau TG a Theleffoni. Rhoddwyd newyddiad o'r contract i Soprasteria Limited yn ystod 2014/15.

Daeth y contract i rym ar 20 Rhagfyr 2009. Mae hwn yn gontract pris sefydlog gyda thymor o ddeng mlynedd a thorbywynt ar saith mlynedd. Y torbywynt cyntaf oedd Rhagfyr 2016 ond ni ddefnyddiwyd hwn.

Ein bwriad yw gadael y contract yn raddol ar ôl mis Ionawr 2017. Bydd hyn yn golygu gwahanu gwasanaethau TGCh i ddarparwyr masnachol eraill, addasu rheolaethau pensaernïaeth dechnegol a diogelwch yn unol â hynny a throsglwyddo asedau TGCh a gwasanaethau i ddarparwyr newydd. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i alinio strategaeth

ddigidol y Llywodraeth trwy ddefnyddio mwy ar ddarpariaeth gwmwl, ffynhonnell agored a datblygu ystwyth.

Ar ddyddiad diwedd y flwyddyn gwnaed penderfyniad i beidio â gweithredu ar y toriad ac felly paratowyd nodiadau 10, 12 ac 16 ar yr un sail â'r llynedd.

O dan y contract mae gan Soprasteria Limited ymrwymiad i adeiladu a chynnal asedau diriaethol ac anniriaethol gyda gwerth disgwylidig ar 31 Mawrth 2017 o £6.9 miliwn (£7.1 miliwn ar 31 Mawrth 2016) at ddefnydd yr IPCC yn ogystal â darparu gwasanaethau gweithredu dros oes y contract ar werth disgwylidig ar 31 Mawrth 2017 o £41 miliwn (£40 miliwn ar 31 Mawrth 2016). Disgwylir y bydd y taliadau cyllid dros oes y contract yn £0.6 miliwn (£0.6 miliwn ar 31 Mawrth 2016).

Mae hefyd ymrwymiad ar Soprasteria Limited i adnewyddu asedau yn ystod oes y contract, yn bennaf ym mlynnyddoedd pedwar a phump. Disgwylir i'r asedau hyn fod â gwerth gweddilliol bychan iawn ar ddiwedd y tymor deng mlynedd.

Cytunwyd ar y taliadau blynyddol i'w gwneud gan yr IPCC ar gychwyn y contract ac maent yn amodol ar hysbysiadau newid parhaus y contract. Nid oes prin ddim ansicrwydd ynghylch llif arian parod i'r dyfodol. Mae'r contract yn darparu ar gyfer ailbrisio os yw'r RPI-X yn mynd dros 6 y cant.

Mae'r asedau a gaffaelir o dan y contract dan reolaeth yr IPCC ac o dan IFRIC 12 mae'r contract yn drefniant consesiwn gwasanaeth gyda'r IPCC fel rhoddwr a Soprasteria Limited fel y gweithredwr.

Mae SIC dehongliad 29 yn disgrifio'r wybodaeth sydd i'w datgelu yng nghyfrifon y rhoddwr.

O dan IFRIC 12, rhaid i'r IPCC gydnabod yn ei ddatganiad sefyllfa ariannol yr asedau sydd i'w darparu o dan y trefniant consesiwn gwasanaeth. Dangosir y rhain fel a ganlyn:

- asedau sydd eisoes yn cael eu defnyddio yn cael eu cynnwys yn y nodyn eiddo, offer a chyfarpar a'r asedau anniriaethol mewn man arall yn y cyfrifon hyn (nodyn 5/6)
- dangosir taliadau a wneir cyn cael yr asedau a ddarparwyd yn y nodyn derbyniadwyon masnach mewn man arall yn y cyfrifon hyn (nodyn 10)
- dangosir cronïadau ar gyfer asedau sy'n dod i ddefnydd cyn talu yn y nodyn taladwyon masnach mewn man arall yn y cyfrifon hyn (nodyn 12)
- dangosir asedau sydd eto i'w darparu yn y nodyn derbyniadwyon consesiwn gwasanaeth mewn man arall yn y cyfrifon hyn (nodyn 10).

Mae'r gydnabyddiaeth hon o asedau'n creu ymrwymiad ariannol cyfatebol ar yr IPCC a dengys y nodyn isod ymrwymïadau'r IPCC i dalu am asedau sydd i'w darparu yn ystod cyfnodau i'r dyfodol.

Mae'r IPCC yn gwneud taliad unedol yn cynnwys tâl gwasanaeth, tâl cyfalaf a llog.

Mae'r nodiadau isod yn dangos ymrwymïadau'r IPCC i dalu am wasanaethau gweithredu i'r dyfodol.

Gweler y taliadau gwasanaeth gweithredu y talwyd amdanynt eisoes yn nodyn 3.

16.1 Datganiad o sefyllfa ariannol (SoFP)

	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Mae cyfanswm yr ymrwymadau o dan drefniadau consesiwn gwasanaeth ar y SoFP ar gyfer y cyfnodau canlynol yn cynnwys:		
Dim hwyrach na blwyddyn	103	508
Yn hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd	165	269
	268	777
Llai elfen llog	(9)	(22)
Cyfanswm ymrwymadau consesiwn gwasanaeth ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol	259	755
cynrychiolir gan:		
Cyfredol (wedi'u cynnwys mewn derbyniadwyon masnach a thaladwyon eraill)	97	496
Anghyfredol (wedi'u cynnwys mewn symiau taladwy a derbyniadwyon masnach ac eraill)	162	259
Cyfanswm ymrwymadau consesiwn gwasanaeth ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol	259	755

16.2 Codwyd ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr

Roedd cyfanswm yr arian a godir yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer elfen gwasanaeth y trefniant consesiynau gwasanaeth SoFP yn £5 miliwn (2015/16 £4.5 miliwn).

	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Mae'r taliadau y mae'r IPCC wedi ei ymrwymo iddynt ar 31 Mawrth 2017, wedi eu dadansoddi yn ôl y cyfnod y mae'r ymrwymiad y dod i ben ynddo, fel a ganlyn:		
Dim hwyrach na blwyddyn	5,234	5,404
Yn hwyrach na blwyddyn ond ddim hwyrach na phum mlynedd	9,007	12,993
Hwyrach na phum mlynedd	–	–
	14,241	18,397

17 Ymrwymadau ariannol eraill

Nid oes gan yr IPCC unrhyw ymrwymadau ariannol eraill.

18 Rhwymedigaethau wrth gefn a ddatgelir o dan IAS 37

Mae gan yr IPCC rwymedigaeth wrth gefn o ran nifer o hawliadau cyfreithiol neu hawliadau posibl yn erbyn yr IPCC, na ellir rhagdybio'r canlyniad na'r amseriad yn bendant. Darperir ar gyfer yr holl rwymedigaethau a ddisgwylir yn llawn yn y datganiadau ariannol.

Mae'r darpariaethau gadael yn gynnar yn nodyn 13 wedi eu seilio ar amcangyfrifon sydd wedi eu seilio ar Gynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil. Os oes newid yn y telerau gall yr IPCC wynebu costau pellach. Ni ellir mesur y rhwymedigaeth wrth gefn hon. Os oes newid yn y telerau sy'n effeithio ar y darpariaethau a wnaethpwyd eisoes, ail-amcangyfrifir y ddarpariaeth.

Mae'r dadfeiliad yn nodyn 13 ar sail costau amcangyfrifedig ail sefydlu ac nid ydynt yn cynnwys colledion dilynol posibl. Setlir costau gadael stadau trwy drafod, ac ni ellir amcangyfrif canlyniad ac amseru hynny ag unrhyw sicrwydd a gall yr IPCC fod yn atebol am ragor o gostau. Darperir ar gyfer yr holl rwymedigaethau a ddisgwylir yn llawn yn y datganiadau ariannol.

19 Trafodion partïon cysylltiedig

Mae'r Swyddfa Gartref yn un o bartïon cysylltiedig yr IPCC. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 darparodd y

Swyddfa Gartref grant mewn cymorth, fel y datgelwyd yn nodyn 22. Yn ychwanegol, trosglwyddodd y Swyddfa Gartref £3.085 miliwn yn ystod y flwyddyn i Uned Eiddo'r Llywodraeth i dalu am wariant cyfalaf yn deillio o symud i ganolfan i'r llywodraeth yn Canary Wharf, Llundain.

Mae cyrff y llywodraeth yn bartïon cysylltiedig. Dangosir yr incwm o'r cyrff hyn o dan Incwm Arall yn nodyn 4. Mae'r symiau sy'n ddyledus gan y cyrff hyn i'r IPCC yn cael eu dosbarthu fel derbyniadwyon masnach ac eraill ac yn cyfateb i £16k (£268k ym Mawrth 2016).

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil a Swyddfa'r Cabinet hefyd yn bartïon cysylltiedig. Gellir gweld gwybodaeth bellach ynglŷn â'r trafodion gyda'r cyrff hyn yn yr adran bensiynau yn yr adroddiad cydnabyddiaeth.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 ni wnaeth unrhyw un o'r comisiynwyr, cyfarwyddwyr na staff rheoli allweddol a benodwyd unrhyw drafodion perthnasol â'r IPCC.

Mae'r IPCC wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad, sy'n seiliedig ar God Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Mae'r IPCC yn cynnal cofrestr o fuddiannau ar gyfer Comisiynwyr a phob aelod o staff y mae'n ofynnol iddynt ddatgan buddiannau. Mae'r gofrestr o fuddiannau ar gyfer Comisiynwyr ar gael i'r cyhoedd ac mae ar ein [gwefan](#). Pan wneir unrhyw benderfyniadau a allai gael eu hystyried, yn rhesymol, yn rhai sy'n arwain at wrthdaro buddiannau, mae'n ofynnol i unigolion ddatgan y buddiant perthnasol a, lle y bo'n briodol, beidio â

bod yn rhan o'r broses o wneud y penderfyniad. Mae codau ymddygiad y comisiynwyr a'r staff ar gael ar ein [gwefan](#). Mae gweithdrefnau'r IPCC hefyd yn sicrhau nad yw ymchwilwyr yn ymwneud ag ymchwiliadau y gallent fod â buddiant ynddynt.

20 Asedau trydydd parti

Weithiau pan fo angen mae'r IPCC yn dal asedau trydydd parti i hwyluso ymchwiliadau. Caiff y rhain eu cadw'n ddiogel ac fel arfer cânt eu dychwelwyd i'w perchennog cyfreithiol pan na fo angen amdanynt bellach. Ni ellir gwneud amcangyfrifon dibynadwy o'u gwerth.

Nid yw asedau trydydd parti yn cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol oherwydd nad oes gan yr IPCC fuddiant llesiannol ynddynt. Ar 31 Mawrth 2017 nid oedd unrhyw asedau ariannol yn cael eu dal.

21 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Cafodd yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon eu hawdurdodi i'w cyhoeddi gan y Swyddog Cyfrifyddu ar yr un diwrnod ag yr ardystiwyd y cyfrifon gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

22 Cymorth grant

Ariennir yr IPCC gan gymorth grant y Swyddfa Gartref.

	2016/17 £'000	2015/16 £'000
Derbyniwyd ar gyfer gwariant refeniw	69,116	57,884
Derbyniwyd ar gyfer gwariant cyfalaf	1,884	5,116
	71,000	63,000

23 Hillsborough

Mae'r Swyddfa Gartref wedi cytuno i roi grant cymorth ychwanegol pan fydd yr IPCC yn tynnu gwariant ychwanegol o ganlyniad i'r ymchwiliad i'r hyn a ddilynodd trychineb Hillsborough. Mae'r nodyn hwn yn dangos y gwariant a dynnwyd yn ystod 2016/17 a 2015/16.

	2016/17 £'000	2015/16 £'000
Costau staff		
Cyflogau a thâl	3,466	4,707
Cost nawdd cymdeithasol	357	394
Cyfraniadau pensiwn	620	850
Staff dros dro	3,727	2,022
Cyfanswm costau staff	8,170	7,973
Gwariant arall		
Rhentu llety	516	598
Llety nad yw'n cael ei rentu	609	727
TG	888	1,054
Gwasanaethau cyfreithiol	92	74
Costau eraill	121	125
Recriwtio	15	33
Offer swyddfa	35	37
Hyfforddiant	22	65
Teithio a chynhaliaeth	162	396
Cyfanswm gwariant arall	2,460	3,109
Anariannol		
Dibrisiant	464	1,018
Colled ar waredu asedau	33	219
Cyfanswm eitemau anariannol	497	1,237
Cyfanswm gwariant referniw	11,127	12,319

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
90 High Holborn
London
WC1V 6BH

Ffôn: 0300 020 0096
E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk/cy

www.policeconduct.gov.uk

Chwefror 2018

CCS1217603636 12/17

978-1-5286-0163-4